



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 7 Chwefror 2012
Tuesday, 7 February 2012

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
31	Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement
37	Datganiad: y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyngor Sir Ynys Môn Statement: Update on the Isle of Anglesey County Council
46	Datganiad: Adroddiad Blynyddol Cyntaf Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd Statement: Climate Change Commission for Wales First Annual Report
60	Mae Addysgu'n Gwneud Gwahaniaeth Teaching Makes a Difference
87	Hwyluso'r Drefn—Ffordd Newydd o Reoleiddio yn y Diwydiant Amaeth Working Smarter—A New Approach to Regulation in the Agriculture Industry
109	Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

Y Llywydd: Prynawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

The Presiding Officer: Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Manteision Dysgu i Bobl Hŷn

1. Mark Isherwood: *Pa ddarpariaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud i gynyddu ymwybyddiaeth o fanteision dysgu i bobl hyn. OAQ(4)0344(FM)*

The First Minister (Carwyn Jones): We encourage a wide range of providers and voluntary organisations to work in partnership to deliver learning to meet the needs of older people. We acknowledge the benefits that learning brings to older people through key strategies such as delivering community learning for Wales and the strategy for older people.

Mark Isherwood: Two weeks ago, I hosted an Active Ageing seminar in the Assembly, at which reference was made to the recent Estyn report on the importance of learning for people aged 65 and over. How do you therefore respond to the statements in that report that Welsh Government departments do not currently do enough to join up the different elements of the older people's strategy and the delivering community learning policy statement, and that current emphasis on skills for employment has resulted in gaps in provision for older learners, mainly those aged over 65 who have retired, some of whom are in isolated or vulnerable situations?

The First Minister: The Estyn report 'Skills for older learners' looked at delivery prior to the publication of the delivering community learning for Wales policy. That policy statement recognises the benefits of non-formal learning and encourages providers to be innovative in their approach.

Benefits of Learning to Older People

1. Mark Isherwood: *What provision has the Welsh Government made to increase awareness about the benefits that learning brings to older people. OAQ(4)0344(FM)*

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Rydym yn annog ystod eang o ddarparwyr a sefydliadau gwirfoddol i weithio mewn partneriaeth i ddarparu dysgu i ddiwallu anghenion pobl hŷn. Rydym yn cydnabod y manteision mae dysgu yn dod i bobl hŷn drwy strategaethau allweddol fel cyflenwi dysgu cymunedol i Gymru a'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn.

Mark Isherwood: Bythefnos yn ôl, cynhaliâs seminar Heneiddio'n Egniol yn y Cynulliad, lle cyfeiriwyd at adroddiad diweddar gan Estyn ar bwysigrwydd dysgu ar gyfer pobl 65 oed a throsodd. Sut felly yr ydych yn ymateb i'r datganiadau yn yr adroddiad hwnnw nad yw adrannau Llywodraeth Cymru yn gwneud digon ar hyn o bryd i uno elfennau gwahanol y strategaeth ar gyfer pobl hŷn a'r datganiad polisi cyflenwi dysgu cymunedol, a bod y pwyslais presennol ar sgiliau ar gyfer cyflogaeth wedi arwain at fylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr hŷn, yn bennaf y rhai dros 65 oed sydd wedi ymddeol, y mae rhai ohonynt mewn sefyllfaoedd ynysig neu sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed?

Y Prif Weinidog: Edrychodd adroddiad Estyn, 'Sgiliau ar gyfer dysgwyr hŷn', ar gyflawni cyn cyhoeddi'r polisi cyflenwi dysgu cymunedol i Gymru. Mae'r datganiad polisi hwnnw'n cydnabod y manteision dysgu anffurfiol ac yn annog darparwyr i fod yn arloesol yn eu hymagwedd.

Lindsay Whittle: My question is rather less condescending towards older people. I particularly agree with Baroness Finlay's comments in today's *Western Mail* that someone may look eccentric and odd but could be an absolute encyclopaedia of knowledge. Will the First Minister acknowledge the benefits to children of learning from older people, by recommending that schools invite older people to recount their experience of growing up in Wales, in order to foster a greater respect for older people among primary and secondary school pupils? In my opinion, that is the benefit of learning to older people.

The First Minister: In my experience, a lot of schools already do this by inviting older members of the community to tell children what life was like when they were children and to describe how communities have changed over the years. It is a model that gives children an extra view on life and on the history of their community.

Cymorth i Fusnesau Bach

2. Angela Burns: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddarparu cymorth i fusnesau bach ledled Cymru. OAQ(4)0354(FM)*

The First Minister: We have made clear commitments to support businesses throughout Wales and our plans are set out in the programme for government.

Angela Burns: Last October, my colleague, Darren Millar, raised with you the fact that, in 2009, Wales had the lowest business birth rate of all the UK nations and regions. He asked what action the Welsh Government was taking to improve entrepreneurship in Wales. You responded with four examples: the microbusiness strategy; the business entrepreneurship champion; the youth entrepreneurship strategy; and the start-up service that you described as designed to help so many new businesses. What assessment, First Minister, have you made of their effectiveness in supporting Welsh businesses?

Lindsay Whittle: Mae fy nghwestiwn ychydig yn llai nawddoglyd tuag at bobl hŷn. Rwyf yn cytuno'n arbennig gyda sylwadau'r Farwnes Finlay yn y *Western Mail* heddiw y gallai rhywun edrych yn ecsentrig ac od, ond y gallent fod yn drysorfa o wybodaeth. A wnaiff y Prif Weinidog gydnabod y manteision i blant o ddysgu oddi wrth bobl hŷn, drwy argymhell bod ysgolion yn gwahodd pobl hŷn i sôn am eu profiad o dyfu i fyny yng Nghymru, er mwyn meithrin mwy o barch at bobl hŷn ymhlith disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd? Yn fy marn i, dyna yw budd dysgu i bobl hŷn.

Y Prif Weinidog: Yn fy mhrofiad i, mae llawer o ysgolion eisoes yn gwneud hyn drwy wahodd aelodau hŷn o'r gymuned i ddweud wrth blant sut oedd bywyd pan oeddent yn blant eu hunain ac i ddisgrifio sut mae cymunedau wedi newid dros y blynyddoedd. Mae'n fodel sy'n rhoi golwg arall i blant ar fywyd ac ar hanes eu cymuned.

Support for Small Businesses

2. Angela Burns: *Will the First Minister outline what steps the Welsh Government is taking to provide support for small businesses across Wales. OAQ(4)0354(FM)*

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi gwneud ymrwymadau clir i gefnogi busnesau ledled Cymru ac mae ein cynlluniau wedi'u nodi yn y rhaglen ar gyfer llywodraeth.

Angela Burns: Fis Hydref diwethaf, cododd fy nghyd-Aelod, Darren Millar, y ffaith gyda chi mai Cymru oedd â'r gyfradd isaf o ran geni busnes ymysg holl genhedloedd a rhanbarthau'r DU yn 2009. Gofynnodd pa gamau roedd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella entrepreneuriaeth yng Nghymru. Gwnaethoch ymateb gyda phedair enghraifft: y strategaeth microfusnes; yr hyrwyddwr entrepreneuriaeth busnes; y strategaeth entrepreneuriaeth ieuenctid; a'r gwasanaeth cychwyn busnes a ddisgrifiwyd gennych fel cynllun i helpu cymaint o fusnesau newydd. Pa asesiad, Brif Weinidog, a wnaethoch o'u heffeithiolrwydd o ran

cefnogi busnesau Cymru?

The First Minister: We have the regional centre service, which has 12 regional centres located across Wales. Since April of last year, the service has provided advice to 3,499 businesses across Wales. This is in addition to what has been done in terms of recruiting business entrepreneurship champions, the youth entrepreneurship strategy and the various funds that have been announced over the course of the last few months by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science.

Kenneth Skates: First Minister, as you are well aware, broadband speed is of supreme importance to small businesses in Wales. A recent report by Ofcom UK has shown that the average broadband speed across the UK has increased by 22% in the past 12 months. However, the research also highlights that areas in north Wales are falling behind, and even Cardiff in south Wales is not graded as one of the fastest areas for internet access in the UK. Will you do all that you can to ensure that Wales gets its fair share of UK funding to improve internet access speeds, and that in rolling out superfast broadband, we ensure that businesses in north Wales have a fair platform on which to attract, retain and grow business?

The First Minister: Yes, we will. We have secured £56.9 million from the UK Government for the next generation broadband for Wales project, and the UK Government has pledged an additional £100 million to create up to 10 super-connected cities across the UK, and has named Cardiff as one of the recipients. That is something we welcome.

Alun Ffred Jones: Mae adroddiad diweddar yn dangos bod un o bob saith o siopau yn ein trefi yn wag. Mae hyn yn tansailio hyder trigolion y trefi hynny ac yn tansailio hyder y gymuned fusnes. Pa gamau ymarferol mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i geisio bywiogi strydoedd mawr ein pentrefi a'n trefi?

Y Prif Weinidog: Mae'n bwysig sicrhau bod

Y Prif Weinidog: Mae gennym y gwasanaeth canolfan ranbarthol, sydd â 12 o ganolfannau rhanbarthol ledled Cymru. Ers mis Ebrill y llynedd, mae'r gwasanaeth wedi darparu cyngor i 3,499 o fusnesau ledled Cymru. Mae hyn yn ychwanegol at yr hyn a wnaed o ran recriwtio hyrwyddwyr entrepreneuriaeth busnes, y strategaeth entrepreneuriaeth ieuencid a'r cronfeydd amrywiol a gyhoeddwyd yn ystod y misoedd diwethaf gan y Gweinidog Menter, Busnes, Technoleg a Gwyddoniaeth.

Kenneth Skates: Brif Weinidog, fel y gwyddoch yn dda, mae cyflymder band eang yn hynod bwysig i fusnesau bach yng Nghymru. Dangosodd adroddiad diweddar gan Ofcom UK bod cyflymder band eang ar gyfartaledd ar draws y DU wedi cynyddu o 22% yn y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae'r ymchwil hefyd yn pwysleisio bod ardaloedd yn y gogledd yn colli tir, ac nad yw hyd yn oed Caerdydd yn ne Cymru yn cael ei graddio fel un o'r ardaloedd cyflymaf ar gyfer mynediad i'r rhyngwrwd yn y DU. A wnewch chi bopeth o fewn eich gallu i sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran deg o arian y DU i wella cyflymder mynediad i'r rhyngwrwd, a'n bod, wrth gyflwyno band eang cyflym iawn, yn sicrhau bod busnesau yn y gogledd yn cael llwyfan teg i ddenu, cadw a thyfu busnes?

Y Prif Weinidog: Gwnawn, fe wnawn. Rydym wedi sicrhau £56.9 miliwn gan Lywodraeth y DU ar gyfer y prosiect band eang y genhedlaeth nesaf i Gymru, ac mae Llywodraeth y DU wedi addo swm ychwanegol o £100 miliwn i greu hyd at 10 o ddinasoedd uwch-gysylltiedig ar draws y DU, ac mae wedi enwi Caerdydd yn un ohonynt. Mae hynny yn rhywbeth yr ydym yn ei groesawu.

Alun Ffred Jones: A recent report shows that one in every seven shops in our towns is vacant. This undermines the confidence of the residents of those towns and undermines the confidence of the business community. What practical steps is the Government taking to try to regenerate our town and village high streets?

The First Minister: It is important to ensure

busnesau yn edrych ar yr heolydd mawr er mwyn gweld a oes marchnad iddynt yno. Mae sawl enghraifft yng Nghymru lle mae canol tref wedi bod yn llwyddiannus. Mae Arberth yn enghraifft o hynny. Mae sawl enghraifft hefyd lle nad yw pethau wedi bod mor llwyddiannus. Mae'n bwysig dros ben fod awdurdodau lleol yn datblygu cynlluniau i ailddatblygu canol trefi er mwyn sicrhau nad ydym yn mynd lawr yr un llwybr ag America, lle mai tai a busnesau y tu fas i drefi, a dim byd y tu fewn iddynt.

that businesses look at high streets in order to see whether there is a market there for them. There are many examples in Wales where town centres have been successful. Narberth is one such example. However, there are several examples where the same success has not been seen. It is very important that local authorities draw up plans to redevelop town centres in order to ensure that we do not go down the same route as America, where homes and businesses are located outside towns, with very little to be found in those towns.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): In tough financial times, the public expects the Welsh Government to ensure that its taxes are spent wisely. Does your Government have anything to apologise for in relation to the alleged financial irregularities at the All Wales Ethnic Minority Association?

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Mewn cyfnod ariannol anodd, mae'r cyhoedd yn disgwyl i Lywodraeth Cymru sicrhau bod eu trethi yn cael eu gwario'n ddoeth. A oes gan eich Llywodraeth unrhyw beth i ymddiheuro yn ei gylch o ran yr afreoleidd-dra ariannol honedig yng Nghymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan?

The First Minister: The report will be published on Thursday in conjunction with the Big Lottery Fund.

Y Prif Weinidog: Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ddydd Iau ar y cyd â'r Gronfa Loteri Fawr.

Kirsty Williams: With all due respect, First Minister, that was the answer to a question I did not ask. While you may not be willing to acknowledge any shortcomings, it should be noted that the Permanent Secretary has acknowledged that AWEMA should have been graded as high risk by your Government. In 2003, the then Labour Minister for social justice, Edwina Hart, commissioned a report on financial irregularities at AWEMA. Can you explain to this Chamber why that report has not been published, and will you commit to publishing it now?

Kirsty Williams: Gyda phob dyledus barch, Brif Weinidog ateb oedd hwnnw i gwestiwn na wneuthum ei ofyn. Er nad ydych o bosibl yn barod i gydnabod unrhyw ddiffygion, dylid nodi fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cydnabod y dylai AWEMA fod wedi cael ei graddio fel risg uchel gan eich Llywodraeth. Yn 2003, comisiynodd Edwina Hart, y Gweinidog Llafur dros gyfiawnder cymdeithasol ar y pryd, , adroddiad ar afreoleidd-dra ariannol yn AWEMA. A allwch chi esbonio i'r Siambr hon pam nad yw'r adroddiad hwnnw wedi ei gyhoeddi, ac a wnewch ymrwymo i'w gyhoeddi yn awr?

The First Minister: It is not clear whether that report has been published or not. It is not clear whether the report, which was first commissioned nine years ago, was made public at the time, but it will be made public. However, there are a number of steps to this process. First of all, a report will be published on Thursday into the current state of affairs at AWEMA. As I said, that report will be

Y Prif Weinidog: Nid yw'n glir pa un a gafodd yr adroddiad ei gyhoeddi neu beidio. Nid yw'n glir a gafodd yr adroddiad, a gomisiynwyd y tro cyntaf naw mlynedd yn ôl, ei wneud yn gyhoeddus ar y pryd, ond bydd yn cael ei wneud yn gyhoeddus. Fodd bynnag, mae nifer o gamau i'r broses hon. Yn gyntaf oll, bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ddydd Iau ar y sefyllfa sydd ohoni

published jointly with the Big Lottery Fund. Following that, a lessons-learned inquiry will be conducted by the Permanent Secretary, and its findings will be made public, as will the 2003 report.

Kirsty Williams: First Minister, that answer is scarcely credible. Are you running this country or not? Surely, whether that report was published at the time is neither here nor there. We are asking for that report to be published now. To have a full picture of what is going on and has gone on, we need both reports. The report to be published this week will need to be seen in the context of any recommendations made in the 2003 report. You are the First Minister of this country, so you can decide here and now whether to publish that report this week. People out there want to know whether the 2003 report made any recommendations on whether Government funding of AWEMA should continue. This is a matter of public interest. What does your Government have to hide, and will you publish that report from 2003 this week?

The First Minister: The Leader of the Welsh Liberal Democrats loves innuendo and loves bringing forward points of view to this Assembly that are not backed up by a shred of evidence. She also fails to deviate from her script. If she had listened carefully to what I said, she would have heard me say that the report will be published on Thursday, that the lessons-learned exercise will have its findings published and that the 2003 report will be published. We have nothing to hide from the people of Wales.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): First Minister, I also listened carefully to the answers you gave. This is obviously an issue that has been building up over a period of time. We would welcome a statement from the Minister on the allegations that have been made, particularly in relation to the report that might be published on Thursday—we were told it was

yn AWEMA. Fel y dywedais, bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei gyhoeddi ar y cyd â'r Gronfa Loteri Fawr. Yn dilyn hynny, bydd ymchwiliad gwersi a ddysgwyd yn cael ei gynnal gan yr Ysgrifennydd Parhaol, a bydd ei ganfyddiadau ar gael i'r cyhoedd, fel ag y bydd adroddiad 2003.

Kirsty Williams: Brif Weinidog, prin bod yr ateb hwnnw'n gredadwy. A ydych chi'n rhedeg y wlad hon ai peidio? Nid yw pa un a gyhoeddwyd yr adroddiad ar y pryd ddim yma nac acw. Rydym yn gofyn am i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi yn awr. I gael darlun llawn o'r hyn sy'n digwydd ac sydd wedi digwydd, mae angen y ddau adroddiad. Bydd angen ystyried yr adroddiad a gyhoeddir yr wythnos hon yng nghydestun unrhyw argymhellion a wnaed yn adroddiad 2003. Chi yw Prif Weinidog y wlad hon, felly gallwch benderfynu yn y fan a'r lle a ddylid cyhoeddi'r adroddiad hwnnw yr wythnos hon. Mae pobl gyffredin eisiau gwybod a wnaeth adroddiad 2003 unrhyw argymhellion ynghylch a ddylid parhau i gyllido AWEMA. Mae hwn yn fater o ddiddordeb i'r cyhoedd. Beth sydd gan eich Llywodraeth i'w guddio, ac a fyddwch yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw o 2003 yr wythnos hon?

Y Prif Weinidog: Mae Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wrth ei bodd gydag ensyniadau ac wrth ei bodd yn cyflwyno safbwyntiau i'r Cynulliad hwn na chefnogir gan fymryn o dystiolaeth. Mae hi hefyd yn methu â gwyro o'i sgript. Pe bai hi wedi gwrando'n ofalus ar yr hyn a ddywedais, byddai wedi fy nghlywed yn dweud y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ddydd Iau, y bydd yr ymarfer gwersi a ddysgwyd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau ac y bydd adroddiad 2003 yn cael ei gyhoeddi. Does gennym ddim i'w guddio rhag pobl Cymru.

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Brif Weinidog, rwyf fi hefyd wedi gwrando'n ofalus ar yr atebion a roesoch. Mae hyn yn amlwg yn fater sydd wedi datblygu dros gyfnod o amser. Byddem yn croesawu datganiad gan y Gweinidog am yr honiadau a wnaed, yn enwedig mewn perthynas â'r adroddiad a allai gael ei gyhoeddi ddydd Iau—dywedwyd wrthym

going to be Monday. Will a statement be forthcoming from your Government on the allegations?

Having that statement on these serious allegations will be most welcome. However, given that this has happened over such a long period of time, do you not believe that there has been inaction by successive Assembly Governments in addressing the very real concerns that people have brought forward time and again on not just financial irregularities, but the human cost of some of the allegations levelled against the management, the governors and the council of this organisation?

The First Minister: Given that the report will be published on Thursday, I think it best and proper that the report should be published before there is further comment.

Andrew R.T. Davies: In fairness, First Minister, a report has been undertaken independently by Paul Dunn. He has not been contacted by the Welsh Government. Some of the allegations have been confirmed—there were allegations of financial irregularity around using public money to pay off an individual's credit card, and very serious allegations of bullying of staff. I suggest to you that your Government has not acted in the interest of protecting public money and that, above all, it has not acted in the interest of protecting some vulnerable individuals who have worked in that organisation. It is imperative that, when the report is published, you respond proactively to the recommendations it contains, and that you look back over previous reports—because this is the third report that will be brought forward—to ensure that the public purse is protected and that individuals have confidence that the Government is acting in their best interests.

The First Minister: I agree that that is important. There is no evidence to suggest that there has been any difficulty as far as the Government is concerned. However, Members will be able to make their own minds up when they see the report on Thursday and when they see the reports that will be published subsequently.

mai dydd Llun y byddai'n cael ei gyhoeddi. A fydd datganiad gan eich Llywodraeth ar yr honiadau?

Bydd cael y datganiad hwnnw ar yr honiadau difrifol hyn yn cael ei groesawu'n fawr. Fodd bynnag, o ystyried bod hyn wedi digwydd dros gyfnod mor hir o amser, onid ydych chi'n credu y bu diffyg gweithredu gan Lywodraethau Cynulliad olynol o ran mynd i'r afael â'r pryderon gwirioneddol y mae pobl wedi eu codi dro ar ôl tro ar nid yn unig yr afreoleidd-dra ariannol, ond hefyd cost ddynol rhai o'r honiadau a wnaed yn erbyn rheolwyr, llywodraethwyr a chyngor y sefydliad hwn?

Y Prif Weinidog: Gan y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ddydd Iau, rwy'n credu mai'r peth gorau a'r mwyaf priodol fyddai i'r adroddiad gael ei gyhoeddi cyn gwneud sylwadau pellach.

Andrew R.T. Davies: Er tegwch, Brif Weinidog, mae adroddiad wedi ei lunio yn annibynnol gan Paul Dunn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cysylltu ag ef. Mae rhai o'r honiadau wedi cael eu cadarnhau—roedd honiadau o afreoleidd-dra ariannol o ran defnyddio arian cyhoeddus i dalu dyled cerdyn credyd unigolyn, a honiadau difrifol iawn o fwlio staff. Rwyf yn awgrymu i chi nad yw eich Llywodraeth wedi gweithredu er budd gwarchod arian cyhoeddus ac nad yw, yn anad dim, wedi gweithredu i amddiffyn rhai o'r unigolion sy'n agored i niwed sydd wedi gweithio yn y sefydliad hwnnw. Pan gyhoeddir yr adroddiad, mae'n hanfodol eich bod yn ymateb yn rhagweithiol i'r argymhellion sydd ynddo, ac eich bod yn edrych yn ôl dros adroddiadau blaenorol—oherwydd dyma'r trydydd adroddiad a fydd yn cael ei ddwyn gerbron—i sicrhau bod y pwrs cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod hyder gan unigolion bod y Llywodraeth yn gweithredu er eu budd gorau.

Y Prif Weinidog: Rwyf yn cytuno bod hynny'n bwysig. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bu unrhyw anhawster o ran y Llywodraeth. Fodd bynnag, bydd Aelodau yn gallu penderfynu drostynt eu hunain pan fyddant yn gweld yr adroddiad ddydd Iau a phan fyddant yn gweld yr adroddiadau a gaiff eu cyhoeddi wedi hynny.

Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Mae adroddiad Estyn yn dangos os na fydd newid ym mholisi addysg y Llywodraeth y bydd dros 30,000 yn rhagor o blant 11 oed yn weithredol anllhythrennog erbyn 2016. Rwy'n cymryd na fyddech yn falch o record fel honno.

Y Prif Weinidog: Mae gennym record dda ym maes addysg yng Nghymru—edrychwch ar y cyfnod sylfaen, sydd wedi cael ei gefnogi gan bleidiau eraill yn y Cynulliad, a'r hyn rydym yn ei wneud drwy'r cynllun prentisiaeth, sef Twf Swyddi Cymru, a fydd yn dechrau eleni, er mwyn sicrhau bod 4,000 o bobl ifanc yn cael y cyfle i gael hyfforddiant neu brentisiaeth yn y dyfodol.

Ieuan Wyn Jones: Mae cysylltiad amlwg, Brif Weinidog, rhwng anllhythrennedd â nifer y bobl ifanc sy'n gadael ysgol bob blwyddyn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos y bydd 15,000 o blant a phobl ifanc yn y categori hwnnw eleni. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod hynny'n sgandal yng Nghymru yn yr oes fodern. Pam ydych yn meddwl bod cymaint o blant a phobl ifanc yn wynebu dyfodol mor ddu, a faint o gyfrifoldeb rydych yn fodlon ei gymryd am y ffigur hwnnw?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn gweld eu dyfodol fel un du gan ein bod ni'n gwneud cymaint—rwyf wedi rhoi enghraifft—i'w helpu yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n wir dweud bod yn rhaid gwella. Rydym yn derbyn hynny, a dyna pam mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi cynllun i sicrhau bod ysgrifennu, darllen a sgiliau rhifedd plant yn gwella.

Ieuan Wyn Jones: Fodd bynnag, y gwir amdani yw nad yw'r ffigurau hyn yn aros yn llonydd; maent yn codi. Gwnaethoch osod targed yn 2006 i ostwng nifer y plant nad oeddynt mewn addysg, hyfforddiant neu waith, ond methwyd y targed yn llwyr. Rydych yn dweud, 'Fe ddaw popeth yn iawn dim ond inni weithredu'r hyn sydd yn y rhaglen lywodraethu'. Dyna rydych yn ei ddweud dro ar ôl tro, ac rydych wedi ailadrodd nifer o'r pethau sydd yn eich

The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): The Estyn report demonstrates that if there is no change in the Government's education policy, more than 30,000 additional 11-year-old children will be operationally illiterate by 2016. I am sure that you would not be proud of a record such as that.

The First Minister: We have a good record on education in Wales—take the foundation phase, which has the support of other parties in the Assembly, and take what we are doing as regards the apprenticeship scheme of Jobs Growth Wales, which will start this year and ensure that 4,000 young people have the opportunity of training or an apprenticeship in the future.

Ieuan Wyn Jones: There is a clear connection, First Minister, between illiteracy and the number of young people who leave school and do not then re-enter education or training, or find employment. The latest statistics demonstrate that 15,000 children and young people will fall into that category this year. I am sure you would agree that this is a scandal in Wales in the modern age. Why do you think so many children and young people face such a bleak future, and how much responsibility are you willing to take for that figure?

The First Minister: I do not believe that they have a bleak future because we are doing a great deal—and I have given examples—to help them in the future. However, it is true to say that we must improve. We accept that, and that is why the Minister has announced a scheme to ensure that the writing, reading and numeracy skills of children improve.

Ieuan Wyn Jones: However, the fact of the matter is that these figures are not at a standstill; they are increasing. You set a target in 2006 to reduce the number of children who were not in education, employment or training, but you failed to reach that target. You say that everything will be fine as long as you implement what is in your programme for government. You say that time and again, and you have reiterated several aspects of that programme today.

rhaglen heddiw. Fodd bynnag, y realiti yw, gyda miloedd o blant yn anllhythrennog a miloedd o bobl ifanc heb sgiliau sylfaenol, ac wrth i'r economi fynd i ddirwasgiad arall, mae'n rhaid ichi wneud rhywbeth mwy cadarnhaol o lawer. A ydych yn mynd i newid cyfeiriad neu a ydych yn mynd i wneud dim, gan gondemnio cenhedlaeth arall o bobl ifanc i fywyd heb waith a heb obaith?

Y Prif Weinidog: Nid yw'n gywir dweud ein bod ni'n gwneud dim. Mae'r Gweinidog wedi dweud sawl gwaith beth yw'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan wneud sawl datganiad arnynt gerbron y Cynulliad. Mae gwaith i'w wneud. Rydym eisiau sicrhau bod plant Cymru yn cael y dechrau gorau, a dyna pam rydym yn gweithredu ac yn ehangu cynllun Dechrau'n Deg. Rydym hefyd am sicrhau bod neges glir yn cael ei chyfleu ynglŷn â'r cynllun a gyhoeddwyd er mwyn sicrhau bod sgiliau plant yn cael eu gwella.

1.45 p.m.

Y Trydydd Sector

3. Peter Black: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i'r trydydd sector. OAQ(4)0346(FM)*

The First Minister: We remain committed to working with the third sector. The sector plays an important role in community empowerment and engagement, and in the development of local economies.

Peter Black: Thank you for that answer, First Minister. I will return to AWEMA, which is an important third sector organisation, and, in particular, to the answers that you gave to Kirsty Williams earlier on. When exactly will the 2003 report be published? Can you explain why the report that will be published on Thursday does not deal with the human resource issues, which have caused so much distress to so many people?

The First Minister: Unless the Member has seen the report, which I have not, I am unable to comment on its contents. The report will be published on Thursday. The 2003 report will be published, together with the findings

However, with thousands of illiterate children and thousands of young people lacking basic skills, and as the economy moves towards another recession, the reality is that you must do something that is far more positive. Will you change direction, or are you going to do nothing and condemn another generation of young people to a life of joblessness and hopelessness?

The First Minister: It is not true to say that we are doing nothing. The Minister has referred a number of times to his plans for the future, and has brought several statements to the Assembly on those plans. There is work to be done. We want to ensure that the children of Wales get the best start in life, which is why we have implemented, and will expand, the Flying Start scheme. We also want to ensure that a clear message is given with regard to the scheme already announced, in order to ensure that children's skills are improved.

The Third Sector

3. Peter Black: *Will the First Minister make a statement on Welsh Government support for the third sector. OAQ(4)0346(FM)*

Y Prif Weinidog: Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r trydydd sector. Mae'r sector yn chwarae rhan bwysig yn grymuso cymunedau ac ymgysylltu â hwy, ac wrth ddatblygu economïau lleol.

Peter Black: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Dychwelaf at AWEMA, sy'n sefydliad trydydd sector pwysig, ac, yn benodol, at yr atebion a roesoch i Kirsty Williams yn gynharach. Pryd yn union fydd adroddiad 2003 yn cael ei gyhoeddi? Allwch chi esbonio pam nad yw'r adroddiad a gyhoeddir ddydd Iau yn ymdrin â'r materion adnoddau dynol, sydd wedi peri cymaint o ofid i gymaint o bobl?

Y Prif Weinidog: Oni bai fod yr Aelod wedi gweld yr adroddiad, ac nid wyf wedi, ni allaf wneud sylwadau ar ei gynnwys. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ddydd Iau. Bydd adroddiad 2003 yn cael ei gyhoeddi, ynghyd

from the lessons-learned exercise, and it will then be possible for Members and the public to take a full view of the current and historic situation with regard to AWEMA.

Antoinette Sandbach: Will you join me in commending the excellent work of the new £12 million St Dunstan's centre in Llandudno, which provides rehabilitation and care for blind veterans and is open 365 days a year? However, do you agree that there appears to have been a gross oversight by Labour-led Governments in the Assembly, which have chosen to spend hundreds of millions of pounds each year in direct funding for the third sector, but have not given a penny to support veteran care at that centre in north Wales? Will you make a commitment today that that mistake will be corrected as a matter of urgency?

The First Minister: It is not right to say that veterans have received no support: there is a substantial package of care in place for veterans, which has been described many times in the Assembly. I cannot take any lectures on health from the party opposite, given that in *The Times* this morning, a No. 10 source is quoted as saying that the Secretary of State for Health should be 'taken out and shot'. I have no similar plans for the Minister for Health and Social Services here. [*Laughter.*]

Rhodri Glyn Thomas: Hoffwn ddychwelyd at y sefyllfa sy'n ymwneud ag AWEMA, gan ategu'r hyn a ddywedodd Peter Black, o ran ei fod yn fudiad eithriadol o bwysig sy'n cyflawni gwaith hollbwysig yng Nghymru, a bod y partneriaethau sydd wedi'u sefydlu yn eithriadol o bwysig. Rwy'n falch o ddeall bod trefniadau dros dro ar waith i wneud yn siŵr nad yw'r partneriaid hynny ar eu colled yn ariannol yn y cyfnod hwn.

Yn ogystal ag edrych ar y sefyllfa yn 2003, a wnewch chi edrych ar yr ohebiaeth gan gadeirydd AWEMA ar y pryd yn 2007, sy'n codi nifer o faterion a oedd yn peri pryder o fewn gweinyddiaeth fewnol AWEMA? Rwy'n derbyn, fel rydych yn dweud, bod rhaid inni aros tan fod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ddydd Iau, ond a wnewch chi

â'r canfyddiadau o'r ymarfer gwersi a ddysgwyd, a bydd modd wedyn i'r Aelodau a'r cyhoedd gael darlun llawn o'r sefyllfa bresennol a hanesyddol o ran AWEMA.

Antoinette Sandbach: A wnewch ymuno â mi i ganmol gwaith rhagorol canolfan £12 miliwn newydd St Dunstan's yn Llandudno, sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu a gofal i gyn-filwyr dall ac sydd ar agor 365 diwrnod y flwyddyn? Fodd bynnag, a ydych yn cytuno yr ymddengys y bu amryfusedd dirfawr gan Lywodraethau dan arweiniad Llafur yn y Cynulliad, sydd wedi dewis gwario cannoedd o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn o gyllid uniongyrchol ar gyfer y trydydd sector, ond sydd heb roi dimau goch i gefnogi gofal i gyn-filwyr yn y ganolfan honno yn y gogledd? A wnewch chi ymrwymo heddiw y bydd y camgymeriad hwnnw yn cael ei gywiro ar fyrder?

Y Prif Weinidog: Nid yw'n iawn dweud nad yw cyn-filwyr wedi cael unrhyw gymorth: mae pecyn gofal sylweddol yn ei le ar gyfer cyn-filwyr, sydd wedi cael ei ddisgrifio sawl gwaith yn y Cynulliad. Ni allaf dderbyn pregeth ar iechyd gan y blaidd gyferbyn, o gofio bod ffynhonell o Rif 10 yn cael ei dyfynnu yn *The Times* y bore yma yn dweud y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd gael ei 'dywys allan a'i saethu'. Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau tebyg ar gyfer y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yma. [*Chwerthin.*]

Rhodri Glyn Thomas: I would like to return to the position regarding AWEMA, endorsing what Peter Black said, that it is an exceptionally important organisation, undertaking vital work in Wales, and that the partnerships that have been established are extremely important. I am pleased to learn that temporary arrangements are in place in order to ensure that those partners do not lose out financially in this period.

In addition to looking at the position in 2003, will you look at the correspondence from the chair of AWEMA at the time in 2007, raising a number of issues that were of concern in AWEMA's internal administration? I accept what you say, that we must await publication of the report on Thursday, but will you accept the principle that there is a responsibility on

dderbyn yr egwyddor bod cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus yn addas ac yn bwrpasol i ddsbarthu'r arian hwnnw ar ran Llywodraeth Cymru a phobl Cymru?

Y Prif Weinidog: Mae'n bwysig bod gan y Llywodraeth, y Cynulliad a'r cyhoedd hyder mewn cyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus. Dyna pam mae'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ddydd Iau. Bydd casgliadau yn cael eu cyhoeddi ar ôl i'r Ysgrifennydd Parhaol ystyried sefyllfa hanesyddol AWEMA. Yna, wrth gwrs, caiff yr adroddiad blaenorol ei gyhoeddi. Mae'n bwysig bod hyder yn y broses ac yn y corff ei hun, o ran beth sy'n digwydd yno yn awr a beth sydd wedi digwydd yno yn hanesyddol.

Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd

4. Yr Arglwydd Elis-Thomas: Pryd y cyfarfu'r Prif Weinidog ddiwethaf â Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd. OAQ(4)0352(FM)

Y Prif Weinidog: Rwyf wedi cwrdd ag ef dair gwaith. Y tro diwethaf oedd ar ddiwedd mis Ionawr y llynedd.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Y tro nesaf y byddwch yn cwrdd ag ef, a wnewch chi unwaith eto sicrhau Llywydd y Comisiwn bod eich arweiniad, fel Prif Weinidog Cymru, ynglŷn ag aelodaeth weithgar Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd yn cynrychioli barn busnes a mudiadau drwy Gymru, er gwaethaf agwedd negyddol Prif Weinidog y Deyrnas Unedig ac unrhyw gefnogwyr o unoliaethwyr Prydeinig Ceidwadol a all fod yn eistedd dros y ffordd i mi?

Y Prif Weinidog: Ysgrifennais at y Llywydd Barroso ar 21 Rhagfyr i sicrhau ei fod yn deall pa mor gryf a phwysig yw'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd i mi.

Byron Davies: First Minister, could you outline whether you discussed the importance of the trans-European transport network to Wales during your meeting with the President of the European Commission and officials,

the Welsh Government to ensure that organisations in receipt of public funds are appropriate and fit for purpose to distribute that money on behalf of the Welsh Government and the people of Wales?

The First Minister: It is important that the Government, the Assembly and the public have confidence in organisations in receipt of public money. That is why the report will be published on Thursday. Conclusions will be published once the Permanent Secretary has considered the historic position of AWEMA. Then, of course, the previous report will be published. It is important that there is confidence in the process and in the organisation itself, in terms of what is happening there now and what has happened there in the past.

The President of the European Commission

4. Lord Elis-Thomas: When was the last time the First Minister met with the President of the European Commission. OAQ(4)0352(FM)

The First Minister: I have met him on three separate occasions, the last time being at the end of January of last year.

Lord Elis-Thomas: The next time that you meet him, will you once again assure the President of the Commission that your leadership, as the First Minister of Wales, with regard to Wales's active membership of the European Union represents the opinions of businesses and organisations throughout Wales, despite the negative attitude of the Prime Minister of the United Kingdom and any Conservative British unionists who happen to be sitting opposite me?

The First Minister: I wrote to President Barroso on 21 December to ensure that he understood how strong and important the relationship between the Welsh Government and the European Union is to me.

Byron Davies: Brif Weinidog, a wnewch chi amlinellu pa un a wnaethoch drafod pwysigrwydd y rhwydwaith trafndiaeth traws-Ewropeaidd i Gymru yn ystod eich cyfarfod â Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd

particularly the importance of electrifying the route to Swansea and ensuring that Holyhead is designated a key European port? If you have not done so, will you do so?

The First Minister: Electrification is a matter for the UK Government, and not primarily for the European Commission. The UK Government has indicated that it will electrify as far as Cardiff; it is a matter of open record here that we wish to see electrification go as far as Swansea. A business case has been produced that we believe strongly supports that.

Economi Canolbarth Cymru

5. Russell George: *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella economi canolbarth Cymru. OAQ(4)0350(FM)*

The First Minister: The programme for government sets out our priorities for developing the economy in all parts of Wales.

Russell George: I would thank your colleague, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, for her announcement last week, in which she examined details from Powys in looking for rural solutions for enterprise zones. A large number of businesses on Newtown's High Street in my constituency have closed down in the last month alone. In fact, one local resident, known as CutPryce, recently posted a video on YouTube to highlight the fact that Newtown is rapidly turning into a ghost town, as shops there are closing down at an increasing rate. First Minister, I recommend that you look at the video, because it clearly demonstrates the need for urgent action.

In terms of the task and finish group to help towns in Powys, such as Newtown—

The Presiding Officer: Order. Are you coming to a question?

Russell George: Yes, I am, Presiding Officer.

The Presiding Officer: Good.

a swyddogion, yn arbennig pa mor bwysig yw trydaneiddio'r llinell i Abertawe a sicrhau bod Caerdybi yn cael ei ddynodi yn borthladd Ewropeaidd allweddol? Os nad ydych wedi gwneud hynny, a wnewch chi wneud hynny?

Y Prif Weinidog: Mae trydaneiddio yn fater i Lywodraeth y DU, ac nid yn bennaf i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn trydaneiddio mor bell â Chaerdydd; dywedwyd ar goedd sawl gwaith yma ein bod am weld trydaneiddio yn mynd cyn belled ag Abertawe. Mae achos busnes wedi cael ei gynhyrchu a chredwn ei fod yn cefnogi hynny'n gryf.

The Mid Wales Economy

5. Russell George: *What is the Welsh Government doing to improve the economy of mid Wales. OAQ(4)0350(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae'r rhaglen ar gyfer llywodraeth yn nodi'n blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r economi ym mhob rhan o Gymru.

Russell George: Hoffwn ddiolch i'ch cyd-Aelod, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, am ei chyhoeddiad yr wythnos diwethaf y bydd yn archwilio manylion o Bowys am atebion gwledig ar gyfer ardaloedd menter. Mae nifer fawr o fusnesau ar Stryd Fawr y Drenewydd yn fy etholaeth wedi cau i lawr yn ystod y mis diwethaf yn unig. Yn wir, cafodd fideo ei roi ar YouTube yn ddiweddar gan un o'r trigolion lleol, a elwir yn CutPryce, i dynnu sylw at y ffaith bod y Drenewydd yn prysur droi yn dref anghyfannedd, gan fod siopau yno yn cau i lawr ar raddfa gynyddol. Brif Weinidog, yr wyf yn argymhell eich bod yn edrych ar y fideo, gan ei fod yn dangos angen clir i weithredu ar frys.

O ran y grŵp gorchwyl a gorffen i helpu trefi ym Mhowys, fel y Drenewydd—

Y Llywydd: Trefn. A ydych ar fin gofyn cwestiwn?

Russell George: Ydw, Lywydd.

Y Llywydd: Go dda.

Russell George: In terms of the task and finish group to help towns in Powys, such as Newtown, could you provide more detail, First Minister, particularly with regard to when that task and finish group will start and whether it will include groups such as the Federation of Small Businesses and the mid Wales manufacturing group? When do you expect the group to start its work?

The First Minister: The Minister will be producing a written statement in due course, but clearly, we want to ensure that such a group would be as effective as possible, which means including as many of those with business interests in Newtown and the wider area as we can.

Simon Thomas: First Minister, the use of our natural resources in mid Wales has tremendous potential to boost the economy there, particularly with regard to our wind and water resources. In that regard, have you written yet to Ed Davey asking for the devolution of all renewable energy projects in Wales?

The First Minister: I have not written yet, but then he has not been in post that long. It is a matter of record that we have called constantly for the devolution of renewable energy projects up to 100 MW to Wales. The difficulty is that it creates uncertainty among developers; they do not know who to talk to or where the guidance lies. While it is clear that everything over 50 MW lies with the UK Government, we believe that that situation is untenable.

William Powell: First Minister, when talking to businesses and their representatives in mid Wales, one of the main problems that they continually raise is the lack of adequate transport infrastructure to import and export goods efficiently and in a cost-effective manner. What recent discussions have you had with the Minister for Local Government and Communities on addressing some of these historic issues, notably the Newtown bypass and other forms of investment, so that businesses in mid Wales are no longer disadvantaged in comparison with their colleagues on the M4 and A55 corridors?

Russell George: O ran y grŵp gorchwyl a gorffen i helpu trefi ym Mhowys, fel y Drenewydd, a allech roi mwy o fanylion, Brif Weinidog, yn enwedig o ran pryd y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn dechrau ac a fydd yn cynnwys grwpiau fel Ffederasiwn y Busnesau Bach a grŵp gweithgynhyrchu canolbarth Cymru? Pryd ydych chi'n disgwyl i'r grŵp ddechrau ar ei waith?

Y Prif Weinidog: Bydd y Gweinidog yn cynhyrchu datganiad ysgrifenedig maes o law, ond rydym yn amlwg am sicrhau y byddai grŵp o'r fath mor effeithiol â phosibl, sy'n golygu cynnwys cymaint o'r rhai sydd â buddiannau busnes yn y Drenewydd a'r ardal ehangach ag y gallwn.

Simon Thomas: Brif Weinidog, mae gan ein hadnoddau naturiol yng nghanolbarth Cymru botensial aruthrol i roi hwb i'r economi yno, yn enwedig o ran ein hadnoddau gwynt a dŵr. Yn hynny o beth, a ydych wedi ysgrifennu eto at Ed Davey yn gofyn am ddatganoli yr holl brosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Nid wyf wedi ysgrifennu eto, ond eto nid yw wedi bod yn y swydd mor hir â hynny. Rydym wedi galw ar goedd yn gyson am ddatganoli prosiectau ynni adnewyddadwy hyd at 100 MW i Gymru. Yr anhawster yw ei fod yn creu ansicrwydd ymysg datblygwyr; nid ydynt yn gwybod â phwy i siarad nac o lle y daw'r arweiniad. Er ei bod yn amlwg bod popeth dros 50 MW yn gorwedd gyda Llywodraeth y DU, rydym yn credu bod y sefyllfa honno yn anghynaliadwy.

William Powell: Brif Weinidog, wrth siarad â busnesau a'u cynrychiolwyr yn y canolbarth, un o'r prif broblemau y maent yn ei chodi'n barhaus yw diffyg isadeiledd trafniadaeth digonol i fewnforio ac allforio nwyddau yn effeithlon ac mewn ffordd gost-effeithiol. Pa drafodaethau diweddar a gawsoch gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar fynd i'r afael â rhai o'r materion hanesyddol hyn, yn arbennig ffordd osgoi y Drenewydd a mathau eraill o fuddsoddi, er mwyn i fusnesau yn y canolbarth beidio â bod o dan anfantais mwyach o gymharu â'u cydweithwyr ar

goridorau'r M4 a'r A55?

The First Minister: The Member will know of the progress made with the Newtown bypass; indeed, the physical evidence is there at the Four Crosses bypass. There is also an issue with the electricity grid in northern Powys, where there is very limited spare capacity for future growth, and there is a need to upgrade the grid anyway, regardless of any other developments, because the power situation there makes it quite difficult to attract large-scale investment to the area. So, it is important to consider electricity and the roads, but it is also important to consider broadband. We want to ensure that high speed broadband is available across Wales by 2015. We know that the market will never deliver that, but there is a great opportunity for all parts of Wales to benefit from that level of connectivity, because it does not depend on topography and geography.

Y Prif Weinidog: Bydd yr Aelod yn gwybod am y cynnydd a wnaed gyda ffordd osgoi y Drenewydd; yn wir, mae'r dystiolaeth ffisegol i'w gweld ar ffordd osgoi Four Crosses. Mae problem hefyd gyda'r grid trydan yng ngogledd Powys, lle mae capasiti sbâr cyfyngedig iawn ar gyfer twf yn y dyfodol, ac mae angen uwchraddio'r grid beth bynnag, heb ystyried unrhyw ddatblygiadau eraill, oherwydd bod y sefyllfa bŵer yno yn ei gwneud yn eithaf anodd denu buddsoddiad ar raddfa fawr i'r ardal. Felly, mae'n bwysig ystyried trydan a ffyrdd, ond mae hefyd yn bwysig ystyried band eang. Rydym am sicrhau bod band eang cyflymder uchel ar gael ledled Cymru erbyn 2015. Gwyddom na fydd y farchnad yn cyflawni hynny, ond mae cyfle gwych i bob rhan o Gymru fanteisio ar y lefel honno o gysylltedd, gan nad yw'n dibynnu ar dopograffeg a daearyddiaeth.

Gwasanaeth Deintyddol

6. Christine Chapman: *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella mynediad at wasanaethau deintyddol yng Nghymru. OAQ(4)0343(FM)*

The First Minister: Access to NHS dental care has improved significantly in recent years, although difficulties remain in some areas. Nonetheless, the programme for government underlines our manifesto commitment to continue to improve access to dentists.

Christine Chapman: That is certainly welcome news. Dental care in my constituency has received a significant boost with the recent opening of the dental teaching unit at the new Ysbyty Cwm Cynon. With an estimated 1,000 people in Cynon Valley not registered with a dentist, the new unit will provide check-ups and any treatment needed free of charge. Would you agree that the unit is an investment not only in the standard of dental health, but also in dentists who will provide care in the future for the people of the Cynon Valley?

Dentistry Services

6. Christine Chapman: *What is the Welsh Government doing to improve access to dentistry services in Wales. OAQ(4)0343(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae mynediad at ofal deintyddol y GIG wedi gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, er bod anawsterau yn parhau mewn rhai ardaloedd. Serch hynny, mae'r rhaglen ar gyfer llywodraeth yn pwysleisio'r ymrwymiad yn ein maniffesto i barhau i wella mynediad at ddeintyddion.

Christine Chapman: Mae hynny'n sicr yn newyddion i'w groesawu. Mae gofal deintyddol yn fy etholaeth wedi derbyn hwb sylweddol gydag agoriad diweddar yr uned addysgu deintyddiaeth yn ysbyty newydd Cwm Cynon. Gydag amcangyfrif nad yw 1,000 o bobl yng Nghwm Cynon wedi cofrestru gyda deintydd, bydd yr uned newydd yn darparu archwiliadau ac unrhyw driniaeth sydd ei hangen yn rhad ac am ddim. A fydddech yn cytuno bod yr uned yn fuddsoddiad nid yn unig mewn safon iechyd deintyddol, ond hefyd mewn deintyddion a fydd yn darparu gofal yn y dyfodol i bobl Cwm Cynon?

The First Minister: Yes, it will provide additional NHS services for up to 10,000 patients. It provides undergraduate students with the opportunity to fine-tune the skills that they have developed throughout their training while under supervision. That practical experience in their final year also provides the local community with a much-welcomed service for those patients who do not have regular access to an NHS dentist.

Mark Isherwood: How would you respond to a Flintshire resident who e-mailed me to say that they were retired, had paid in excess of £2,000 in the past two years for private care, and were now being asked to pay £700 for more treatment? Their dentist does not provide NHS care, their previous four dentists stopped providing it, and when they contacted NHS Direct, they discovered, after 14 telephone calls and e-mails, that they could not access an NHS dentist.

The First Minister: I have not seen the e-mail, so I could not possibly comment on it. If you forward it to me, I would be more than happy to investigate the circumstances.

Elin Jones: Nid oes gwasanaeth orthodonteg ar gael yng Ngheredigion, dim ond yn sir Gâr, o dan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Mae cyfle yn awr gan Hywel Dda i osod cytundeb newydd a fyddai'n caniatáu ar gyfer gwasanaethau allgymorth yng Ngheredigion. A ydych yn cytuno y dylai gwasanaeth orthodonteg fod ar gael i holl bobl ifanc Cymru, o fewn cyrraedd synhwyrol iddynt?

Y Prif Weinidog: Mae'n bwysig sicrhau gwasanaeth orthodonteg mor agos ag y bo modd i bobl, wrth gofio, wrth gwrs, faint o orthodeintyddion sydd ar gael. Ond, byddwn yn gobeithio y byddai Hywel Dda yn ystyried y sefyllfa yng Ngheredigion i weld a oes modd helpu.

David Rees: Following on from Christine Chapman's point, in my constituency the Baglan Moors resource centre has a dental unit similar to that in Mountain Ash, but staffed by postgraduate students, who spend a

Y Prif Weinidog: Bydd, fe fydd yn darparu gwasanaethau GIG ychwanegol ar gyfer hyd at 10,000 o gleifion. Mae'n rhoi cyfle i fyfyrwyr israddedig fireinio'r sgiliau y maent wedi'u datblygu drwy gydol cyfnod eu hyfforddiant tra'u bod o dan oruchwyliaeth. Mae'r profiad ymarferol hwnnw yn eu blwyddyn olaf hefyd yn darparu gwasanaeth a groesawir yn fawr gan y gymuned leol ar gyfer y cleifion hynny nad oes ganddynt fynediad rheolaidd at ddeintydd GIG.

Mark Isherwood: Sut y byddech yn ymateb i un o drigolion Sir y Fflint a anfonodd e-bost ataf i ddweud ei fod wedi ymddeol, wedi talu mwy na £2,000 yn y ddwy flynedd ddiwethaf am ofal preifat, a bellach yn gorfod talu £700 am fwy o driniaeth? Nid yw ei ddeintydd yn darparu gofal GIG, rhoddodd ei bedwar deintydd blaenorol y gorau i'w ddarparu, a phan gysylltodd â Galw Iechyd Cymru, gwnaethant ddarganfod, ar ôl 14 o alwadau ffôn a negeseuon e-bost, na allent gael gafael ar ddeintydd GIG.

Y Prif Weinidog: Nid wyf wedi gweld yr e-bost, felly ni allwn yn fy myw wneud sylwadau arno. Os byddwch yn ei anfon ymlaen ataf, byddwn yn fwy na pharod i ymchwilio i'r amgylchiadau.

Elin Jones: There is no orthodontic service available in Ceredigion, only in Carmarthenshire, under the Hywel Dda Local Health Board. There is an opportunity now for Hywel Dda to put in place a new agreement that would allow for an outreach service in Ceredigion. Do you agree that there should be an orthodontic service within sensible reach of all young people in Wales?

The First Minister: It is important to ensure an orthodontic service as close as possible to people, bearing in mind, of course, the number of orthodontists available. However, I would hope that Hywel Dda would consider the situation in Ceredigion to see whether there is a way to help.

David Rees: Yn dilyn ymlaen o bwynt Christine Chapman, mae gan ganolfan adnoddau Gweunydd Baglan yn fy etholaeth uned ddeintyddol debyg i'r un yn Aberpennar, ond wedi'i staffio gan fyfyrwyr

year there. What support is the Welsh Government giving to these postgraduate students after their year of experience to set up practice in Wales, thereby providing more capacity in NHS dentistry?

The First Minister: We know that those who train in Wales are most likely to stay in Wales. That is one of the reasons why we have increased the number of funded training places to 74, up from 55 places in 2003. The most recent available figures, for 2010-11, show that, of the 74 trainees, 53 remained in Wales to continue their careers.

Cyrsiau Hyfforddi Athrawon

7. Aled Roberts: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch a oes unrhyw newid wedi cael ei wneud i'r canllawiau y cytunwyd arnynt gyda CBAC ynghylch cyrsiau hyfforddi athrawon yn dilyn yr ymchwiliad diweddar. OAQ(4)0355(FM)*

Y Prif Weinidog: Yn dilyn digwyddiadau diweddar, gofynnodd y rheoleiddwyr cymwysterau i gyrrff dyfarnu adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer seminarau athrawon. O ganlyniad i hyn, mae CBAC wedi gwella'r canllawiau a'r hyfforddiant i'r rhai sy'n cyfrannu at y seminarau.

Aled Roberts: Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o adolygiad yn Lloegr o'r gyfundrefn farchnad i fyrdau arholi. A oes unrhyw fwriad gennych fel Llywodraeth i edrych o'r newydd ar y sefyllfa yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Nac oes. Gwyddom fod y rheoleiddwyr wedi dweud wrth CBAC bod rhaid iddo ddelio gyda'r sefyllfa. Yn ychwanegol at yr hyn a ddywedais yn gynharach, bydd uwch-reolwyr CBAC hefyd yn monitro sampl o ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae'r rheoleiddwyr yn adolygu diben seminarau o'r fath.

Nick Ramsay: First Minister, having listened to your answer to Aled Roberts, I am disappointed that you seem to be taking a bit of an arm's-length approach to this, and leaving it totally to the WJEC. I am pleased

ôl-raddedig, sy'n treulio blwyddyn yno. Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r myfyrwyr ôl-raddedig hyn ar ôl eu blwyddyn o brofiad i sefydlu deintyddfa yng Nghymru, a thrwy hynny ddarparu mwy o gapasiti yn neintyddiaeth y GIG?

Y Prif Weinidog: Gwyddom fod y rhai sy'n hyfforddi yng Nghymru yn fwyaf tebygol o aros yng Nghymru. Dyna un o'r rhesymau pam ein bod wedi cynyddu nifer y lleoedd hyfforddi a ariennir i 74, i fyny o 55 o leoedd yn 2003. Dengys y ffigurau diweddaraf sydd ar gael, ar gyfer 2010-11, fod 53 o'r 74 o hyfforddeion wedi aros yng Nghymru i barhau eu gyrfaedd.

Teacher Training Courses

7. Aled Roberts: *Will the First Minister make a statement regarding whether any change has been made to guidelines that have been agreed with the WJEC regarding teacher training courses following the recent inquiry. OAQ(4)0355(FM)*

The First Minister: Following recent events, the qualifications regulators asked awarding organisations to review procedures for teacher seminars. Consequently, the WJEC has improved the guidance and training for seminar contributors.

Aled Roberts: I am sure that you are aware of the review in England regarding the market system for examination boards. Does your Government intend to look anew at the situation in Wales?

The First Minister: No. We know that the regulators have told the WJEC that it has to deal with the situation. In addition to what I said earlier, the senior managers of the WJEC will be monitoring a sample of events in the future. The regulators are reviewing the purpose of such seminars.

Nick Ramsay: Brif Weinidog Cymru, ar ôl gwrando ar eich ateb i Aled Roberts, rwyf yn siomedig yr ymddengys eich bod yn pellhau eich hun rywfaint o hyn, ac yn ei adael yn llwyr i CBAC. Rwyf yn falch o glywed rhan

by the first part of your answer—that these guidelines have been reviewed, and that this is being looked at. However, you must accept that there is a big responsibility on your Government to see that the WJEC’s guidelines are adhered to, and that these changes happen, because there is great concern about the reputation of education and examining standards in Wales, which will fall behind other parts of the UK unless your Government takes the action necessary.

2.00 p.m.

The First Minister: It did not just touch the WJEC, did it? Other examination boards were affected in the same way. I do not accept at all that, somehow, education in Wales will suffer because of it. However, it is a serious issue. While the WJEC is not under the direct control of the Welsh Government, the Minister spoke to the chief executive of the WJEC to express his serious concern after the event. He referred the two teachers shown in the footage, which we all saw, to the General Teaching Council for Wales, and he also subsequently announced a review of the market structure for general qualifications. That review will be conducted over the next three months. It is also right to say that Welsh Government regulatory officials contributed to the Office of Qualifications and Examinations Regulation’s initial investigation into the issues arising from the allegations.

Llyr Huws Gruffydd: Yn sgîl yr holl sylw anffafriol y mae CBAC wedi’i gael yng ngoleuni’r hyn a honnwyd ac sydd wedi digwydd, pa gamau ymarferol y mae eich Llywodraeth chi yn eu cymryd i gynorthwyo CBAC i adfer ei enw da?

Y Prif Weinidog: Rwyf wedi rhoi enghreifftiau o’r hyn sydd wedi digwydd, o ran beth mae’r Gweinidog wedi’i wneud a beth mae CBAC ei hun yn ei wneud i sicrhau na fydd y sefyllfa hon yn digwydd eto.

Gemau Olympaidd

8. Joyce Watson: *A wnaiff y Prif Weinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am*

gyntaf eich ateb—bod y canllawiau hyn wedi cael eu hadolygu, a bod hyn yn cael ei ystyried. Fodd bynnag, rhaid ichi dderbyn fod cyfrifoldeb mawr ar eich Llywodraeth i sicrhau bod canllawiau CBAC yn cael eu dilyn yn fanwl gywir, a bod y newidiadau hyn yn digwydd, oherwydd mae pryder mawr am enw da addysg a safonau archwilio yng Nghymru, a fydd yn syrthio y tu ôl i rannau eraill o’r DU oni bai bod eich Llywodraeth yn cymryd y camau angenrheidiol.

Y Prif Weinidog: Fodd bynnag, nid oedd hynny’n ymwneud â CBAC yn unig. Cafodd byrddau arholi eraill eu heffeithio yn yr un ffordd. Nid wyf yn derbyn o gwbl y bydd addysg yng Nghymru yn dioddef rhyw fodd oherwydd hyn. Fodd bynnag, mae’n fater difrifol. Er nad yw CBAC o dan reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru, bu’r Gweinidog yn siarad â phrif weithredwr CBAC i fynegi ei bryder difrifol ar ôl y digwyddiad. Cyfeiriodd y ddau athro a ddangosir yn y ffilm, y’i gwelwyd gennym oll, at Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, a chyhoeddodd hefyd adolygiad o strwythur y farchnad ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Bydd yr adolygiad hwnnw’n cael ei gynnal yn ystod y tri mis nesaf. Mae hefyd yn gywir i ddweud bod swyddogion rheoleiddio Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at ymchwiliad cychwynol y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau i’r materion sy’n deillio o’r honiadau.

Llyr Huws Gruffydd: Given all of the unfavourable attention that the WJEC has received in light of the allegations made and the events that have taken place, what practical steps is your Government taking to assist the WJEC to regain its reputation?

The First Minister: I have given examples of what has happened, in terms of what the Minister has done and what the WJEC itself is doing to ensure that there is no repeat of this situation.

Olympic Games

8. Joyce Watson: *Will the First Minister update Members on the Welsh Government’s*

baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gemau Olympaidd 2012. OAQ(4)0348(FM)

The First Minister: We have led the effort to engage, co-ordinate and deliver the opportunity that the Games will bring across Wales. The Welsh Government's action plan, which has been referred to in previous months in the Assembly, was published at the end of 2011 and focuses on maximising opportunities before, during and after the event.

Joyce Watson: Thank you for that answer, First Minister. In the past, major sporting events have been linked to increases in people trafficking for both labour and sex work. What actions is the Welsh Government taking to ensure that trafficking is not part of our Olympic legacy? It is fair to say, however, that we are ahead of the rest of the UK on this particular issue.

The First Minister: We were the first country in the UK to appoint an anti-human-trafficking co-ordinator. The current threat assessment for Wales for the Olympic Games is low, based on existing intelligence, and meetings have taken place with the intelligence leads of all four police forces in Wales, together with the Metropolitan Police Service, to assess the likely threat in Wales. It is correct to say that what might happen with regard to the issues that you have mentioned, such as sex trafficking, is equally a threat. We need to ensure that there is a positive legacy for Wales from the Games, and that we clamp down on what would be a negative legacy, which none of us wants to see.

Mohammad Asghar: I am sure that you will agree that the build-up to the 2012 Olympic Games in London provides an excellent opportunity for Wales to benefit from this major sporting event. A recent poll from Ipsos MORI found that 57% of Welsh respondents thought that the Olympics would have a positive effect, compared with just 50% of Scots. What avenues will the Welsh

preparations for the 2012 Olympic Games. OAQ(4)0348(FM)

Y Prif Weinidog: Rydym wedi arwain yr ymdrech i ymgysylltu, cyd-drefnu a gwireddu'r cyfle y bydd y Gemau'n ei gynnig ledled Cymru. Cafodd cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, y cyfeiriwyd ato yn y Cynulliad yn ystod y misoedd blaenorol, ei gyhoeddi ar ddiwedd 2011 ac mae'n canolbwyntio ar wneud y gorau o'r cyfleoedd cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad.

Joyce Watson: Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yn y gorffennol, mae digwyddiadau chwaraeon mawr wedi bod yn gysylltiedig â chynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu masnachu ar gyfer llafur a gwaith yn ymwneud â rhyw. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau nad yw masnachu mewn pobl yn rhan o etifeddiaeth y Gemau Olympaidd? Mae'n deg dweud, fodd bynnag, ein bod ar y blaen ar y mater hwn o'i gymharu â gweddill y DU.

Y Prif Weinidog: Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i benodi cydlynnydd yn erbyn masnach mewn pobl. Mae'r asesiad o fygythiadau cyfredol i Gymru ar gyfer y Gemau Olympaidd yn isel, yn seiliedig ar gudd-wybodaeth sydd gennym yn barod, ac mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda'r swyddogion sy'n arwain ar gudd-wybodaeth dros y pedwar heddlu yng Nghymru, ynghyd â'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, i asesu'r bygythiad tebygol yng Nghymru. Mae'n gywir dweud bod yr hyn a allai ddigwydd o ran y materion rydych wedi sôn amdanynt, fel masnachu ar gyfer gwaith rhyw, hefyd yn fygythiad. Mae angen inni sicrhau bod etifeddiaeth gadarnhaol i Gymru yn dilyn y Gemau, a'n bod yn rhoi terfyn ar yr hyn a fyddai'n etifeddiaeth negyddol, nad oes yr un ohonom eisiau ei gweld.

Mohammad Asghar: Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod y cyfnod cyn Gemau Olympaidd 2012 yn Llundain yn gyfle gwych i Gymru elwa o'r digwyddiad chwaraeon mawr hwn. Canfu arolwg diweddar gan Ipsos MORI fod 57% o ymatebwyr yng Nghymru yn credu y byddai'r Gemau Olympaidd yn cael effaith gadarnhaol, o'i gymharu â dim ond 50% o Albanwyr. Pa drywydd fydd

Government be pursuing in the build-up to the Olympics to ensure that young people across Wales increase their level of participation in sport and that Welsh businesses make the most of the commercial opportunities provided by this event?

The First Minister: I have already made reference to the action plan that was published at the end of 2011.

Bethan Jenkins: Since last year's Assembly elections, South Wales Police has lost 395 warranted officers and is now planning its commitment to policing the Olympics. According to the officers whom I have spoken to, the impact of both the reduced numbers and of policing the Olympics will be felt after the event, given that all leave for the summer is cancelled because of work at the Olympics. What assurances has the Welsh Government sought that matters such as court appearances and police training will be able to continue during this time, and that cover will be provided for specialists such as firearms officers, drugs teams, road policing teams and officers who investigate domestic violence?

The First Minister: These are matters for the Home Office, not the Welsh Government. However, if you have examples of officers who feel that there will be insufficient cover in the summer, then I would certainly welcome those examples being forwarded to me, although I understand, of course, the need for anonymity when that is done. It is important that the people of Wales know that, as the Olympics take place, regular policing functions will not suffer as a result.

Y Cwricwlwm Ysgol

9. Simon Thomas: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch i ba raddau ac ym mha ffyrdd y dylai'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru adlewyrchu ieithoedd a diwylliannau Cymru. OAQ(4)0349(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth Cymru'n gryf o'r farn fod cyswllt anorfod rhwng hanes, diwylliant a saerniaeth

Llywodraeth Cymru yn ei ddilyn yn y cyfnod cyn y Gemau Olympaidd i sicrhau bod pobl ifanc ledled Cymru yn cynyddu lefel eu cyfranogiad mewn chwaraeon a bod busnesau Cymru yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd masnachol a gynigir gan y digwyddiad hwn?

Y Prif Weinidog: Rwyf eisoes wedi cyfeirio at y cynllun gweithredu a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2011.

Bethan Jenkins: Ers etholiadau'r Cynulliad y llynedd, mae Heddlu De Cymru wedi colli 395 o swyddogion gwarant ac mae bellach yn cynllunio ei ymrwymiad i blismona'r Gemau Olympaidd. Yn ôl y swyddogion rwyf wedi siarad â hwy, bydd effaith y niferoedd llai ac o blismona'r Gemau Olympaidd yn cael ei themlo ar ôl y digwyddiad, o gofio bod yr holl wyliau ar gyfer yr haf yn cael eu canslo oherwydd gwaith ar gyfer y Gemau Olympaidd. Pa sicrwydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael y bydd materion fel ymddangosiadau llys a hyfforddi'r heddlu yn gallu parhau yn ystod y cyfnod hwn, ac y bydd arbenigwyr fel swyddogion drylliau, timau cyffuriau, timau plismona ar y ffyrdd a swyddogion sy'n ymchwilio i drais yn y cartref yn cael eu cyflenwi dros dro?

Y Prif Weinidog: Mae'r rhain yn faterion i'r Swyddfa Gartref, nid Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, os oes gennych enghreifftiau o swyddogion sy'n teimlo na fydd digon o ddarpariaeth dros yr haf, yna byddwn yn sicr yn croesawu clywed amdanynt, er fy mod yn deall, wrth gwrs, yr angen am anhysbysrwydd pan mae hynny'n digwydd. Mae'n bwysig bod pobl Cymru yn gwybod na fydd swyddogaethau plismona rheolaidd yn dioddef wrth i'r Gemau Olympaidd fynd yn eu blaenau.

The School Curriculum

9. Simon Thomas: *Will the First Minister make a statement regarding to what degree the school curriculum in Wales should reflect the languages and cultures of Wales. OAQ(4)0349(FM)*

The First Minister: The Welsh Government believes strongly that Wales's history, culture and social fabric are inextricably linked to the

gymdeithasol Cymru a'r iaith Gymraeg. Mae'r cwricwlwm ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr yng Nghymru i ddatblygu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol ac ieithyddol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Simon Thomas: Diolch, Brif Weinidog, am yr ateb hwnnw. Fel rhywun a ddysgodd Cymraeg fel ail iaith, credaf ei fod yn hynod o bwysig bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y cyfle i ddysgu o leiaf tipyn bach o Gymraeg a hyd yn oed mynd ymlaen i ddysgu i siarad Cymraeg yn rhugl. Os ydych yn cytuno â'r dyhead hwnnw, Brif Weinidog, beth yr ydych yn ei wneud fel Llywodraeth i wella'r sefyllfa anffodus o ran dysgu Cymraeg fel ail iaith, sydd wedi'i amlinellu unwaith eto yn adroddiad Estyn eleni? Cymraeg ail iaith yw'r pwnc sy'n cael ei dysgu waethaf o'r holl bynciau sy'n cael eu dysgu yn ein hysgolion, a lle mae'r bwch mwyaf rhwng cyrhaeddiad bechgyn a chyrraeddiad merched. Mae'n rhaid gwella'r sefyllfa honno os yw plant Cymru i gael y cyfle i ddysgu Cymraeg.

Y Prif Weinidog: Mae Cymraeg yn bwnc statudol, ac felly mae'n rhaid i bob plentyn ei hastudio nes eu bod yn 16 oed. Fodd bynnag, rwy'n cymryd sylw o'r hyn sydd yn cael ei ddweud yn adroddiad Estyn, a bydd camau yn cael eu cymryd i sicrhau bod addysgu Cymraeg fel ail iaith yn cael ei gryfhau.

Rebecca Evans: I am pleased that the Welsh Government has recognised that British Sign Language is a language in its own right. How are you ensuring that that is reflected in the school curriculum?

The First Minister: Developing communication skills should take us across the whole curriculum. While there are no specific requirements to teach British Sign Language in the school curriculum, the non-statutory skills framework for three to 19-year-olds recognises the importance of developing non-verbal communication skills of all kinds, including signing.

Suzu Davies: First Minister, while education is an end in itself, one of the functions of schooling is to improve a child's chance of

Welsh language. The school curriculum provides learners in Wales with opportunities to develop and apply their knowledge and understanding of the cultural and linguistic characteristics of Wales through both the medium of Welsh and of English.

Simon Thomas: I thank the First Minister for that response. As someone who learned Welsh as a second language, I think that it is extremely important that every child in Wales has the opportunity, at least, to learn some Welsh and even to go on to become fluent. If you agree with that aspiration, First Minister, what are you doing as a Government to improve the unfortunate situation with regard to the teaching of Welsh as a second language, which has been highlighted once again in the Estyn report this year? Welsh as a second language is the subject that is most badly taught in our schools, and where there is the greatest gap between the achievement of boys and that of girls. We need to improve that situation if the children of Wales are to have the opportunity to learn Welsh.

The First Minister: Welsh is a statutory subject and every child has to study it until the age of 16. We do, of course, pay attention to what the Estyn report says, and steps will be taken to ensure that the teaching of Welsh as a second language is strengthened.

Rebecca Evans: Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod iaith Arwyddion Prydain yn iaith yn ei rhinwedd ei hun. Sut rydych yn sicrhau bod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y cwricwlwm ysgol?

Y Prif Weinidog: Dylai datblygu sgiliau cyfathrebu fynd â ni ar draws y cwricwlwm cyfan. Er nad oes unrhyw ofynion penodol yn y cwricwlwm ysgol i addysgu iaith Arwyddion Prydain, mae'r fframwaith sgiliau anstatudol ar gyfer disgyblion rhwng tair a 19 oed yn cydnabod pwysigrwydd datblygu sgiliau cyfathrebu di-eiriau o bob math, gan gynnwys arwyddion.

Suzu Davies: Brif Weinidog, tra bod addysg yn ddiben ynddo'i hun, un o swyddogaethau ysgol yw gwella cyfle plentyn o ran

social mobility. Evidence to the Children and Young People Committee suggests that it is not just Welsh as a second language that is experiencing poor take-up, but modern foreign languages, despite the Learning and Skills (Wales) Measure 2009. Do you think that second languages that could open economic doors should become core subjects in the national curriculum?

The First Minister: We must be careful about adding too many core subjects to the national curriculum, as that restricts the choice that students can exercise as they go through school. However, I agree that it is important that children take seriously the study of a third or second European language, according to their educational circumstances, because the learning of any language opens up another window on the world.

The Presiding Officer: Question 10, OAQ(4)0351(FM), has been withdrawn.

Anghenion Trafnidiaeth Pobl Anabl a Phobl Hŷn

11. Eluned Parrott: Sut fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi anghenion trafniadaeth pobl anabl a phobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell dros dymor nesaf y Cynulliad. OAQ(4)0347(FM)

The First Minister: Improving access to public transport for disabled and elderly people is a priority. The national transport plan sets out our delivery programme for this.

Eluned Parrott: It is often said that age rarely travels alone, and it is certainly true that many older people experience mobility difficulties, which make it difficult for them to access standard forms of public transport. However, there is an anomaly in that while people who are entitled to concessionary travel in Wales are not charged for using public buses, they can be charged for using community transport providers. What can you do to address that anomaly and open up access for people with mobility issues?

symudedd cymdeithasol. Mae tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn awgrymu nad Cymraeg fel ail iaith yn unig sy'n denu nifer isel o ddisgyblion, ond ieithoedd tramor modern, er gwaethaf Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. A ydych yn credu y dylai ail ieithoedd, sy'n gallu agor drysau economaidd, fod yn bynciau craidd yn y cwricwlwm cenedlaethol?

Y Prif Weinidog: Mae'n rhaid inni fod yn ofalus i beidio ag ychwanegu gormod o bynciau craidd at y cwricwlwm cenedlaethol, oherwydd y byddai gwneud hynny'n cyfyngu ar ddewis myfyrwyr wrth iddynt fynd drwy'r ysgol. Fodd bynnag, rwy'n cytuno ei bod yn bwysig bod plant yn cymryd astudio trydedd iaith neu ail iaith Ewropeaidd o ddifrif, yn ôl eu hamgylchiadau addysgol, gan fod dysgu unrhyw iaith yn agor ffenestr arall ar y byd.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 10, OAQ(4)0351(FM), yn ôl.

The Transport Needs of Disabled and Elderly People

11. Eluned Parrott: How will the Welsh Government support the transport needs of disabled and elderly people living in remote areas over the next Assembly term. OAQ(4)0347(FM)

Y Prif Weinidog: Mae gwella mynediad at drafniadaeth gyhoeddus i bobl anabl ac oedranus yn flaenoriaeth. Mae'r cynllun trafniadaeth cenedlaethol yn nodi ein rhaglen gyflenwi ar gyfer hyn.

Eluned Parrott: Dywedir yn aml mai go brin y mae oedran yn teithio ar ben ei hun, ac mae'n sicr fod llawer o bobl hŷn yn cael anawsterau symudedd, sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gael mynediad at ffurfiau safonol o gludiant cyhoeddus. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn y ffaith nad yw pobl sydd â hawl i deithio am ddim yng Nghymru yn gorfod talu am ddefnyddio bysiau cyhoeddus, ond mae'n bosibl y byddant yn wynebu tâl am ddefnyddio gwasanaethau darparwyr trafniadaeth gymunedol. Beth allwch chi ei wneud i fynd i'r afael â'r anghysondeb hwn a rhoi mynediad at y gwasanaethau hyn i bobl sydd â phroblemau symudedd?

The First Minister: We are looking at other affordable ways to support community transport in future years. We will be focusing on how the community transport sector can work more effectively with the NHS, with local health boards, to deliver non-emergency patient transport services where it is appropriate to do so.

Darren Millar: Thank you, First Minister, for that answer to Eluned Parrott. However, I would like to ask you about situations where people cannot access bus services at all. My constituency, Clwyd West, is the oldest constituency, demographically speaking, in Wales. As a result, many people in my constituency, particularly those living in rural areas, need access to public transport. They have concessionary passes, but they cannot get on a bus because there are no buses. What are you doing to support the expansion of local bus services in those hard-to-reach areas that have an elderly population?

The First Minister: There are several options. First, local authorities can consider whether a subsidised bus service is appropriate; that is a matter for them. There are models across Wales of community transport that is more flexible and has worked. Many of us know about the successful Bwcabus scheme that exists in Carmarthenshire.

Rhodri Glyn Thomas: Roedd gan Lywodraeth Cymru'n Un bolisi o gynnig cefnogaeth ariannol ar gyfer trafniadaeth gymunedol. Roedd yn gynllun peilot a ymestynnwyd am dair blynedd gan Ieuan Wyn Jones pan oedd y Gweinidog trafniadaeth. Mae'r cynllun hwnnw'n dod i ben ddiwedd mis Mawrth. Pan ysgrifennais at y Gweinidog trafniadaeth presennol, dywedodd wrthyf nad oedd ganddo unrhyw fwiad i ymestyn y cynllun hwnnw ymhellach, ond y byddai'n edrych am ffyrdd i gynnwys yr elfen honno yn y cynllun trafniadaeth y mae newydd ei gyhoeddi. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad penodol yn y cynllun hwnnw at ddiwallu'r angen hwn.

Y Prif Weinidog: Rydym yn edrych ar ffyrdd fforddiadwy eraill o gefnogi trafniadaeth gymunedol yn y dyfodol. Byddwn yn canolbwyntio ar sut y gall y sector trafniadaeth gymunedol weithio'n fwy effeithiol gyda'r GIG, a gyda byrddau iechyd lleol, i ddarparu gwasanaethau cludo cleifion di-argyfwng lle mae'n briodol gwneud hynny.

Darren Millar: Diolch yn fawr, Brif Weinidog, am yr ateb hwnnw i Eluned Parrott. Fodd bynnag, hoffwn ofyn i chi am sefyllfaoedd lle na all pobl gael mynediad at wasanaethau bws o gwbl. Fy etholaeth i, Gorllewin Clwyd, yw'r etholaeth hynaf, o ran demograffeg, yng Nghymru. O ganlyniad, mae angen mynediad at gludiant cyhoeddus ar lawer o bobl yn fy etholaeth, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae ganddynt docynnau teithio rhatach, ond ni allant fynd ar y bws oherwydd nad oes bysiau. Beth ydych chi'n ei wneud i gefnogi ehangu gwasanaethau bws lleol yn yr ardaloedd hynny sy'n anodd eu cyrraedd ac sydd â phoblogaeth oeddrannus?

Y Prif Weinidog: Mae nifer o opsiynau. Yn gyntaf, gall awdurdodau lleol ystyried a yw gwasanaeth bysiau a gymorthdelir yn briodol; mae hynny'n fater iddynt hwy. Mae modelau ledled Cymru o gludiant cymunedol sy'n fwy hyblyg ac sydd wedi gweithio. Mae llawer ohonom yn gwybod am y cynllun Bwcabus llwyddiannus yn Sir Gaerfyrddin.

Rhodri Glyn Thomas: First Minister, the One Wales Government had a policy of offering financial support for community transport. It was a pilot scheme that was extended for three years by Ieuan Wyn Jones when he was the Minister for transport. That scheme will cease at the end of March. When I wrote to the current Minister for transport, he told me that he had no intention of extending that scheme further, but would look for methods of including that element within the transport programme that he has just announced. However, there is no specific reference in that programme to meeting this need. What are you as Government going to do to ensure that those people receive

Beth y byddech fel Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod y bobl hynny yn cael cefnogaeth?

Y Prif Weinidog: Fel y bu i mi sôn yn gynharach, rydym yn edrych ar ffyrdd i sicrhau cludiant cymunedol yn y dyfodol, gan gofio'r sefyllfa ariannol bresennol, nad oedd yn bodoli, wrth gwrs, yn ystod y rhan fwyaf o fywyd y Llywodraeth flaenorol.

Pobl Ddi-waith yng Nghymru

12. Jenny Rathbone: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithgareddau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y bobl ddi-waith yng Nghymru. OAQ(4)0353(FM)

The First Minister: One example of dealing with that is to provide training opportunities. We are looking to create 4,000 training or apprenticeship jobs each year for young people through our Jobs Growth Wales scheme.

Jenny Rathbone: The commission on youth unemployment, chaired by David Miliband, which published its report yesterday, highlights that Wales has seen the biggest increase in the number of those not in education, employment or training of any region across the UK. This week the Welsh Government is calling on employers to increase the number of apprenticeships that they offer. Are employers heeding that call, and what can be done to incentivise them to increase the number of apprenticeships that they offer?

The First Minister: I have already mentioned the Jobs Growth Wales scheme, and we know that employers will look to create apprenticeship schemes where they can. It is exceptionally important that, where apprenticeships are created, they are seen to be sustainable. The last thing that we want is a situation where apprenticeships and training are created, but the vast majority of those opportunities do not lead to a job. Certainly, there is a desire among businesses to create training opportunities. They know of the beneficial effect that training has for their businesses and for those who they take on. We hope that Jobs Growth Wales will help to

support?

The First Minister: As I mentioned earlier, we are looking at a means of ensuring community transport in the future, bearing in mind the financial situation that we are now in, which did not exist, of course, for most of the period of the previous Government.

Unemployed People in Wales

12. Jenny Rathbone: Will the First Minister make a statement on Welsh Government activities to combat the rising numbers of unemployed people in Wales. OAQ(4)0353(FM)

Y Prif Weinidog: Un enghraifft o ymdrin â hynny yw darparu cyfleoedd hyfforddi. Rydym yn gobeithio creu 4,000 o swyddi hyfforddiant neu brentisiaeth bob blwyddyn ar gyfer pobl ifanc drwy ein cynllun Twf Swyddi Cymru.

Jenny Rathbone: Pwysleisiodd y comisiwn ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, o dan gadeiryddiaeth David Miliband, a gyhoeddodd ei adroddiad ddoe, fod Cymru wedi gweld y cynnydd mwyaf yn nifer y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o unrhyw ranbarth yn y DU. Yr wythnos hon, mae Llywodraeth Cymru yn galw ar gyflogwyr i gynyddu nifer y prentisiaethau y maent yn eu cynnig. A yw cyflogwyr yn gwrando ar yr alwad honno, a beth y gellir ei wneud i'w cymell i gynyddu nifer y prentisiaethau y maent yn eu cynnig?

Y Prif Weinidog: Rwyf wedi sôn eisoes am gynllun Twf Swyddi Cymru, a gwyddom y bydd cyflogwyr yn ceisio creu cynlluniau prentisiaeth lle y gallant wneud hynny. Mae'n eithriadol o bwysig, lle mae prentisiaethau yn cael eu creu, eu bod yn cael eu hystyried i fod yn gynaliadwy. Y peth olaf sydd ei angen arnom yw sefyllfa lle mae prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant yn cael eu creu ond nad yw mwyafrif helaeth y cyfleoedd hynny yn arwain at swyddi. Yn sicr, mae awydd ymhlith busnesau i greu cyfleoedd hyfforddi. Maent yn ymwybodol o'r effaith lesol y mae hyfforddiant yn ei chael ar eu busnesau ac ar yr hyfforddeion.

provide an example elsewhere in the economy as to how this scheme can be taken forward.

Paul Davies: Rydych yn cytuno bod rhaid i ni dyfu'r sector preifat yng Nghymru, ac felly mae'n bwysig ein bod yn cefnogi pobl sy'n ddi-waith drwy, er enghraifft, ddatblygu eu sgiliau entrepreneuriaidd er mwyn iddynt gael y cyfle i sefydlu eu busnesau eu hunain. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud yn benodol i helpu pobl ddi-waith i ddatblygu eu sgiliau busnes a'u sgiliau entrepreneuriaidd?

Y Prif Weinidog: Rwyf wedi sôn am y strategaeth entrepreneuriaeth ieuentid, sydd yn helpu pobl ifanc i ddeall gwerth entrepreneuriaeth. Mae'r gwasanaeth dechrau busnesau yn ei le, ac mae hwnnw'n anelu at sicrhau bod mwy o fusnesau yn cael eu dechrau ac yn parhau mewn rhannau o Gymru. Mae cynlluniau eraill hefyd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ddweud ei bod yn bwysig dros ben bod y blaid gyferbyn yn ymateb i'r hyn wnaeth Maria Miller ddweud yr wythnos hon. Dywedodd:

'the unemployment problem was down to a lack of "appetite" for the jobs on offer.'

'I don't think it's a lack of jobs at the moment I think it really is making sure that we've got people knowing where those jobs are.'

Nid dyna'r sefyllfa yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod y sefyllfa yng Nghymru ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn anodd i bobl sydd yn edrych am swyddi. Nid wyf yn credu ei bod yn iawn dweud mai'r unig broblem sydd gan yr economi yw nad yw pobl eisiau swyddi. Mae hynny'n simplistig iawn.

Alun Ffred Jones: Gan ddod yn ôl at y cwestiwn gwreiddiol, mae'r ffigyrau a gyhoeddwyd yn yr adroddiad hwn yn dychryn ac yn her i unrhyw Lywodraeth sydd o ddifrif ynglŷn â rhoi cyfle i bobl ifanc. Felly, pa gynlluniau sydd gennych fel Llywodraeth i helpu cwmnïau i gadw staff yn ystod y cyfnod anodd hwn. Gan gofio bod cynllun ProAct wedi'i ddiddymu, a oes

Gobeithiwn y bydd Twf Swyddi Cymru yn cynnig esiampl i fannau eraill yn yr economi o ran sut y gall y cynllun hwn gael ei ddatblygu.

Paul Davies: You agree that we need to grow the private sector in Wales, and so it is important that we support unemployed people by, for example, developing their entrepreneurial skills, so that they have the opportunity to establish their own businesses. Can the First Minister tell us what the Welsh Government is doing specifically to assist unemployed people to develop their business and entrepreneurial skills?

The First Minister: I have mentioned the youth entrepreneurship scheme, which helps young people to understand the value of entrepreneurship. The business start-up service is in place, and that is aimed at ensuring that there are more business start-ups and that they survive in parts of Wales. There are also other schemes. However, I have to say that it is very important that the party opposite responds to the comments made by Maria Miller this week. She said:

y rheswm dros y broblem diweithdra oedd diffyg chwaeth ar gyfer y swyddi a oedd ar gael.

Nid diffyg swyddi yw'r broblem ar hyn o bryd yn fy marn i ond gwneud yn siwr bod pobl yn gwybod ble y mae'r swyddi hynny.

That is certainly not the situation in Wales. We know that the situation in Wales and in the rest of the UK is very difficult for people who are seeking employment. I do not think that it is right to say that the only problem that the economy has is that people do not want jobs. That is very simplistic.

Alun Ffred Jones: To return to the original question, the figures that were published in that report are frightening and a challenge to any Government serious about giving young people an opportunity. What plans do you as a Government have to assist companies to retain staff during this difficult period. Given that the ProAct scheme has been abolished, do you have any intention of considering

gennyh unrhyw fwriad i ystyried rhoi cefnogaeth o'r fath yn y dyfodol?

providing similar support in future?

2.15 p.m.

Y Prif Weinidog: Wrth gwrs yr ydym yn gwrandao'n astud ar yr hyn mae busnesau yn ei ddweud wrthym. Fodd bynnag, bydd Aelodau'n gwybod bod sawl cynllun wedi'u cyflwyno yn y Cynulliad hwn yn ystod yr wythnosau diwethaf i helpu busnesau i dyfu, i ddechrau ac i gadw pobl, ac i helpu'r rheiny sydd eisiau mynd mewn i fusnesau. Mae amryw gynlluniau ar gael er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i ddod o hyd i waith unwaith eto.

The First Minister: Of course we listen carefully to what businesses tell us. However, Members will know that, over the past few weeks, a number of schemes have been brought forward in this Assembly to assist businesses to grow, to assist start-ups, to assist businesses in retaining staff and to assist those who want to go into business. There are a number of schemes available to ensure that people have the opportunity to find work once again.

Tlodi Plant

Child Poverty

13. Mark Drakeford: Pa amcangyfrif y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith rhaglen diwygio lles Llywodraeth y DU ar dlodi plant yng Nghymru. OAQ(4)0345(FM)

13. Mark Drakeford: What estimate has the First Minister made of the impact on child poverty in Wales of the UK Government's programme of welfare reform. OAQ(4)0345(FM)

The First Minister: A ministerial task and finish group is currently undertaking a comprehensive assessment of the cumulative impact of the welfare reforms, including the impact on child poverty. We use the results of this assessment to target our efforts to help mitigate the negative implications of welfare reform.

Y Prif Weinidog: Mae grŵp gorchwyl a gorffen y Gweinidog wrthi'n cynnal asesiad cynhwysfawr o effaith gronol y diwygiadau lles, gan gynnwys yr effaith ar dlodi plant. Rydym yn defnyddio canlyniadau'r asesiad hwn i dargedu ein hymdrechion i helpu i liniaru goblygiadau negyddol diwygio lles.

Mark Drakeford: Did you agree with bishops in the House of Lords when they said that, whatever different views there might be about welfare reform, the one thing we should all be agreed on is that the impact of those cuts should not be carried by children? If you agree with that, will you condemn the decision of the coalition Government to restore a cut that was defeated in the House of Lords and which will result in 100,000 disabled children in the United Kingdom losing £1,300 each a year?

Mark Drakeford: A oeddech chi'n cytuno â'r esgobion yn Nhŷ'r Arglwyddi a ddywedodd, beth bynnag fo'r gwahanol safbwyntiau am ddiwygio lles, mai'r un peth y dylem i gyd fod yn cytuno arno yw na ddylai'r toriadau effeithio ar blant? Os ydych yn cytuno â hynny, a wnewch chi gondemnio penderfyniad y Llywodraeth glymblaid i adfer toriad a gafodd ei drechu yn Nhŷ'r Arglwyddi? O ganlyniad i'r toriad hwnnwydd bydd 100,000 o blant anabl yn y Deyrnas Unedig yn colli £1,300 y flwyddyn?

The First Minister: We know that all the analysis shows that those who are worst off will suffer the most as a result of these changes. That is not an example of us all being in it together, which is the mantra that we have heard. What is it that the UK Government has against children? The Member has eloquently outlined the effect on

Y Prif Weinidog: Gwyddomfod yr holl ddadansoddiadau'n dangos mai'r bobl dlotaf sy'n mynd i ddiodeff fwyaf o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Nid yw hynny'n enghraifft o bawb yn yr un cwch, sef y neges yr ydym yn ei chlywed drosodd a throsodd. Beth sydd gan Lywodraeth y DU yn erbyn plant? Mae'r Aelod wedi amlinellu'n huawdl yr effaith ar

child poverty. The Institute for Fiscal Studies' analysis suggests that the reforms will increase child poverty by about 100,000, absolute child poverty by about 200,000 and absolute poverty among working-age adults without dependent children by about 100,000 as well. On top of that, it wants to charge single parents to use the services of the Child Support Agency. It is a Government agency designed to ensure that parents meet their financial obligations, and now it wants to put a financial barrier in the way of those who can afford it the least. Such behaviour is not something that we as a Government can condone. We know that it will lead to further poverty in Wales.

Jocelyn Davies: I agree with you, First Minister, that the impacts of the UK welfare reforms will be far reaching. It appears that the banking crisis is being paid for by those families that are least able to afford it. Do you agree that taking income, housing benefit and all the other things you mentioned away from poor families will not improve child poverty? Will an increase in child poverty clearly demonstrate the fact that the UK Government's welfare reform is failing to improve the life chances of Welsh children?

The First Minister: Unfortunately, I think that you are right. We will see an increase in child poverty and it is that evidence that will demonstrate the wrong direction that the UK Government has taken. It is a great shame that it will take an increase in child poverty to show it the error of its ways. We all know from the analysis that has been put forward that welfare reform will not help those who need help the most. We know of the examples given with regard to cancer patients and children, and we know about the example of having to pay to use the Child Support Agency. This will create tremendous poverty in our country and I believe that, in the next two or three years, the chickens will come home to roost when the public sees what has been done in its name.

Andrew R.T. Davies: First Minister, last week, there was slight confusion in the Chamber when the Minister responding to the

dlodi plant. Mae dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn awgrymu y bydd y diwygiadau yn peri cynnydd o tua 100,000 mewn tlodi plant, tua 200,000 mewn tlodi plant absoliwt a thua 100,000 mewn tlodi absoliwt ymhlith oedolion o oedran gweithio heb blant dibynnol. Ar ben hynny, mae am godi tâl ar rieni senl i ddefnyddio gwasanaethau'r Asiantaeth Cynnal Plant. Mae'n un o asiantaethau'r Llywodraeth a gynlluniwyd i sicrhau bod rhieni yn bodloni eu rhwymedigaethau ariannol, a bellach mae am roi rhwystr ariannol yn ffordd y rhai sy'n gallu ei fforddio leiaf. Nid yw ymddygiad o'r fath yn rhywbeth y gallwn ni fel Llywodraeth ei gymeradwyo. Gwyddom y bydd yn arwain at ragor o dlodi yng Nghymru.

Jocelyn Davies: Rwy'n cytuno â chi, Brif Weinidog, y bydd effeithiau diwygiadau lles y DU yn bellgyrhaeddol. Mae'n ymddangos mai'r rhai sy'n talu am yr argyfwng bancio yw'r teuluoedd hynny sy'n lleiaf tebygol o allu ei fforddio. A ydych yn cytuno na fydd mynd ag incwm, budd-dal tai a'r holl bethau eraill a grybwyllwyd gennych oddi ar deuluoedd tlawd yn gwella tlodi plant? A wnaiff cynnydd mewn tlodi plant ddangos yn glir fod diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn methu â gwella cyfleoedd bywyd plant Cymru?

Y Prif Weinidog: Yn anffodus, rwy'n credu eich bod yn iawn. Byddwn yn gweld cynnydd mewn tlodi plant, a honno yw'r dystiolaeth a fydd yn dangos y trywydd anghywir y mae Llywodraeth y DU wedi'i ddilyn. Mae'n drueni mawr mai yn sgîl cynnydd mewn tlodi plant y bydd yn gweld ei chamgymeriad. Rydym i gyd yn gwybod ar sail y dadansoddiad sydd wedi ei gyflwyno na fydd y diwygiadau lles yn helpu'r rhai y mae arnynt fwyaf o angen cymorth. Gwyddom am yr enghreifftiau a roddwyd mewn perthynas â chleifion canser a phlant, a gwyddom am yr enghraifft o orfod talu am ddefnyddio'r Asiantaeth Cynnal Plant. Bydd hyn yn creu tlodi mawr yn ein gwlad a chredaf, yn y ddwy neu dair blynedd nesaf, y bydd hyn yn dod yn ôl ar ben y Llywodraeth pan fydd y cyhoedd yn gweld yr hyn a wnaed yn ei enw.

Andrew R.T. Davies: Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, roedd peth dryswch yn y Siambr pan wnaeth y Gweinidog a oedd yn

debate on welfare reform last Wednesday highlighted the fact that your Government is against the regional capping of welfare payments and that, indeed, the Labour Party is against it, while the shadow Minister Liam Byrne in the House of Commons corrected that position by saying that he was of the opinion that it was Labour Party policy to have regional benefit payments. Could you clarify that please?

The First Minister: We do not agree with regional caps on benefits. We do not agree with regional benefits. One thing that we will do as a Government is to stand up for Wales as opposed to what we saw last week, when we saw the leader of the Welsh Conservatives, if indeed that is his title, being publicly slapped down by the Secretary of State for Wales. Did he answer her? No, he did not. I agree with him. I think that he should be the leader of the Welsh Conservative Party, but we will stand up for Wales. When will he stand up for Wales and when will he stand up for himself? [*Laughter.*]

The Presiding Officer: Order.

Budd-daliadau Tai

14. Gwyn R. Price: *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y newidiadau i fudd-daliadau tai a gyhoeddwyd yn ddiweddar. OAQ(4)0342(FM)*

The First Minister: The housing benefit reforms are already having a financial impact on the people of Wales. We know that the lack of affordability for low-income families within the private rented sector is likely to result in social and demographic changes for the worst.

Gwyn R. Price: Thank you for that answer. The Tory-Liberal Government's proposed changes to housing benefits are causing anxiety among many of my constituents because they fear being made homeless as a result of these drastic cuts. First Minister, do you agree with me and six prominent Welsh charities that these changes were ill-thought-out from the very beginning and their effects

ymateb i'r ddadl ar ddiwygio lles ddydd Mercher diwethaf dynnu sylw at y ffaith bod eich Llywodraeth yn erbyn capio rhanbarthol o ran taliadau lles ac, yn wir, fod y Blaid Lafur yn ei erbyn. Fodd bynnag, cywirodd Liam Byrne, Gweinidog yr wrthblaid yn Nhŷ'r Cyffredin, y safbwynt hwnnw drwy ddweud ei fod o'r farn bod cael taliadau budd-dal rhanbarthol yn bolisi gan y Blaid Lafur. A allwch chi esbonio'r sefyllfa os gwelwch yn dda?

Y Prif Weinidog: Nid ydym yn cytuno â chapiau rhanbarthol ar fudd-daliadau. Nid ydym yn cytuno â budd-daliadau rhanbarthol. Un peth y byddwn yn ei wneud fel Llywodraeth yw sefyll dros Gymru yn hytrach na'r hyn a welsom yr wythnos diwethaf, pan gafodd arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, os mai dyna yw ei deitl, ei gywiro'n gyhoeddus gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. A wnaeth ef ei hateb? Naddo. Rwy'n cytuno ag ef. Rwy'n credu mai ef ddylai fod yn arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, ond byddwn ni'n sefyll dros Gymru. Pryd y bydd ef yn sefyll dros Gymru a phryd y bydd ef yn sefyll drosto'i hun? [*Chwerthin.*]

Y Llywydd: Trefn.

Housing Benefits

14. Gwyn R. Price: *Will the First Minister make a statement on the recently proposed changes to housing benefit. OAQ(4)0342(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae'r diwygiadau budd-dal tai eisoes yn cael effaith ariannol ar bobl Cymru. Gwyddom fod y diffyg fforddiadwyedd i deuluoedd ar incwm isel yn y sector rhentu preifat yn debygol o arwain at newidiadau cymdeithasol a demograffig er gwaeth.

Gwyn R. Price: Diolch ichi am yr ateb. Mae newidiadau arfaethedig y Llywodraeth Dori'aid-Ryddfrydol mewn budd-daliadau tai yn achosi pryder ymysg llawer o fy etholwyr oherwydd bod arnynt ofn cael eu gwneud yn ddigartref o ganlyniad i'r toriadau llym. Brif Weinidog, a ydych yn cytuno â mi a chwech o elusennau amlwg Cymru fod y newidiadau hyn yn rhai na chawsant eu

will be devastating to the most vulnerable members of our society?

The First Minister: Once again, we are seeing examples of the most vulnerable in society being made to pay the most. That shows that the UK Government is on the wrong track when it comes to welfare reform, and we, as the Welsh Government, will do what we can in order to mitigate what it is doing.

William Graham: Will the First Minister make an estimate of the number of council and housing association tenants who are receiving housing benefits who sublet their homes?

The First Minister: The issue is whether people have enough income to live on and are able to keep a roof over their heads. The issue of subletting homes is important, but it does not take away from the main issue, which is that the UK Government is following a course that will see people and their families ending up without a roof over their heads. As a Government, we will oppose that tooth and nail.

Leanne Wood: First Minister, you have stated your opposition to welfare reform in the Chamber on a number of occasions. Will you outline how exactly you intend to put your stated aim of 'standing up for the people of Wales' into action as far as the squeezed and persecuted benefit claimants in Wales are concerned? Last week, in a debate, we heard Jocelyn Davies outline the case of her constituent who was passed as being fit for work despite being registered blind for more than 30 years. Would you be prepared to find a small amount of resource to employ more welfare rights advisers, so that disabled people can be assisted in resisting the harsh and unjust policies of the UK Government? Such an investment could result in saving money by taking pressure off the housing and health budgets of your Government.

The First Minister: We always look to do what we can to help people understand their rights, but I would be reluctant for the Welsh budget to cover costs that should be picked

hystyried yn drwyadl o'r cychwyn cyntaf ac y bydd eu heffeithiau'n ddinistriol i'r aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas?

Y Prif Weinidog: Unwaith eto, rydym yn gweld enghreifftiau o'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael eu gorfodi i dalu'r pris mwyaf. Mae hynny'n dangos bod Llywodraeth y DU ar y trywydd anghywir o ran diwygio lles, a byddwn ni, yn Llywodraeth Cymru, yn gwneud yr hyn a allwn i liniaru'r hyn y mae'n ei wneud.

William Graham: A wnaiff y Prif Weinidog wneud amcangyfrif o nifer y tenantiaid cyngor a thenantiaid cymdeithasau tai sy'n cael budd-daliadau tai sy'n is-osod eu cartrefi?

Y Prif Weinidog: Y cwestiwn yw a oes gan bobl ddigon o incwm i fyw arno ac a ydynt yn gallu fforddio to uwch eu pennau. Mae is-osod cartrefi yn fater pwysig, ond nid yw'n disodli'r prif fater, sef bod Llywodraeth y DU yn dilyn trywydd a fydd yn peri i bobl a'u teuluoedd golli'r to uwch eu pennau. Fel Llywodraeth, byddwn yn gwrthwynebu hynny'n chwyrn.

Leanne Wood: Weinidog, rydych wedi datgan eich gwrthwynebiad i ddiwygio lles yn y Siambr droeon. A wnewch amlinellu sut yn union yr ydych yn bwriadu rhoi eich nod o 'sefyll dros bobl Cymru' ar waith mewn perthynas â hawlwr budd-daliadau yng Nghymru sy'n cael eu gwasgu a'u herlid? Yr wythnos diwethaf, mewn dadl, clywsom Jocelyn Davies yn sôn am achos un o'i hetholwyr y dyfarnwyd ei fod yn ddigon iach i weithio er iddo gael ei gofrestru'n ddall ers mwy na 30 mlynedd. A fydddech yn barod i ddod o hyd i ychydig bach o adnoddau i gyflogi mwy o ymgynghorwyr hawliau lles, fel y gall pobl anabl gael eu cynorthwyo i wrthsefyll polisiau llym ac anghyfiawn Llywodraeth y DU? Gallai buddsoddiad o'r fath arwain at arbed arian drwy fynd â phwysau oddi ar gyllidebau tai ac iechyd eich Llywodraeth.

Y Prif Weinidog: Rydym bob amser yn awyddus i wneud yr hyn a allwn i helpu pobl i ddeall eu hawliau, ond byddwn yn amharod i gyllideb Cymru dalu am gostau y dylai

up by the UK budget. One issue that we face is that as we see homelessness increase, the pressure will be brought to bear on local authorities and they are part of the Welsh budget, but there will be a saving for the Department for Work and Pension. It is important that the UK Government recognises its responsibilities, pays for them and does not seek to offload them on to other Governments without providing the correct level of finance in order to meet those responsibilities.

Mick Antoniw: I welcome the considerable amount of resource that the Welsh Government has put in to bodies such as Citizens Advice in Rhondda Cynon Taf to provide advice on benefits. Some work carried out by my office focused on those up to the age of 35 for whom the reforms will mean that they will face substantial cuts in benefits. Even if they move home, their parents will face similar cuts, so there is a real risk of unemployment as well as it being demeaning for people up to the age of 35 to be forced to share, especially vulnerable adults. What can the Welsh Government do to assist with the potential homelessness problems that will arise from the disastrous reforms that are proposed?

The First Minister: You are quite correct that those who are under 35 years of age and single will be hit very hard: £24 a week is a considerable amount to lose, and it is likely to result in tenants moving from self-contained accommodation to shared accommodation. It will mean that there will be more housing in multiple occupation; it is inevitable as a result of the proposed policy. We are providing £1.2 million of funding to help local authorities to raise people's awareness of the changes and to help tenants to cope with changes through housing services and by liaising with landlords on behalf of tenants. A further £1.5 million has also been provided through the homelessness grant.

cyllideb y DU dalu amdanynt. Un mater sy'n ein hwynebu yw, wrth i ddigartrefedd gynyddu, y byddwn yn gweld pwysau cynyddol ar awdurdodau lleol, sy'n rhan o gyllideb Cymru, ond bydd arbediad i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n bwysig bod Llywodraeth y DU yn cydnabod ei chyfrifoldebau, yn talu amdanynt ac nad yw'n ceisio eu trosglwyddo i Lywodraethau eraill heb ddarparu'r lefel gywir o gyllid er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

Mick Antoniw: Rwy'n croesawu'r swm sylweddol o adnoddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ei roi i gyrff megis Cyngor ar Bopeth yn Rhondda Cynon Taf i ddarparu cyngor ar fudd-daliadau. Roedd rhywfaint o waith a wnaed gan fy swyddfa yn canolbwyntio ar bobl hyd at 35 oed y bydd y diwygiadau yn golygu y byddant yn wynebu toriadau sylweddol mewn budd-daliadau. Hyd yn oed os byddant yn symud cartref, bydd eu rhieni'n wynebu toriadau tebyg, felly mae perygl gwirioneddol y bydd diweithdra yn ogystal â'r ffaith ei bod yn ddiraddiol gorfodi pobl hyd at 35 oed i rannu, yn enwedig oedolion sy'n agored i niwed. Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau digartrefedd posibl a fydd yn deillio o'r diwygiadau arfaethedig trychinebus?

Y Prif Weinidog: Rydych yn hollol gywir y bydd y rhai sydd o dan 35 oed ac yn sengl yn cael eu taro'n galed iawn: mae £24 yr wythnos yn swm sylweddol i'w golli, a chanlyniad tebygol hyn yw y bydd tenantiaid yn symud o lety hunangynhwysol i rannu lety. Bydd yn golygu y bydd mwy o dai mewn amlfeddiannaeth; mae hynny'n anochel o ganlyniad i'r polisi arfaethedig. Rydym yn darparu £1.2 miliwn i helpu awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth pobl o'r newidiadau ac i helpu tenantiaid i ymdopi â newidiadau drwy'r gwasanaethau tai a thrwy gysylltu â landlordiaid ar ran tenantiaid. Mae £1.5 miliwn arall hefyd wedi cael ei ddarparu trwy grantiau digartrefedd.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): I have one change to report to this week's planned business, which is to clarify the title of this afternoon's statement by the Minister for Environment and Sustainable Development. Business for the next three weeks is as shown on the business statement announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Antoinette Sandbach: I wonder whether you could ask the Deputy Minister to table a debate on the Glastir statement that he issued last week. The 'Working Smarter' report that we will debate later today indicated that that scheme was introduced too soon and in a rushed fashion, before the policy detail was properly developed in a true partnership with stakeholders. Although there were 14,000 expressions of interest, only 1,698 people have actually signed up to the Glastir scheme. In addition, the Deputy Minister hints in his written statement that he may contemplate legislating in this area when our farming competitors across Europe would not face legislation—in fact, they would receive payment for delivery of these kinds of environmental goods and services. It is an important change in policy and I think that it is vital that this is debated by this house.

Jane Hutt: This is an important change in policy and a very innovative development, as the European Commission recognises. Clearly, there is an opportunity to consider this further during the Deputy Minister's statement this afternoon.

Julie Morgan: We will soon be celebrating International Women's Day, which is an opportunity to celebrate women's achievements all over the world. What is the Leader of the House able to do in the business of this Chamber to recognise this important day?

Jane Hutt: It is an opportunity to celebrate. The Welsh Government is helping women's

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Mae un newid ym musnes yr wythnos hon, sef cadarnhau teitl datganiad Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy y prynhawn yma. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

Antoinette Sandbach: Tybed a allech ofyn i'r Dirprwy Weinidog gyflwyno dadl ar y datganiad ar Glastir a gyhoeddodd yr wythnos diwethaf? Mae adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' y byddwn yn ei drafod yn ddiweddarach heddiw yn dangos bod y cynllun hwnnw wedi ei gyflwyno'n rhy fuan ac ar ormod o frys, a hynny cyn i'r manylion polisi gael eu datblygu'n briodol mewn gwir bartneriaeth â rhanddeiliaid. Er i 14,000 fynegi diddordeb, dim ond 1,698 o bobl sydd wedi ymuno â chynllun Glastir. Yn ogystal, mae'r Dirprwy Weinidog yn awgrymu yn ei ddatganiad ysgrifenedig y gall ystyried deddfu yn y maes hwn pan na fydd ein cystadleuwyr ffermio ledled Ewrop yn wynebu deddfwriaeth—yn wir, byddent yn cael tâl am ddarparu'r mathau hyn o nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. Mae'n newid polisi pwysig ac rwy'n credu ei bod yn hanfodol i hyn gael ei drafod gan y tŷ hwn.

Jane Hutt: Mae hwn yn newid pwysig mewn polisi ac yn ddatblygiad arloesol, fel y mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cydnabod. Yn amlwg, mae cyfle i ystyried hyn ymhellach yn ystod datganiad y Dirprwy Weinidog y prynhawn yma.

Julie Morgan: Cyn hir, byddwn yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, sy'n gyfle i ddathlu cyflawniadau menywod dros y byd. Beth y gall Arweinydd y Tŷ ei wneud fel rhan o fusnes o Siambr hon i gydnabod y diwrnod pwysig hwn?

Jane Hutt: Mae'n gyfle i ddathlu. Mae Llywodraeth Cymru yn helpu sefydliadau

organisations and community organisations throughout Wales to celebrate and I will be announcing tomorrow the organisations that have been successful in getting funding. Sixteen organisations will receive up to £2,500 each to hold events to mark International Women's Day on 8 March. It is important that I am issuing a written statement on International Women's Day, which falls on Thursday 8 March. However, we still have to recognise across the Chamber that we have a long way to go before women's rights and gender equality are fully recognised. International Women's Day does provide that opportunity for us to recognise those challenges and the discrimination still faced by many women around the world. There are events that celebrate our achievements on 7, 8 and 9 March and I am certainly looking forward to attending many events around Wales.

Elin Jones: Minister, will you table a Government debate or statement on the accountability of local health boards to the Welsh Government? I ask because, last week in oral questions to the Minister for Health and Social Services, she gave a commitment to me that she would encourage the chair or the chief executive of Hywel Dda Local Health Board to attend a public meeting on the future of services at Bronglais General Hospital, to be held in Aberystwyth this Friday. She said, commendably, that,

'It is vital that there is representation from the health boards to answer questions from members of the public'.

Despite the Minister's commitment, Hywel Dda health board has now confirmed that no-one from the health board will be attending that meeting. I would like a statement on who is running the NHS—the Minister or the health boards.

Jane Hutt: I am glad to have the opportunity to provide the health spokesperson for Plaid Cymru, Elin Jones, with more information on this point. I understand that Hywel Dda health board is holding its own public meeting in Aberystwyth on 22 February,

menywod a sefydliadau cymunedol ledled Cymru i ddathlu ac yfory byddaf yn cyhoeddi enwau'r sefydliadau sydd wedi llwyddo i gael arian. Bydd 16 o sefydliadau yn cael hyd at £2,500 yr un i gynnal digwyddiadau i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar 8 Mawrth. Mae'n bwysig fy mod yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, sef dydd Iau 8 Mawrth. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni gydnabod ar draws y Siambr fod gennym gryn ffordd i fynd cyn y bydd hawliau menywod a chydoldeb rhwng y rhywiau yn cael eu cydnabod yn llawn. Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn rhoi'r cyfle hwnnw inni gydnabod yr heriau hynny a'r gwahaniaethu y mae llawer o fenywod ar draws y byd yn eu hwynebu o hyd. Bydd digwyddiadau'n cael eu cynnal i ddathlu ein llwyddiannau ar 7, 8 a 9 Mawrth ac rwy'n sicr yn edrych ymlaen at fynd i lawer o ddigwyddiadau ar hyd a lled Cymru.

Elin Jones: Weinidog, a wnewch chi gyflwyno dadl neu ddatganiad gan y Llywodraeth ar atebolrwydd y byrddau iechyd lleol i Lywodraeth Cymru? Gofynnaf hynny oherwydd, yn ystod cwestiynau llafar i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wythnos diwethaf, rhoddodd ymrwymiad i mi y byddai'n annog cadeirydd neu brif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i fynd i gyfarfod cyhoeddus ar ddyfodol gwasanaethau yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, sydd i'w gynnal yn Aberystwyth ddydd Gwener. Meddai, ac mae i'w chanmol am hynny,

'Mae'n hanfodol bod y byrddau iechyd yn cael eu cynrychioli i ateb cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.'

Er gwaethaf ymrwymiad y Gweinidog, mae bwrdd iechyd Hywel Dda erbyn hyn wedi cadarnhau na fydd neb o'r bwrdd iechyd yn y cyfarfod hwnnw. Hoffwn gael datganiad ynghylch pwy sy'n rhedeg y GIG—y Gweinidog neu'r byrddau iechyd.

Jane Hutt: Rwy'n falch o'r cyfle i roi rhagor o wybodaeth am hyn i lefarydd iechyd Plaid Cymru, Elin Jones. Deallaf fod bwrdd iechyd Hywel Dda yn cynnal ei gyfarfod cyhoeddus ei hun yn Aberystwyth ar 22 Chwefror, lle y bydd uwch reolwyr hefyd yn bresennol, a'i

which will also be attended by senior management, and that it is seeking to meet the group that is engaged in Bronglais hospital—I believe that dates have been offered in March. The board is also presenting to a full council meeting of Ceredigion County Council on 10 February, so it is seeking to meet the public at every opportunity.

Mark Isherwood: I call for a statement on bus user services. Last week, in the Chamber, I highlighted concern expressed by the Confederation of Passenger Transport Wales and councils that the Welsh Government's cuts to the bus service operators grant and the local transport services grant were too large, that inadequate notice had been given, and that it could have a significant and detrimental impact on bus users. In his response, the Minister said that, in Wales, there had been a more generous bus service operators grant than in England, but he was happy to enter into discussion with bus service operators and hoped to arrange an urgent meeting this week.

2.30 p.m.

Since then, we have heard from bus operators that there was an 18-month notice period in England compared with the inadequate notice here, and a smaller cut to the bus service operators' grant. Therefore, when the Minister has consulted with bus service operators, can you commit to a statement being made so that we can be aware of facts and progress in this direction?

Jane Hutt: I assure Mark Isherwood that the Minister has started the consultation with bus operators and he will report to the Assembly on the outcome.

Mick Antoniw: Minister, I recently hosted the launch of some research by Working Links, to be carried out by the Bevan Foundation, on the issue of conditions of work and what work looks like in the Valleys today. This is a very important piece of work. Although many jobs have been lost, many are being created. The problem is that many of them mean temporary, short-term, or agency

fod yn ceisio cyfarfod â'r grŵp sy'n ymgyrchu yn ysbyty Bronglais—credaf fod dyddiadau wedi'u cynnig ym mis Mawrth. Bydd y bwrdd hefyd yn rhoi cyflwyniad i gyfarfod o gyngor llawn Cyngor Sir Ceredigion ar 10 Chwefror, felly mae'n ceisio manteisio ar bob cyfle i gyfarfod â'r cyhoedd.

Mark Isherwood: Rwy'n galw am ddatganiad am wasanaethau i ddefnyddwyr bysiau. Yr wythnos diwethaf yn y Siambr, tynnais sylw at bryder a fynegwyd gan Gydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru a chynghorau fod toriadau Llywodraeth Cymru yn y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau a'r grant gwasanaethau trafndiaeth lleol yn rhy fawr, bod rhybudd annigonol wedi cael ei roi, ac y gallai gael effaith sylweddol ac andwyol ar ddefnyddwyr bysiau. Yn ei ymateb, dywedodd y Gweinidog fod y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau yn fwy hael yng Nghymru nag yn Lloegr, ond y byddai'n fodlon trafod y mater â gweithredwyr gwasanaethau bysiau a gobeithir trefnu cyfarfod brys yr wythnos hon.

Ers hynny, clywsom gan weithredwyr bysiau fod cyfnod rhybudd o 18 mis yn Lloegr o'i gymharu â'r rhybudd annigonol yma, a llai o doriad yn y grant gweithredwyr gwasanaethau bysiau. Felly, pan fydd y Gweinidog wedi ymgynghori â gweithredwyr gwasanaethau bysiau, a allwch ymrwymo i wneud datganiad fel y gallwn gael gwybod am y ffeithiau a'r cynnydd yn hyn o beth?

Jane Hutt: Yr wyf yn sicrhau Mark Isherwood fod y Gweinidog wedi dechrau'r ymgynghori gyda gweithredwyr bysiau ac y bydd yn adrodd i'r Cynulliad am y canlyniad.

Mick Antoniw: Weinidog, cynhelais lansiad yn ddiweddar o ryw faint o waith ymchwil gan Working Links, i gael ei wneud gan Sefydliad Bevan, ar amodau gwaith a sut waith sydd i'w gael heddiw yn y Cymoedd. Mae hwn yn ddarn pwysig iawn o waith. Er bod llawer o swyddi wedi eu colli, mae llawer yn cael eu creu. Y broblem yw bod llawer ohonynt yn golygu contractau dros

zero-hours contracts, and there are real concerns that we are moving into a society of minimum-wage, no-terms contracts. Will you issue a statement at some stage to look at the whole issue of providing a living wage and decent terms and conditions for jobs that are to be created in the south Wales area?

Jane Hutt: I thank Mick Antoniw for that question, which relates to the large number of measures that we are taking to support the Welsh economy, particularly in communities within the constituency he represents. It is important to recognise the impact that the Jobs Growth Wales scheme will have, which will provide opportunities for young people, alongside the £55 million-package to support business growth in Wales, which will have an impact on developing jobs, including well-paid jobs, in Valleys communities. Therefore, this is clearly something we are considering in terms of how we can support the economy and improve wage levels in these communities.

Simon Thomas: Cawsom drafodaeth dda yn y Cynulliad tua phythefnos yn ôl am fenthyciadau diwrnod cyflog, y llogau uchel sy'n cael eu codi gan gwmnïau, a'r effaith ar ein cymunedau. Clywsom ymateb positif iawn gan y Gweinidog ar ran y Llywodraeth. Gan ein bod ni'n edrych tuag at y cyfnod ar ôl hanner tymor, a oes modd cael datganiad gan y Llywodraeth yn crynhoi'r gwahanol bethau y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i hyrwyddo undebau credyd a Moneyline Cymru er enghraifft, ac i daclo'r bygythiad hwn mewn cynifer o'n cymunedau mwyaf difreintiedig ni sy'n peri i bobl gael eu tynnu i ddyled gan gwmnïau? Byddai datganiad—ysgrifenedig os oes rhaid—gan y Llywodraeth yn dangos bod barn drawsbleidiol am y mater a bod awydd i helpu pobl mewn sefyllfa argyfyngus.

Jane Hutt: Simon Thomas has highlighted a policy area in which we are doing all that we can as a Welsh Government to mitigate against the impact of these loan sharks and pay-day loans. We recognise the vulnerability of our communities as a result of the cuts made by the UK Government and the impact of the welfare reform legislation. I am sure

dro, tymor byr, neu contractau asiantaeth dim oriau, ac mae pryderon go iawn ein bod yn newid i fod yn gymdeithas contractau isafswm cyflog heb delerau. A wnewch chi gyhoeddi datganiad rywbryd i edrych ar yr holl fater darparu cyflog byw ac amodau a thelerau teilwng ar gyfer swyddi sydd i'w creu yn ardal de Cymru?

Jane Hutt: Diolch i Mick Antoniw am y cwestiwn hwnnw, sy'n ymwneud â'r nifer fawr o fesurau yr ydym yn ymgymryd â hwy i gefnogi economi Cymru, yn enwedig mewn cymunedau o fewn yr etholaeth y mae'n ei chynrychioli. Mae'n bwysig cydnabod yr effaith y bydd cynllun Twf Swyddi Cymru yn ei chael, a fydd yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc, ochr yn ochr â'r pecyn £55 miliwn i gefnogi twf busnes yng Nghymru, a fydd yn cael effaith ar ddatblygu swyddi, gan gynnwys swyddi sy'n talu'n dda, yng nghymunedau'r Cymoedd. Felly, mae hyn yn amlwg yn rhywbeth yr ydym yn ei ystyried o ran sut y gallwn gefnogi'r economi a gwella lefelau cyflog yn y cymunedau hyn.

Simon Thomas: We had an excellent debate in the Assembly about a fortnight ago on the issue of payday loans, the high interest rates charged by these companies, and the impact that they are having on our communities. There was a very positive response from the Minister on behalf of the Government. Now that we are looking to the period after half term, would it be possible to get a statement from the Government summarising the various things that the Government is doing to promote credit unions and Moneyline Cymru, for example, and to tackle this threat in many of our most disadvantaged communities that is causing people to be drawn into debt by these companies? A statement by the Government—a written statement if needs be—would show that there is cross-party agreement on the matter and a desire to assist people in a critical situation.

Jane Hutt: Mae Simon Thomas wedi tynnu sylw at faes polisi lle yr ydym yn gwneud popeth a allwn fel Llywodraeth Cymru i liniaru effaith benthydwyr arian didrwydded a benthyciadau diwrnod cyflog. Rydym yn gwybod mor agored i niwed yw ein cymunedau o ganlyniad i'r toriadau a wnaed gan Lywodraeth y DU ac effaith y

that the Minister for Local Government and Communities will consider providing an update on the work that we are doing, which is cross-governmental, in terms not only of credit unions, but of support for Moneyline Cymru.

Darren Millar: I am sure that you, like me, will want to congratulate Her Majesty Queen Elizabeth II on the sixtieth anniversary of her accession to the throne. I wonder whether you could make available a written statement from the First Minister on the Welsh Government's plans to commemorate this momentous year. It is important to have some national events, as well as the local and regional events that have been organised across the country. This is something that the Welsh people feel very strongly about, and I would encourage you to bring forward a statement.

Jane Hutt: Darren Millar is quite right that this is an important anniversary, and I am sure that the First Minister and colleagues in the Welsh Government are looking at appropriate ways in which we can recognise this, as is the Llywydd, I am sure.

Rebecca Evans: The European Union has designated 2012 as the European Year for Active Ageing. I would welcome a statement from the Government on how you are engaging with that initiative, perhaps by creating more initiatives for older people to learn or more job opportunities, along with opportunities for older people to stay active and healthy.

Jane Hutt: In thanking Rebecca Evans for that question, I would say that one of my portfolio responsibilities is digital inclusion. We are working with organisations to support active ageing in terms of digital inclusion. I recently visited a sheltered housing scheme where funding from our digital inclusion policy stream has enabled older people to become silver surfers, to learn digital skills and to make digital contact with, for example, family members. We must look at the financial inclusion strategy, the home energy efficiency scheme, the transport action plan and the museum and library strategy, and recognise that the skills we are

ddeddfwriaeth diwygio lles. Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn ystyried rhoi'r manylion diweddaraf am y gwaith yr ydym yn ei wneud, sy'n draws-lywodraethol, o ran nid yn unig undebau credyd, ond hefyd o ran cefnogaeth i Moneyline Cymru.

Darren Millar: Yr wyf yn siŵr eich bod chi, fel finnau, yn awyddus i longyfarch Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II ar drigeinfed pen-blwydd ei hesgyniad i'r orsedd. Tybed a fyddai modd ichi ryddhau datganiad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddathlu'r flwyddyn bwysig hon? Mae'n bwysig cael rhywfaint o ddigwyddiadau cenedlaethol, yn ogystal â'r digwyddiadau lleol a rhanbarthol sydd wedi eu trefnu ledled y wlad. Mae hyn yn rhywbeth y mae pobl Cymru yn teimlo'n gryf yn ei gylch, a byddwn yn eich annog i gyflwyno datganiad.

Jane Hutt: Mae Darren Millar yn hollol iawn ei fod yn ben-blwydd pwysig, ac rwyf yn siŵr bod y Prif Weinidog a chyd-Weinidogion yn Llywodraeth Cymru yn edrych ar ffyrdd priodol y gallwn gydnabod hyn, fel y mae'r Llywydd, rwyf yn siŵr.

Rebecca Evans: Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi dynodi 2012 yn Flwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Heneiddio'n Egniol. Byddwn yn croesawu datganiad gan y Llywodraeth ynghylch sut yr ydych yn ymgysylltu â'r fenter honno, efallai drwy greu mwy o fentrau ar gyfer pobl hŷn i ddysgu neu fwy o gyfleoedd gwaith, ynghyd â chyfleoedd i bobl hŷn gadw'n heini ac yn iach.

Jane Hutt: Wrth ddiolch i Rebecca Evans am y cwestiwn hwnnw, byddwn yn dweud mai un o'm cyfrifoldebau portffolio yw cynhwysiant digidol. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau i gefnogi heneiddio'n egniol o ran cynhwysiant digidol. Yn ddiweddar, ymwelais â chynllun tai gwarchod lle y mae arian o'n ffrwd polisi cynhwysiant digidol wedi galluogi pobl hŷn i ddod yn borwyr penwyn, i ddysgu sgiliau digidol ac i gysylltu'n ddigidol, er enghraifft, ag aelodau o'r teulu. Mae'n rhaid inni edrych ar y strategaeth cynhwysiant ariannol, y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, y cynllun gweithredu cludiant a'r strategaeth

developing through community learning for Wales and the strategy for older people are delivering on the point that you raised.

Nick Ramsay: I would like to renew our call for a statement on the Welsh ambulance service and how the Welsh Government could improve the operation of that service. You may be aware that this morning a petition was presented to the Assembly on the steps of the Senedd by Matthew Davies, who heads a group in Monmouth. His mother, Jacqueline Davies, died last January, and the coroner has highlighted failings in the Welsh ambulance service as being one key factor that led to her death. This is a serious concern in my constituency, and I know that other Assembly Members have concerns about the ambulance service in this area. A statement at this crucial time would be helpful.

Jane Hutt: The Welsh Ambulance Services NHS Trust made an important response to the petition that was received today. Our expectations of the Welsh Ambulance Services NHS Trust are at the forefront of the agenda and priorities of the Government and the Minister for Health and Social Services. Recent statistics show that there has been a great improvement in terms of reaching the expected service standards, and I know that this will have an impact on the response to this tragic occasion.

Jenny Rathbone: Would it be possible to organise a debate on the Commission on Youth Unemployment's report, which was published yesterday? Unlike those on the Conservative opposition benches, I am sure that you well aware that this was a cross-party and non-party-political initiative led by the voluntary sector and funded by a private accountancy firm. The report addresses an extremely important issue, and its recommendations are worthy of our looking at them to see whether they can help us to tackle this important issue in Wales.

Jane Hutt: As Jenny Rathbone knows, we have the Skills Growth Wales scheme for young people, but we should also recognise

amgueddfeydd a llyfrgelloedd, a chydabod bod y sgiliau yr ydym yn eu datblygu drwy ddysgu oedolion yn y gymuned yng Nghymru a'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn yn cyflawni o ran y pwynt a godwyd gennych.

Nick Ramsay: Hoffwn alw eto am ddatganiad ar wasanaeth ambiwlans Cymru a'r modd y gallai Llywodraeth Cymru wella'r ffordd y mae'r gwasanaeth hwnnw'n gweithredu. Efallai eich bod yn ymwybodol bod deiseb wedi ei chyflwyno i'r Cynulliad y bore yma ar risiau'r Senedd gan Matthew Davies, sy'n rhedeg grŵp yn Nhrefynwy. Bu farw ei fam, Jacqueline Davies, fis Ionawr diwethaf, a thynnodd y crwner sylw at fethiannau yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru fel ffactor allweddol a arweiniodd at ei marwolaeth. Mae hwn yn bryder difrifol yn fy etholaeth, a gwn fod pryderon gan Aelodau Cynulliad eraill am y gwasanaeth ambiwlans yn yr ardal hon. Byddai datganiad ar yr adeg dyngedfennol hon yn ddefnyddiol.

Jane Hutt: Gwnaeth Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ymateb pwysig i'r ddeiseb a dderbyniwyd heddiw. Mae'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ar flaen agenda a blaenoriaethau'r Llywodraeth a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dengys ystadegau diweddar bod gwelliant mawr wedi bod o ran cyrraedd y safonau gwasanaeth disgwylidig, a gwn y bydd hyn yn cael effaith ar yr ymateb i'r achlysur trasig hwn.

Jenny Rathbone: A fyddai'n bosibl trefnu dadl ar adroddiad y Comisiwn ar Ddiweithdra Ieuenctid, a gyhoeddwyd ddoe? Yn wahanol i'r rhai ar feinciau'r wrthblaid Geidwadol, rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod hon yn fenter drawsbleidiol ac amhleidiol a arweinir gan y sector gwirfoddol ac a ariennir gan gwmni cyfrifeg preifat. Mae'r adroddiad yn ymdrin â mater pwysig iawn, ac mae ei argymhellion yn teilyngu golwg gennym i weld a oes modd iddynt ein helpu i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn yng Nghymru.

Jane Hutt: Fel y gŵyr Jenny Rathbone, mae gennym y cynllun Sgiliau Twf Cymru ar gyfer pobl ifanc, ond dylem hefyd gydnabod

the important work that is being done with young people who are not in employment, education or training. This work is taking us through in terms of the policies we are delivering for young people. We should recognise that this is something on which every contribution is welcomed by this Government—by Ministers and their officials.

y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gyda phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Mae'r gwaith hwn yn mynd â ni yn ein blaenau o ran y polisiau yr ydym yn eu cyflawni ar gyfer pobl ifanc. Dylem gydnabod bod hyn yn rhywbeth lle y mae pob cyfraniad yn cael ei groesawu gan y Llywodraeth hon—gan Weinidogion a'u swyddogion.

Datganiad: y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyngor Sir Ynys Môn Statement: Update on the Isle of Anglesey County Council

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): Last March, I announced the measures I was taking to restore effective local governance in Anglesey. The situation there had become dire. The council was ridden with chronic political infighting and misbehaviour. It was unwilling and unable to serve local people effectively and responsibly. I had no option but to appoint commissioners to take overall control of the council's executive functions. That was one of the gravest announcements that any Minister for local government has had to make. No other local authority in the UK has had its powers withdrawn. It was a decision I made reluctantly, but it was a fair reflection of the depths that Anglesey council had reached.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Fis Mawrth diwethaf, cyhoeddais y camau yr oeddwn yn eu cymryd i adfer llywodraethu lleol effeithiol ar Ynys Môn. Roedd y sefyllfa yno wedi troi'n enbyd. Roedd ymladd mewnol gwleidyddol a chamymddwyn yn rhemp yn y cyngor. Roedd yn anfodlon gwasanaethu pobl leol yn effeithiol ac yn gyfrifol ac nid oedd yn gallu gwneud hynny. Doedd gen i ddim dewis ond penodi comisiynwyr i gymryd rheolaeth gyffredinol o swyddogaethau gweithredol y cyngor. Dyna oedd un o'r cyhoeddiadau mwyaf difrifol y bu'n rhaid i unrhyw Weinidog dros lywodraeth leol ei wneud. Ni thynnwyd pwerau oddi ar ddim un awdurdod lleol arall yn y DU. Roedd yn benderfyniad a wneuthum yn anfoddog, ond roedd yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa affwysol yng Nghyngor Ynys Môn.

I subsequently appointed five commissioners to run the council: Alex Aldridge, Byron Davies, Margaret Foster, Mick Giannasi, and our former colleague and the former Member for Aberconwy, Gareth Jones. They have worked tirelessly to address the many profound failures that led me to appoint them. I am very grateful for their efforts, as are the people of Anglesey. Those efforts have paid off. The commissioners have secured several major improvements: a sustained improvement in standards of member behaviour, which means that most councillors now engage effectively with the issues that matter to Anglesey; a radical overhaul of the council's arrangements for strategic and business planning, and identifying and managing risks; further improvement in

Ers hynny, penodais bum comisiynydd i redeg y cyngor: Alex Aldridge, Byron Davies, Margaret Foster, Mick Giannasi, a'n cyn gydweithiwr a'r Aelod blaenorol dros Aberconwy, Gareth Jones. Maent wedi gweithio'n ddiflino i fynd i'r afael â'r methiannau dwys niferus a barodd imi eu penodi. Rwyf yn ddiolchgar iawn am eu hymdrechion, fel y mae pobl Ynys Môn. Mae'r ymdrechion hynny wedi talu ar eu canfed. Mae'r comisiynwyr wedi sicrhau nifer o welliannau sylweddol: gwelliant parhaus yn safon ymddygiad yr aelodau, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o gynghorwyr bellach yn ymgysylltu'n effeithiol â'r materion sydd o bwys i Ynys Môn; ailwampio'n sylfaenol drefniadau'r cyngor ar gyfer cynllunio strategol a busnes, a nodi a

scrutiny, which originated under my recovery board and which is increasingly constructive and effective; active and continuous engagement with local people and communities, which has helped restore the council's battered reputation; and a much more strategic approach to economic regeneration, which offers the genuine prospect of bringing long-term prosperity to the island.

This is a major turnaround in less than a year, but the work is nowhere near finished. There are still some big challenges to overcome. First, the process of democratic renewal needs to be completed. The council will not make a sustainable recovery until it has a refreshed membership. That membership must be proportionate to the island's population and must fairly reflect all views following fully contested elections. That requires redrawing the electoral boundaries, which is why I have had to delay the elections for a year. It does not mean the commissioners must remain in their current form until May 2013. However, it means that the recovery will not be completed before then.

Secondly, the council needs to agree a budget and a council tax rate for the forthcoming year. That will mean councillors facing up to some harsh truths. I have been as generous as possible with the funding that we provide to other local authorities, including Anglesey, but significant savings will still have to be made. If councillors confront that challenge and consider their options sensibly and maturely, then we will know things have improved. If they do not or cannot, it will be a major setback.

Finally, the council's corporate and senior management needs radical reform. In the past, we have rightly focused on member issues as the source of Anglesey's problems. However, it has become clear during the past year that the lack of political leadership had wider consequences. It seriously inhibited the capacity of officers to manage the business effectively and to tackle strategic challenges. Again, the recovery will not be complete

rheoli risgiau; gwelliant pellach o ran craffu, a ddaeth yn wreiddiol o dan fy mwrdd adfer ac sydd yn fwyfwy adeiladol ac effeithiol; ymgysylltu gweithgar a pharhaus â phobl leol a chymunedau, sydd wedi helpu i adfer enw da'r cyngor; ac ymdrin ag adfywio economaidd mewn ffordd fwy strategol o lawer, ac yn sgîl hynny mae posibilrwydd gwirioneddol y daw ffyniant hirdymor i'r ynys.

Mae hwn yn drawsnewidiad o bwys mewn llai na blwyddyn, ond nid yw'r gwaith wedi ei orffen o bell ffordd. Mae rhai heriau mawr o hyd i'w goresgyn. Yn gyntaf, mae angen cwblhau'r broses o adnewyddu democrataidd. Ni fydd y cyngor yn gwella'n gynaliadwy nes bydd ganddo aelodaeth newydd. Rhaid i'r aelodaeth fod yn gymesur â phoblogaeth yr ynys ac mae'n rhaid iddi adlewyrchu pob barn yn deg yn dilyn etholiadau a ymleddir yn llawn. Mae hynny'n gofyn am ail-lunio'r ffiniau etholiadol, a dyna pam yr wyf wedi gorfod gohirio'r etholiadau am flwyddyn. Nid yw'n golygu bod rhaid i'r comisiynwyr aros fel ag y maent tan fis Mai 2013. Fodd bynnag, mae'n golygu na fydd yr adferiad yn cael ei gwblhau cyn hynny.

Yn ail, mae angen i'r cyngor gytuno ar gyllideb a chyfradd treth gyngor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Bydd hynny'n golygu bod cynghorwyr weithiau'n gorfod wynebu'r caswir. Rwyf wedi bod mor hael â phosibl â'r arian yr ydym yn ei roi i awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys Ynys Môn, ond bydd angen gwneud arbedion sylweddol, er hynny. Os yw cynghorwyr yn wynebu'r her honno ac yn ystyried eu dewisiadau'n synhwyrol ac yn aeddfed, yna byddwn yn gwybod bod pethau wedi gwella. Os nad ydynt yn gwneud hynny neu os na allant wneud hynny, bydd yn gam mawr yn ôl.

Yn olaf, mae angen diwygio strwythur rheolaeth gorfforaethol ac uwch reolaeth y cyngor yn sylweddol. Yn y gorffennol, rydym wedi canolbwyntio'n briodol ddiagon ar faterion yn ymwneud â'r aelodau fel tarddiad problemau Ynys Môn. Fodd bynnag, daeth yn amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fod y diffyg arweinyddiaeth wleidyddol wedi esgor ar ganlyniadau ehangach. Mae wedi amharu'n ddifrifol ar

until that is properly resolved. My commissioners have drawn up detailed proposals for reforming the senior management structure. I fully support those proposals, and I am pleased that the council's appointments committee has approved them unanimously. That structure now needs to be filled by high-calibre individuals who can complete the good work that the commissioners and the interim chief executive have begun. Senior managers in Anglesey will continue to face serious challenges, but they have the opportunity to be part of the council's radical and positive transformation, and to see that through to a sustainable conclusion.

The commissioners have been absolutely vital to the process so far, but they were never a long-term solution. Appointing commissioners was always a last resort, for the obvious reason that it meant suspending local democratic control. For the same reason, their role is limited to restoring the council to a point where it can manage its own affairs properly. We are not there yet, for the reasons I have outlined. I am certainly not going to walk away only for the council to return to the misbehaviour and incompetence that led us to intervene in the first place. I said last March that the council had betrayed the people of Anglesey. If I ended my intervention too soon, that would be a betrayal too. I am not going to do that.

However, there are some grounds for optimism. If the current rate of progress is maintained, if local democracy is renewed, if councillors accept and confront budget challenges, and if corporate management is reformed, then there will be a case for decreasing and ultimately ending my intervention. My commissioners share that view. They have developed proposals for reducing, and ultimately ending, their involvement. Like me, they recognise that significant challenges remain. However, if those can be overcome, I am happy to support the commissioners' proposals in principle. My initial direction to the council expires in May. The intervention will not end

allu swyddogion i reoli'r busnes yn effeithiol ac i fynd i'r afael â heriau strategol. Unwaith eto, ni fydd yr adferiad yn gyflawn nes bod hynny'n cael ei ddatrys yn briodol. Mae fy nghomisiynwyr wedi llunio cynigion manwl ar gyfer diwygio'r strwythur uwch reolwyr. Rwyf yn cefnogi'r cynigion hynny'n llawn, ac rwyf yn falch bod pwyllgor penodiadau'r cyngor wedi'u cymeradwyo yn unfrydol. Mae angen llenwi'r strwythur hwnnw'n awr ag unigolion o'r radd flaenaf sy'n gallu cwblhau'r gwaith da a ddechreuwyd gan y comisiynwyr a'r prif weithredwr dros dro. Bydd uwch reolwyr Ynys Môn yn parhau i wynebu heriau difrifol, ond mae ganddynt y cyfle i fod yn rhan o drawsnewidiad radical a chadarnhaol y cyngor, a bwrw'r maen hwnnw i'r wal mewn modd cynaliadwy.

Bu'r comisiynwyr yn hollol hanfodol i'r broses hyd yma, ond ni fuont erioed yn ateb hirdymor. Penodi comisiynwyr oedd y dewis olaf bob amser, am y rheswm amlwg ei fod yn golygu atal rheolaeth ddemocrataidd leol dros dro. Am yr un rheswm, mae eu rôl wedi'i chyfyngu i adfer y cyngor i bwynt lle y gall reoli ei faterion ei hun yn iawn. Nid ydym wedi cyrraedd y nod eto, am y rhesymau a amlinellwyd gennyf. Yn sicr nid wyf am droi cefn ac yna canfod bod y cyngor wedi mynd yn ôl i gamymddwyn a gweithredu'n ddi-glem, sef y sefyllfa a barodd inni ymyrryd yn y lle cyntaf. Dywedais fis Mawrth diwethaf fod y cyngor wedi bradychu pobl Ynys Môn. Pe bawn yn dod â fy ymyriad i ben yn rhy fuan, byddai hynny'n frad hefyd. Nid wyf yn mynd i wneud hynny.

Fodd bynnag, mae ambell reswm dros fod yn ffyddiog. Os bydd y cynnydd presennol yn cael ei gynnal, os bydd democratiaeth leol yn cael ei hadnewyddu, os bydd cynghorwyr yn derbyn ac yn wynebu heriau cyllidebol, ac os bydd rheolaeth gorfforaethol yn cael ei diwygio, yna bydd dadl dros leihau fy ymyriad ac yn y pen draw ddod ag ef i ben. Mae fy nghomisiynwyr o'r un farn. Maent wedi datblygu cynigion ar gyfer lleihau eu cysylltiad hwy â'r cyngor, ac, yn y pen draw, dod â hynny i ben. Fel fi, maent yn cydnabod bod heriau sylweddol o hyd. Fodd bynnag, os gellir goresgyn y rhain, rwyf yn fodlon cefnogi cynigion y comisiynwyr mewn egwyddor. Mae fy nghyfarwyddyd

then, but I hope to be able to issue a new direction reducing the level of the commissioners' involvement and control. If that works, we can look forward to ending the intervention and fully restoring local accountability. That is what I and my commissioners want, and I have no doubt it is what councillors want too. Most importantly, it is what the people of Anglesey deserve. If all involved keep that goal in mind, we can and will get there.

The Presiding Officer: I would like to remind Members that statements mean that you have the opportunity to ask questions in scrutinising the Minister, therefore long preambles are not necessary.

2.45 p.m.

Janet Finch-Saunders: This is a very sad day indeed for local government and the democratic process that should be involved in local government. I would agree that the commissioners have carried out extensive and good work there. You say that the councillors and others are happy with progress there, but I can tell you that that is not the case. Several representations have been made to me to express quite a lot of unhappiness at the way in which you have single-handedly withdrawn the right of the electors who are resident in Ynys Môn to go to election on the same day as everybody else in Wales.

We have mentioned the council tax. The commissioners for Isle of Anglesey County Council have publicly stated that they want to see a council tax rise of 5%. In any other local authority in Wales, that decision would be taken by the elected members. That is something else that has been withdrawn from the democratic process of the council. The reason the commissioners are pushing for such a large increase could be as a way of looking at whether they are delivering the savings that they promised as part of their engagement in the process at the beginning. There also is a feeling in Ynys Môn of concern about the proposals for wind turbines. Over 300 people went there last

cychwynnol i'r cyngor yn dod i ben ym mis Mai. Ni fydd yr ymyriad yn dod i ben bryd hynny, ond rwyf yn gobeithio gallu rhoi cyfarwyddyd newydd yn lleihau lefel cyfranogiad a rheolaeth y comisiynwyr. Os bydd hynny'n gweithio, gallwn edrych ymlaen at roi terfyn ar yr ymyriad ac adfer atebolrwydd lleol yn llwyr. Dyna'r hyn yr wyf i a fy nghomisiynwyr ei eisiau, ac nid oes gennyf amheuaeth nad dyna y mae cynghorwyr ei eisiau hefyd. Yn bwysicaf oll, dyna y mae pobl Ynys Môn yn ei haeddu. Os bydd pawb sy'n rhan o'r broses yn cadw hynny mewn cof, byddwn yn cyflawni'r nod.

Y Llywydd: Hoffwn atgoffa'r Aelodau fod datganiadau yn golygu bod gennych gyfle i ofyn cwestiynau i graffu ar y Gweinidog, felly nid oes angen rhagymadroddion hir.

Janet Finch-Saunders: Mae hwn yn ddiwrnod trist iawn i lywodraeth leol a'r broses ddemocrataidd a ddylai fod yn rhan o lywodraeth leol. Byddwn yn cytuno bod y comisiynwyr wedi gwneud gwaith helaeth a da yno. Rydych yn dweud bod y cynghorwyr ac eraill yn fodlon â'r cynnydd yno, ond gallaf ddweud wrthyf nad yw hynny'n wir. Gwnaethpwyd nifer o sylwadau imi yn mynegi cryn dipyn o anhapusrwydd am y ffordd rydych wedi tynnu'n ôl hawl yr etholwyr sy'n byw ar Ynys Môn i fwrw pleidlais mewn etholiad ar yr un diwrnod â phawb arall yng Nghymru.

Rydym wedi sôn am y dreth gyngor. Mae'r comisiynwyr dros Gyngor Sir Ynys Môn wedi datgan yn gyhoeddus eu bod am weld cynnydd o 5% yn y dreth gyngor. Mewn unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru byddai'r penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud gan yr aelodau etholedig. Mae hynny'n rhywbeth arall sydd wedi cael ei dynnu o broses ddemocrataidd y cyngor. Gallai'r comisiynwyr fod yn annog cynnydd mawr o'r fath fel ffordd o ystyried a ydynt yn cyflawni'r arbedion y maent wedi'u haddo fel rhan o'u hymgysylltiad â'r broses ar y dechrau. Ceir hefyd pryderon ar Ynys Môn am y cynigion ar gyfer tyrbinau gwynt. Aeth dros 300 o bobl yno i brotestio'r wythnos

week to protest. Again, that has been taken completely out of the democratic process. As you can imagine, there is—

The Presiding Officer: Order. I do not think that the Minister mentioned wind turbines.

Janet Finch-Saunders: It is all part—

The Presiding Officer: The questions should be on his statement. If you could, please put questions to the Minister and scrutinise him on his statement.

Janet Finch-Saunders: Will the Minister provide a statement on how much it has cost the electors of Ynys Môn to have those commissioners for the last 12 months, and how much does he envisage it will ultimately cost the electors of Ynys Môn?

Minister, would you not say that you have withdrawn the democratic right of every elector in Ynys Môn with regard to election day?

Carl Sargeant: That was a very interesting contribution from the Member. Let me just say that Members have come from various life backgrounds—in terms of your responsibility in council, I am very aware of that in Conwy. There are some decisions that Government has to take in terms of intervention. I am not one to ignore advice from the auditor general, but you may wish to do that in your decisions. I take his advice very seriously. That is why I made the intervention.

On the processes that you alluded to, I do not recognise your point. You mentioned the setting of council tax; the council budget will be a matter for the council, and as I mentioned in my statement, the decision would be a fundamental turning point in demonstrating the responsibility of the council and the councillors in making difficult decisions in the process over the coming weeks.

As for how much it costs, I can give you a broad figure. The cost of the commissioners'

diwethaf. Unwaith eto, mae'r mater hwn wedi'i dynnu'n gyfan gwbl allan o'r broses ddemocrataidd. Fel y gallwch ddychmygu, mae yna—

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf yn meddwl y soniodd y Gweinidog am dyrbinau gwynt.

Janet Finch-Saunders: Mae'r cyfan yn rhan—

hyn y mae'r athrawon da yn ceisio eu harwain i'w wneud; maent yn ceisio ymdopi â pherfformwyr gwael o'u cwmpas ac yn ceisio eu rheoli. Maent yn boddi mewn gwaith papur gan geisio cyflawni eu nodau. Rydym felly wedi cynnig gwelliant 1 gan ein bod am gydnabod, serch yr holl feiriadaeth ar athrawon ar hyn o bryd, fod llawer o athrawon rhagorol, ac mae angen i ni fod yn gefn iddynt. Ydy, mae'r darlun gan Estyn yn frawychus. Rydym yn darllen bod gennym amrywiaeth enfawr mewn safonau addysgu, a'r rhesymau am hynny'n ansicr; rydym yn darllen bod 15% o rieni plant ysgol uwchradd yn mynegi pryderon am ymddygiad disgyblion; ac rydym yn darllen bod lleiafrif sylweddol o ysgolion lle nad yw darllen yn cael ei addysgu'n uniongyrchol. Mae'r rhain i gyd yn straeon gwael. Pan ydym yn darllen mai dim ond wyth hyfforddai a fethodd y cyfnod ymsefydlu i athrawon rhwng 2003 a 2011, rydym yn gwybod nad ydym yn chwynnu na thocio digon nac yn symud pobl ymlaen ac yn rhoi cefnogaeth iddynt i fod yn athrawon o safon fyd-eang.

Rwyf am grwydro am funud a gofyn i'r Gweinidog ble, o ble y mae'r colegau hyfforddi athrawon yn hyn oll? Darllenais gyda diddordeb y datganiad a ryddhawyd gennych y bore yma am safonau addysgu a'ch bod yn bwriadu ei wneud yn ofyniad statudol i bob athro sy'n cymhwyso gael eu hyfforddi mewn llythrennedd a rhifedd. Awgrymaf fod hynny fel anfon milwr i'r fyddin heb ddweud wrtho sut i danio gwn, beth yw pwrpas gwn neu sut i adnabod y gelyn. Mae hyn mor sylfaenol. Os yw ein holl brifysgolion a cholegau o ddifrif calon yn anfon athrawon i'r maes nad ydynt yn deall sut i fod yn rhifog ac yn llythrennog eu hunain a sut i gyflwyno rhifedd a llythrennedd i blant, yna rhag cywilydd y colegau hynny. Weinidog, byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn cael gwybod beth yr ydych yn mynd i'w wneud i amlygu a mynd drwy'r modiwlau y mae'r bobl hyn yn cael eu haddysgu amdanynt.

David Rees: Mae prosesau gwerthuso ar gyfer rhaglenni fel TAR yn gyfrifoldeb i'r prifysgolion, ac maent yn llym iawn, fel y gwn a minnau wedi bod yn rhan o'r gwaith hwnnw. Felly, rydym yn disgwyl i'r safonau gael eu cyflawni, o safbwynt dilyswyr allanol

validators as well as internal validators. Those programmes are usually highly recommended, but I have been on one that pulled one. Do you therefore agree that universities are doing exactly what you are saying, namely looking at and monitoring those programmes to ensure that they are fit for purpose and delivering for these students? In fact, the figure that you mentioned did not include the number of people thrown out at that level.

Angela Burns: I do not disagree with your comments; what we have to do is find out where the break in the system is and fix it.

If I may, Deputy Presiding Officer, I will turn briefly to the Masters programme.

The Deputy Presiding Officer: You have 20 seconds.

Angela Burns: We will not support amendment 5, but not because we think that it is without merit. We support the concept of a Masters programme, but we need to understand what this Minister is going to do with it and where it is going to be. We do not believe that it should happen straight after you have been to university; we think that you should get your education, get into teaching practice, get a couple of years under your belt and then take your Masters to get that absolute level of professionalism we need.

3.45 p.m.

Gwelliant 2 Jocelyn Davies

Rhoi pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn nodi â phryder yr asesiad yn Adroddiad Blynyddol 2010/11 Estyn bod 'gostyngiad sylweddol' yn nifer yr enghreifftiau o ddysgu 'ardderchog' neu 'rhagorol' a ganfuwyd.

Simon Thomas: Cynigiau welliant 2 yn enw Jocelyn Davies.

Fel llefarydd y Ceidwadwyr, rwyf i hefyd eisiau dechrau drwy ddweud fy mod yn credu

yn ogystal â dilyswyr mewnol. Mae'r rhaglenni hynny fel arfer yn fawr eu parch, ond yr wyf wedi bod ar un a dynnodd un yn ôl. A ydych yn cytuno felly fod prifysgolion yn gwneud yn union yr hyn ydych yn ei ddweud, sef monitro'r rhaglenni hynny er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn darparu ar gyfer y myfyrwyr hyn? Mewn gwirionedd, nid yw'r ffigur a grybwyllwyd gennych yn cynnwys nifer y bobl sy'n cael eu taflu allan ar y lefel honno.

Angela Burns: Nid wyf yn anghytuno â'ch sylwadau; yr hyn sydd angen i ni ei wneud yw canfod lle y mae'r diffyg yn y system a'i drwsio.

Os caf, Ddirprwy Lywydd, trof yn fyr at y rhaglen Meistr.

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennych 20 eiliad.

Angela Burns: Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 5, ond nid am ein bod yn credu ei fod yn ddi-werth. Rydym yn cefnogi'r cysyniad o raglen Meistr, ond mae angen inni ddeall yr hyn y mae'r Gweinidog yn mynd i'w wneud ag ef, a lle y mae'n mynd i fod. Nid ydym yn credu y dylai ddigwydd yn syth ar ôl ichi fod yn y brifysgol; rydym yn credu y dylech gael eich addysg, mynd i ddysgu, cael ychydig flynyddoedd o brofiad ac wedyn dilyn rhaglen Meistr i feithrin y math hwnnw o broffesiynoldeb llwyr sydd ei angen arnom.

Amendment 2 Jocelyn Davies

Insert as new point after point 1 and renumber accordingly:

Notes with concern the assessment in Estyn's Annual Report 2010/11 that 'there has been a significant drop in the proportion of "excellent" or "outstanding" teaching being identified.'

Simon Thomas: I move amendment 2 in the name of Jocelyn Davies.

Like the Conservative spokesperson, I want to start by saying that I believe that the

bod safon dysgu yn gyffredinol yn dda, ac mae adroddiadau Estyn yn cefnogi hynny. Mae Plaid Cymru yn dod at y ddadl hon gyda'r nod sylfaenol o sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad at athrawon o'r safon uchaf posibl. I'r graddau mae'r Llywodraeth yn ymdrechu tuag at yr un diben—yr wyf yn credu ei bod—byddwn yn ei chefnogi.

Rydym flwyddyn i mewn i'r Llywodraeth bresennol, ac mae'n flwyddyn ers i'r Gweinidog roi darlith arbennig o bwysig yn narlithfa Reardon Smith dan yr un teitl â'r ddadl ger ein bron heddiw, sef bod dysgu yn gwneud gwahaniaeth. Nid wyf yn gwybod a oedd y ddarlithfa honno'n cael ei defnyddio gan rywun arall heddiw, ond dyma ni yn cael y ddarlith yn y fan hon. O edrych ar beth sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn honno, er gwaetha'r ffaith bod y Gweinidog wedi gosod sawl her i'r proffesiwn a sawl amcan ym maes dysgu, nid ydym wedi gweld cynnydd pendant yn adroddiadau Estyn. Mae hynny'n fater o bryder i ni, a dyma pam ein bod wedi cynnig ein gwelliant 2—i'n hatgoffa bod dirywiad wedi bod yn y dysgu o'r safon uchaf. Mae'r dirywiad hwnnw wedi digwydd mewn blwyddyn yn unig, o un adroddiad Estyn i'r nesaf. Er bod prif arolygydd Estyn yn dweud yn glir yn ei chyflwyniad ei bod yn anodd cymharu o flwyddyn i flwyddyn, oherwydd rhai newidiadau, mae'n dweud yn glir bod cwmp sylweddol, ac ni allwn anwybyddu hynny. Pan fo prif arolygydd Estyn yn dweud bod cwmp sylweddol yng nghanran y dysgu ardderchog neu arbennig o dda, mae'n fater o bryder i ni ym Mhlaid Cymru, a dylai fod yn fater o bryder i'r Llywodraeth hefyd.

Mae rhai pethau wedi gwella. Mae'r cyfnod sylfaen yn sicr wedi dangos bod hynny yn ffordd well o drwytho plant mewn dysgu, a'u harwain tuag at y dysgu mwy ffurfiol, ar lythrennedd a rhifedd yn arbennig. O gymryd un enghraifft o adroddiad Estyn, mae'n dweud yn glir bod y cyfnod sylfaen yn well o safbwynt cyflwyno Cymraeg fel ail iaith. Ond mae'n symud ymlaen i ddweud bod cwmp mewn cyrhaeddiad o ran Cymraeg fel ail iaith ar ôl y cyfnod sylfaen. Enghraifft yw honno, ond os yw hynny'n dechrau mynd yn fwy amlwg mewn pynciau eraill hefyd, byddwn wedi gweld bod y cyfnod sylfaen, i

quality of teaching in general is very good, and the Estyn reports support that. Plaid Cymru approaches this debate with the fundamental aim of ensuring that every child in Wales is given access to teachers of the highest possible quality. To the extent that the Government is endeavouring towards the same end—I believe that it is—we will support it.

We are a year into the current Government, and it is a year since the Minister gave an exceptionally important lecture at the Reardon Smith lecture theatre under the same title as the debate that we have before us today, namely that teaching makes a difference. I do not know if the lecture theatre was unavailable today, but we are being given the lecture here. If we look at what has happened over that year, despite the fact that the Minister set out a number of challenges for the profession and a number of objectives within teaching, we have not seen signs of definite progress in the Estyn reports. That is a cause of concern, and is the reason why we have tabled our amendment 2—to remind us that there has been a decline in the quality of outstanding teaching. That has happened in just a year, from one Estyn report to the next. Although the Estyn chief inspector says in the introduction that it is difficult to make comparisons on a year-by-year basis, because of certain changes, she states clearly that there has been a significant decline, and we cannot ignore that. When the Estyn chief inspector says that there has been a significant drop in the proportion of excellent or outstanding teaching, that is a cause for concern for us in Plaid Cymru, and should be for the Government, too.

There have been improvements. The foundation phase has certainly demonstrated that it is a better way of immersing children in learning, leading them on to more formalised teaching, on literacy and numeracy particularly. Taking one example, the Estyn report states that the foundation phase is better from the point of view of introducing Welsh as a second language. However, it goes on to say that there has been a decline in the achievements in Welsh as a second language after the foundation phase. That is an example, but if it becomes more apparent in other subjects, too, we will have

bob pwrpas, yn llwyddiannus ond bod y cyfnod rhwng wyth a 13 neu 14 oed wedi methu plant eto. Rydym yn ceisio sicrhau nad yw hynny'n digwydd wrth drafod rhai o'r materion hyn heddiw.

Mae rhai enghreifftiau amlwg o ddysgu da, ac mae adroddiadau Estyn ar hyd y blynyddoedd wedi nodi rhai o'r ffactorau perthnasol. Er enghraifft, mae disgwyliadau uchel gan staff yn bwysig—athrawon yn disgwyl i blant wneud yn dda, beth bynnag fo'u cefndir. Mae'n bwysig defnyddio strategaethau gwahanol fesul dosbarth—hynny yw, eich bod yn gwneud mwy na dim ond rhannu taflenni a disgwyl i blant eu llenwi. Mae angen amrywiaeth mewn dulliau dysgu, a dylai athrawon addasu'r cwricwlwm ar gyfer y plant sydd ganddynt. Dylent ddefnyddio dulliau newydd a dyfeisgar i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae gwrs hefyd yn yr adroddiad y dylai dysgu da neu ardderchog gael ei gyflwyno ar draws yr ysgol. Dylai athrawon da iawn gael eu defnyddio i drwytho athrawon sydd, efallai, yn cael pethau'n anodd, i sicrhau eu bod yn gwella. Yn hynny o beth, rydym yn cefnogi'r hyn sydd gan y Llywodraeth i'w ddweud ynglŷn â datblygiad proffesiynol parhaus a chyflwyno'r radd Meistr. Dyna pam nad ydym yn cefnogi'r gwelliannau sy'n ymwneud â hynny. Ond—ac mae hwn yn 'ond' eithaf sylweddol—mae dirywiad wedi bod yn y lefelau dysgu gorau, ac yr ydym yn gresynu at hynny. Gobeithiaf y bydd modd i'r Cynulliad gefnogi'r gwelliant, er mwyn inni anfon y neges honno i'r proffesiwn ac i holl athrawon da Cymru.

Gwelliant 5 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod natur ddewisol y cymhwyster gradd Meistr yn golygu efallai na fydd anghenion hyfforddi'r holl athrawon newydd gymhwyso yn cael sylw llawn.

Gwelliant 6 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

seen that the foundation phase is, to all intents and purposes, successful, but that the period from the age of eight to 13 or 14 has failed children once again. We are trying to ensure that that does not happen as we discuss some of these issues today.

There are some obvious examples of excellent teaching, and Estyn reports over the years have noted some of the factors that are relevant. For example, high expectation among staff is important—teachers expecting children to do well whatever their backgrounds. It is important to use different strategies in different classes—that is, doing more than just giving out sheets and expecting children to fill them in. Teaching methods should be varied, and teachers should adapt the curriculum for the children that they have. They should use new and innovative ways of introducing the curriculum. There is also a lesson in the report that good or excellent teaching should be used throughout the school. Outstanding teachers should be used to assist those teachers who may be struggling, to ensure that they improve. In that regard, we support what the Government has to say on continuing professional development and the introduction of the Master's degree. That is why we do not support the amendments that relate to those issues. But—and this is quite a significant 'but'—there has been a decline in the best levels of teaching, and we regret that. I hope that the Assembly will be able to support the amendment, so that that message is sent out clearly to the profession and to all good teachers in Wales.

Amendment 5 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Believes that the optional nature of the Master's qualification means that the training needs of all newly qualified teachers may not be completely addressed.

Amendment 6 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dilysu a monitro'r cymhwyster gradd Meistr yn cael ei wneud yn unol â'r safonau rhyngwladol uchaf.

Calls on the Welsh Government to ensure that the validation and monitoring of the Master's qualification is conducted according to the highest international standards.

Gwelliant 7 Peter Black

Amendment 7 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth.

Calls on the Welsh Government to review the National Professional Qualification for Headship.

Aled Roberts: Cynigiau welliannau 5, 6 a 7 yn enw Peter Black.

Aled Roberts: I move amendments 5, 6 and 7 in the name of Peter Black.

Rhaid dweud o'r cychwyn ein bod yn croesawu cynnig y Llywodraeth ond bod angen esboniad ar nifer o faterion; dyna pam rydym yn cynnig y gwelliannau hyn. Ein bwriad yw bod yn bositif wrth ymateb, er mwyn creu cyfleoedd gwell ar gyfer ein hathrawon a'n plant, tra'n codi safonau addysgol yng Nghymru. Rwy'n siŵr mai dyna yw bwriad pob un sy'n eistedd yma heddiw. Byddwn, felly, yn cefnogi gwelliannau'r Toriaid a Phlaid Cymru, am eu bod yn adeiladol, tra'n gofyn am fwy o graffu ac asesu ar y mesurau sydd gerbron gan y Gweinidog.

I must say from the outset that we welcome the Government's motion but there are a number of issues on which we need clarification; that is why we have moved these amendments. Our intention is to be positive in responding, in order to create better opportunities for our teachers and children while raising educational standards in Wales. I am sure that that is the aim of every one of us here this afternoon. We will, therefore, support the Tory and Plaid Cymru amendments, while asking for greater scrutiny and assessment of the measures put forward by the Minister.

Mae'n glir erbyn hyn, mewn nifer o feysydd, nad yw cytuno ar strategaeth, cynllun neu restr o ganllawiau yn ei hun yn gwarantu llwyddiant. Fel y dywedodd Angela Burns a Simon Thomas, mae pawb yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'n hathrawon yn dysgu'n dda, ac rwy'n siŵr bod nifer ohonom yn diolch iddynt am eu gwaith dros ein plant dros y blynyddoedd. Mae nifer ohonom yn cofio'r gwaith a wnaeth athro neu athrawes ysbrydoledig, ond, yn anffodus, mae rhai ohonom hefyd yn cofio athrawon y byddai wedi bod yn well iddynt fod mewn swydd arall—mae hynny'n wir ym mhob maes, wrth gwrs.

It is now clear, in a number of areas, that agreement on strategies, schemes or lists of guidelines is not enough, in itself, to guarantee success. As has been said by Angela Burns and Simon Thomas, everyone recognises that most of our teachers teach well, and I am sure that many of us would want to thank them for their work for our own children over the years. Many of us recall the work done by an inspiring teacher, but unfortunately, some of us will have memories of teachers—as is the case in every field, of course—who would have been better in another profession.

Mae adroddiadau diweddar Estyn, canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr ac ymateb Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yr wythnos diwethaf wedi tanlinellu'r dasg sydd o'n blaenau ni ac, yn benodol, sydd o flaen y Gweinidog, i godi

Recent Estyn reports, the Programme for International Student Assessment results and last week's response from the Confederation of British Industry have underlined the task facing us, particularly the Minister, in raising educational standards in Wales.

safonau addysg yng Nghymru.

Our amendments this afternoon perhaps deal with some of the detail of what the Minister proposes, rather than question in any way the task that he is undertaking. I can tell Angela Burns that we do support the introduction of a Master's qualification, but the Minister's announcement in November introduced an optional scheme, so our query is what happens to those newly qualified teachers who decide, for some reason or other, not to undertake the Master's qualification. Will that create a disparity within the system? We believe that the Minister needs to outline how those newly qualified teachers who, in the first two years of professional life, are the ones most likely, according to statistics, to drop out, are going to cope with the additional work of a Master's qualification.

Angela Burns: I just want to assure the Liberal Democrat spokesperson that our intention is also to understand that, because there are key areas there. It is about understanding where Masters sits in the whole structure of continuing professional development for teachers, so that we can raise the level of the whole profession and get people to aspire to want to be teachers, and not just to do it because they cannot think of anything else that they could do.

Aled Roberts: You are quite right. In 2008, the then Labour UK Government announced a Master's qualification, and I am quite pleased that the current Minister has dealt with some of the concerns expressed by the experts who have been advising him with regard to that qualification being overly academic. I welcome that there will be reliance in this qualification on classroom teaching and practical skills, rather than academic attainment.

We welcome the approach, but there are caveats. Following the Minister's statement this morning, we believe that there is detail that is still missing. I welcome the reference to modules for Masters being developed, but the task and finish group that was to be established to deal with the detail of the Master's programme has not yet been announced—or I am not aware of meetings

Mae ein gwelliannau y prynhawn yma o bosibl yn ymdrin â rhai o fanylion yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei gynnig, yn hytrach na chwestiynu'r gwaith y mae'n ei wneud. Gallaf ddweud wrth Angela Burns ein bod yn cefnogi cyflwyno cymhwyster Meistr, ond cyflwynodd y Gweinidog gynllun dewisol yn ei gyhoeddiad fis Tachwedd, felly ein cwestiwn yw beth sy'n digwydd i'r athrawon newydd gymhwyso ac sy'n penderfynu, am ryw reswm neu'i gilydd, beidio â cheisio cael cymhwyster Meistr. A fydd hynny'n creu gwahaniaeth yn y system? Credwn fod angen i'r Gweinidog amlinellu sut y mae'r athrawon newydd gymhwyso sydd, yn ystod dwy flynedd gyntaf eu bywydau proffesiynol, fwyaf tebygol, yn ôl yr ystadegau, roi'r gorau i'r cwrs, yn mynd i ymdopi â'r gwaith ychwanegol ar gyfer cymhwyster Meistr.

Angela Burns: Rwyf am roi sicrwydd i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol mai ein bwriad ninnau hefyd yw deall hynny, oherwydd y mae meysydd allweddol i'w hystyried yma. Mae'n ymwneud â deall lle gradd Meistr yn y strwythur datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon, fel y gallwn godi lefel y proffesiwn cyfan a chael pobl i ddyheu i fod yn athrawon, ac nid i wneud hynny oherwydd na allant feddwl am unrhyw beth arall i'w wneud.

Aled Roberts: Rydych yn llygad eich lle. Yn 2008, cyhoeddoedd Llywodraeth Llafur y DU ar y pryd gymhwyster Meistr, ac rwy'n falch iawn bod y Gweinidog presennol wedi ymdrin â rhai o'r pryderon a fynegwyd gan yr arbenigwyr sydd wedi bod yn rhoi cyngor iddo bod y cymhwyster hwnnw'n rhy academiaidd. Rwy'n croesawu'r ffaith y bydd y cymhwyster hwn yn dibynnu ar addysgu yn y dosbarth a sgiliau ymarferol, yn hytrach na chyrraeth academaidd.

Rydym yn croesawu mabwysiadu'r dull hwnnw, ond mae cafeatau. Yn dilyn datganiad y Gweinidog y bore yma, credwn fod manylion yn parhau i fod ar goll. Croesawaf y cyfeiriad at ddatblygu modiwlau'r radd Meistr, ond nid yw'r grŵp gorchwyl a gorffen a oedd yn mynd i gael ei sefydlu i ymdrin â manylion rhaglen y Meistr eto wedi'i gyhoeddi—neu nid wyf yn

being held to undertake that work.

ymwybodol o gyfarfodydd yn cael eu cynnal i wneud y gwaith hwnnw.

Amendment 6 deals with concerns that we have regarding validation and monitoring. We are all aware of the concerns expressed with regard to the patchy arrangements that are currently in place for newly qualified teachers. It would appear, from statements that I have seen, that the same regional groups are involved in the mentoring and training processes. The Minister needs to determine how those regional groups that are perhaps not well respected will deal with this Master's qualification.

Mae gwelliant 6 yn ymdrin â'n pryderon ynghylch dilysu a monitro. Rydym oll yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd o ran y trefniadau anghyson sydd ar hyn o bryd ar waith ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. Mae'n ymddangos, o ddatganiadau rwyf wedi'u gweld, bod yr un grwpiau rhanbarthol yn rhan o'r prosesau mentora a hyfforddi. Mae angen i'r Gweinidog benderfynu sut y bydd y grwpiau rhanbarthol nad ydynt o bosibl yn uchel eu parch yn gallu ymdrin â'r cymhwyster Meistr hwn.

I am running out of time, so I will turn to the headship qualification. I understand that the Minister has undertaken the review on this, but we call for the issue to be kept under review because we are not clear on the lessons that have been learned from the pilot project and, more importantly, the fact that, on nearly all of the professional websites at the moment, the roll-out of the new programme has not gone well.

Mae amser yn brin, felly byddaf yn troi at y cymhwyster prifathrawiaeth. Deallaf fod y Gweinidog wedi cynnal yr adolygiad ar y mater hwn, ond rydym yn galw i'r mater gael ei adolygu'n barhaus oherwydd nid ydym yn glir ar y gwersi a ddysgwyd o'r prosiect peilot ac, yn bwysicach oll, y ffaith nad yw'r broses o gyflwyno'r rhaglen newydd wedi mynd yn dda, yn ôl bron pob un o'r gwefannau proffesiynol ar hyn o bryd.

I will conclude by saying that I also think that we need to deal with some of the issues regarding continuing professional development and whether some of the training undertaken is encouraging the sharing of best practice.

Rwyf am gloi trwy ddweud fy mod hefyd yn meddwl bod angen inni ymdrin â rhai o'r materion yn ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus ac a yw rhywfaint o'r hyfforddiant a wnaed yn annog rhannu arfer gorau.

David Rees: I am delighted to be able to take part in this debate, particularly as we are discussing the idea that teaching makes a difference. To many, this will be a reminder of the advertisements encouraging people to take up the profession; Simon Thomas was reminded of a speech made by the Minister. However, for those of us who have been in the classroom as a teacher, it explains why we go home with a sense of satisfaction regarding what we have achieved—whether at the end of the day or the end of the year, when pupils move on or move up the school.

David Rees: Rwy'n falch iawn o gael cymryd rhan yn y ddadl hon, yn enwedig oherwydd ein bod yn trafod y syniad bod addysgu yn gwneud gwahaniaeth. I lawer ohonom, bydd hyn yn ein hatgoffa o'r hysbysebion sy'n annog pobl i weithio yn y proffesiwn; cafodd Simon Thomas ei atgoffa o araith gan y Gweinidog. Fodd bynnag, i'r rhai ohonom sydd wedi bod yn yr ystafell ddosbarth fel athro, mae'n esbonio pam rydym yn mynd adref gydag ymdeimlad o foddhad o ran yr hyn a gyflawnwyd gennym—boed ar ddiwedd y dydd neu ar ddiwedd y flwyddyn, pan fydd disgyblion yn symud ymlaen neu'n symud i fyny yn yr ysgol.

Over recent years, we have seen a consistent number of students wishing to enter the profession, with an ambition of being one of those people who make a difference. Figures

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld nifer cyson o fyfyrwyr sydd am ymuno â'r proffesiwn, gydag uchelgais o fod yn un o'r bobl hynny sy'n gwneud

from StatsWales show that, until 2009-10, an average of 1,500 people entered postgraduate qualification programmes, which are necessary to develop teaching skills. I would like to take this opportunity to point out that, although incentives are being put forward and while we need to encourage our best graduates to go into teaching, first-class honours graduates do not always make the best teachers. It is passion that it is important. It is about knowing the style of teaching that helps children and what works. It is about helping children to enjoy learning—passing on knowledge and skills, empowering young people and nurturing enthusiasm for learning.

Those students studying for their postgraduate certificate in education who are following professionally validated programmes—and I stress the point that it is about professionally validated programmes—reflect the needs of the profession. I question the inclusion of amendment 6 from the Liberal Democrats, as it shows their lack of understanding of professionally validated programmes, because that is not what the spokesperson for the Liberal Democrats, Aled Roberts, mentioned when he outlined the purpose of amendment 6. However, upon the completion of their studies, these students take what they have learned into the classroom and into the schools and they strive to attain the high standards that we expect of newly qualified teachers. At the same time, they are working to achieve that NQT status. That is the important aspect. That is what we expect from them in their first year. We expect them to teach as NQTs. We do not think of some of the other issues that they also have to deal with. They also have to manage a heavy workload. If you have been a teacher, you know that the first few years are some of the most difficult, because you have to do all of the preparatory work. It is not an easy process.

This moves me on to the introduction of the Master's in education practice. I agree with Aled Roberts that it is important that we look at the practice aspects of teaching and not simply the academic aspects of how we

gwahaniaeth. Dengys ffigurau StatsCymru fod 1,500 o bobl ar gyfartaledd wedi cofrestru ar gyfer rhaglenni cymhwyster ôl-radd hyd nes 2009-10, a hynny'n rhaglenni sy'n angenrheidiol i ddatblygu sgiliau addysgu. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i nodi er bod cymhellion yn cael eu cyflwyno, ac er bod angen inni annog ein graddedigion gorau i fod yn athrawon, nid graddedigion dosbarth cyntaf yw'r athrawon gorau bob amser. Angerdd sy'n bwysig. Mae'n ymwneud â gwybod y ffordd o addysgu sy'n helpu plant a beth sy'n gweithio. Mae'n ymwneud â helpu plant i fwynhau dysgu—trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau, gan rymuso pobl ifanc a meithrin brwdfrydedd am ddysgu.

Mae'r myfyrwyr hynny sy'n astudio ar gyfer eu tystysgrif addysg i raddedigion sy'n dilyn rhaglenni a ddilysir yn broffesiynol—a phwysleisiaf y pwynt mai rhaglenni a ddilysir yn broffesiynol sy'n bwysig—yn adlewyrchu anghenion y proffesiwn. Rwy'n amau pam cafodd gwelliant 6 gan y Democratiaid Rhyddfrydol ei gyflwyno, am ei fod yn dangos diffyg dealltwriaeth o raglenni a ddilysir yn broffesiynol, oherwydd nid dyna'r hyn a grybwyllodd Aled Roberts, llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, pan amlinellodd amcan gwelliant 6. Fodd bynnag, ar ôl cwblhau eu hastudiaethau, mae'r myfyrwyr yn mynd â'r hyn y maent wedi ei ddysgu i'r ystafell ddosbarth ac i'r ysgolion ac yn ymdrechu i gyrraedd y safonau uchel rydym yn eu disgwyl i athrawon newydd gymhwyso eu cyrraedd. Ar yr un pryd, maent yn gweithio i gyrraedd statws ANG. Dyna'r agwedd bwysig. Dyna beth rydym yn ei ddisgwyl ganddynt yn eu blwyddyn gyntaf. Rydym yn disgwyl iddynt addysgu fel ANG. Nid ydym yn meddwl am rai o'r materion eraill y maent hefyd yn gorfod ymdopi â hwy. Mae'n rhaid iddynt reoli baich gwaith trwm hefyd. Os ydych wedi bod yn athro, byddwch yn gwybod bod y blynyddoedd cyntaf ymhlith y rhai mwyaf anodd, oherwydd bod yn rhaid i chi wneud yr holl waith paratoi. Nid yw'n broses hawdd.

Mae hyn yn fy arwain at gyflwyno'r radd Meistr ar arferion dysgu. Rwy'n cytuno ag Aled Roberts ei bod yn bwysig ein bod yn edrych ar yr agweddau ymarferol ar addysgu ac nid ar yr agweddau academiaidd yn unig.

deliver teaching. Putting it into practice is important. I welcome this proposal, but we must provide the support that NQTs need to flourish in their new roles. To this end, I ask the Minister for an assurance that newly qualified teachers will not be overburdened and that schools will not be disadvantaged as a result of allowing staff to pursue this qualification.

In relation to the award, I agree that the six key elements of this Master's programme will help our schools to improve their performance. However, I encourage the Minister to look at leadership within these roles. It is not one of the six key elements, but it is important that all new teachers understand the role of leadership and how it improves schools' performance. It is also important that they know how they can aspire to the leadership aspects. Therefore, Minister, how do we consider retaining these teachers in Wales once they have their qualification and after we have invested in their teaching?

The Minister also pointed out that one part of the 20-point plan—I thank you for your statement this morning, which refreshed our knowledge of that plan—that was announced last Tuesday was to undertake a review of teacher induction. I hope that that review will be extended beyond induction to the early years of a newly recruited teacher so that we can see how they are progressing and what support they require in those early years of teaching. Angela Burns has already mentioned the fact that that is a crucial year in the development of any teacher.

4.00 p.m.

One of the key drivers in informing the new standards has been to ensure that practitioners identify performance management objectives and that they choose the most appropriate professional development activities. I prefer to call 'staff appraisal' 'professional development reviews', but my institution used 'staff appraisal'. It is important that we encourage teachers to look at their abilities, but we also need to ensure that sufficient resources are available to allow those schools

Mae rhoi'r agweddau hyn ar waith yn bwysig. Croesawaf y cynnig hwn, ond mae'n rhaid inni ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar ANG i ffynnu yn eu rolau newydd. I'r perwyl hwn, gofynnaf i'r Gweinidog am sicrwydd na fydd athrawon newydd gymhwyso yn cael eu gorlwytho ac na fydd ysgolion o dan anfantais o ganlyniad i ganiatáu i staff geisio am y cymhwyster hwn.

O ran y radd, rwy'n cytuno y bydd y chwe elfen allweddol o'r rhaglen Meistr yn cynorthwyo ein hysgolion i wella eu perfformiad. Fodd bynnag, rwy'n annog y Gweinidog i edrych ar arweinyddiaeth o fewn y rolau hyn. Nid yw'n un o'r chwe elfen allweddol, ond mae'n bwysig fod pob athro newydd gymhwyso yn deall rôl arweinyddiaeth a sut mae'n gwella perfformiad ysgolion. Mae hefyd yn bwysig eu bod yn gwybod sut y gallant anelu at fod yn arweinyddion. Felly, Weindog, sut ydym yn ystyried cadw'r athrawon hyn yng Nghymru ar ôl iddynt gael eu cymwysterau ac ar ôl inni fuddsoddi yn eu haddysg?

Hefyd, nododd y Gweinidog mai un rhan o'r cynllun 20-pwynt—diolchaf i chi am eich datganiad y bore yma, a adnewyddodd ein dealltwriaeth o'r cynllun hwnnw—a gyhoeddwyd ddydd Mawrth diwethaf oedd cynnal adolygiad o'r broses gynefino ar gyfer athrawon. Gobeithio y bydd yr adolygiad yn cael ei ymestyn y tu hwnt i'r broses gynefino i gynnwys blynyddoedd cynnar athrawon sydd newydd eu recriwtio fel y gallwn weld eu cynnydd a pha gymorth sydd ei angen arnynt yn y blynyddoedd cyntaf o addysgu. Mae Angela Burns yn barod wedi sôn am y ffaith fod honno'n flwyddyn dyngedfennol yn natblygiad unrhyw athro.

Un o'r ffactorau allweddol o ran hysbysu'r safonau newydd fu sicrhau bod ymarferwyr yn nodi amcanion rheoli perfformiad a'u bod yn dewis y gweithgareddau datblygiad proffesiynol mwyaf priodol. Mae'n well gen i alw 'gwerthusiad staff' yn 'adolygiadau datblygiad proffesiynol', ond defnyddiodd fy sefydliad 'gwerthuso staff'. Mae'n bwysig ein bod yn annog athrawon i edrych ar eu galluedd, ond rydym hefyd angen sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i alluogi'r

to implement these effectively and to ensure that headteachers do not face additional bureaucracy. Every teacher must be allowed to develop their teaching and leadership skills. Will the Minister ask his officials, therefore, to look at the opportunities to help to expand continuing professional development, while not increasing the workload of our teaching professionals?

It can never be denied, as the 2007 McKinsey report states, that the quality of the education that our children receive is heavily dependent upon the quality of the teacher delivering the lessons and the quality of the leadership shown. The Welsh Government must be congratulated on the emphasis placed on leadership and its role as the driver for improving school performance. I need only to reflect on secondary schools and primary schools in my area to show how standards are being driven up.

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude now, please.

David Rees: I have one final point. Finally, let us not omit the fantastic effort local education authorities contribute to this improvement in performance. Neath Port Talbot—

The Deputy Presiding Officer: Order. Your time is up, sorry.

Suzy Davies: Once again, to demonstrate its importance, we are debating education, revisiting failure in parts of the Welsh system and hoping that the latest plans for improvement will do the job. It has been impossible to take part in recent exchanges without the PISA results getting star billing or mentioning Estyn's dismay at variable standards, slipping A-level results, WJEC indiscretions or talented children's needs not being met, perhaps. There have been so many responses to the challenge: banding, the foundation phase, 14-19 learning pathways, science, technology, engineering and mathematics teaching, statutory Welsh-language plans. Therefore, it is as well that we cut to the chase today and discuss the two factors without which any of the Minister's valuable ambitions will inevitably falter: the

ysgolion hynny i weithredu'r rhain yn effeithiol ac i sicrhau nad yw penaethiaid yn wynebu biwrocratiaeth ychwanegol. Rhaid caniatáu i bob athro ddatblygu medrau addysgu ac arweinyddiaeth. A wnaiff y Gweinidog ofyn i'w swyddogion, felly, edrych ar gyfleoedd i helpu ehangu datblygiad proffesiynol parhaus, tra'n sicrhau nad yw hynny'n cynyddu llwyth gwaith ein hathrawon proffesiynol?

Ni ellir byth wadu, fel y dywedodd adroddiad McKinsey yn 2007, bod ansawdd yr addysg mae ein plant yn ei derbyn yn ddibynnol iawn ar ansawdd yr athro sy'n rhoi'r gwersi ac ansawdd yr arweinyddiaeth a ddangosir. Rhaid llongyfarch Llywodraeth Cymru ar y pwyslais a roddodd ar arweinyddiaeth a'i rôl yn arwain y broses o wella perfformiad ysgolion. Nid oes ond angen i mi edrych ar ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd yn fy ardal i weld sut y mae safonau yn cael eu codi.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dewch i ben yn awr, os gwelwch yn dda.

David Rees: Mae gennyf un pwynt olaf. Ni ddylem anghofio am yr ymdrech ragorol mae awdurdodau addysg lleol yn gyfrannu at y gwelliant hwn mewn perfformiad. Mae Castell Nedd Port Talbot—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae eich amser ar ben, mae'n ddrwg gennyf.

Suzy Davies: Unwaith eto, i ddangos ei bwysigrwydd, rydym yn trafod addysg, yn ailedrych ar fethiant yn rhannau o system Cymru ac yn gobeithio y bydd y cynlluniau diweddaraf i wella yn cyflawni'r dasg. Bu'n amhosibl cymryd rhan mewn dadleuon diweddar heb i ganlyniadau PISA gael y prif sylw neu sôn am siom Estyn ynglŷn ag amrywiaeth mewn safonau, canlyniadau Safon A yn llithro, annoethineb CBAC neu anghenion plant dawnus ddim yn cael eu bodloni, efallai. Bu cymaint o ymatebion i'r her: bandio, y cyfnod sylfaen, llwybrau dysgu 14-19, addysgu gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg, cynlluniau cyfrwng Cymraeg statudol. Felly, llawn cystal ein bod yn mynd i wraidd y mater heddiw a thrafod y ddau ffactor y bydd unrhyw un o uchelgeisiau gwerthfawr y Gweinidog yn

quality of teaching and the quality of leadership in our schools and colleges.

The Minister's keynote speech last February was candid in stating that changes were needed in the training for teachers and leaders. It has been useful to receive an update today, Minister. The fact that you needed to give a commitment in that speech only a year ago to ensuring that all teachers have appropriate literacy and numeracy skills should horrify us all, not just Angela Burns, as it implies that some of our children will have been entrusted to the educational care of teaching staff who are not appropriately literate and numerate. The Minister has talked a lot of great expectations, but is it any wonder, in the year that celebrates the bicentenary of the birth of Charles Dickens, that his most recent biographer described his work as too hard for today's secondary schoolchildren. If ever the content and ambition of teacher training needed examining, it is now. Therefore, it is with great enthusiasm that I welcome the news of more in-classroom training, for example, and this debate in general. I look forward to being reassured that the changes in the revised professional standards guidance and the school teacher appraisal regulations raise the bar.

On the appraisal regulations, schools are already awash with policies. I would have liked to have seen the regulations give more advice to governors as to how they are to judge standards in their performance management of teachers, rather than looking at the minute details of the procedure of appraisal cycles. As a Welsh Conservative I believe in greater autonomy for schools, but I am not sure that the mere duty to provide a school performance management policy, the drafting of which can be delegated to the headteacher, offers any guarantee of consistency or any new protection against a rogue headteacher. I hope that the revised performance management guidance due this spring will address that concern.

Before we start to consider appraising standards we need to start raising standards.

methu hebddynt: ansawdd yr addysgu ac ansawdd yr arweinyddiaeth yn ein hysgolion a'n colegau.

Roedd prif araith y Gweinidog fis Chwefror diwethaf yn nodi heb flewyn ar dafod bod angen newidiadau yn yr hyfforddiant i athrawon ac arweinwyr. Bu'n ddefnyddiol derbyn y wybodaeth ddiweddaraf heddiw, Weinidog. Dylai'r ffaith y bu angen i chi roi ymrwymiad yn yr araith honno flwyddyn yn ôl yn unig i sicrhau bod gan bob athro sgiliau llythrennedd a rhifedd priodol roi arswyd i bob un ohonom, nid dim ond i Angela Burns, gan ei fod yn awgrymu y bydd rhai o'n plant wedi eu hymddiried i ofal addysgol staff addysgu nad oes ganddynt y sgiliau llythrennedd a rhifedd priodol. Mae'r Gweinidog wedi siarad llawer am ddisgwyliadau uchel, ond nid oes ryfedd, yn y flwyddyn sy'n dathlu dau canmlwyddiant geni Charles Dickens, fod ei gofiannydd diweddaraf wedi dweud fod ei waith yn rhy anodd i blant ysgol uwchradd heddiw. Os bu adeg erioed i archwilio cynnwys ac uchelgais hyfforddiant i athrawon, nawr yw hynny. Felly, croesawaf y newyddion am fwy o hyfforddiant yn y dosbarth, er enghraifft, a'r ddadl hon yn gyffredinol, gyda brwdfrydedd mawr. Rwy'n edrych ymlaen at gael sicrwydd y bydd y newidiadau yn y canllawiau safonau proffesiynol diwygiedig a'r rheoliadau gwerthuso athrawon yn codi'r safon.

O ran y rheoliadau gwerthuso, mae ysgolion eisoes yn fôr o bolisiau. Byddwn wedi hoffi gweld y rheoliadau yn rhoi mwy o gyngor i lywodraethwyr ar sut y dylent farnu safonau yn y ffordd y maent yn rheoli perfformiad athrawon, yn hytrach nag edrych ar fanion y drefn cylchoedd gwerthuso. Fel Ceidwadwr Cymreig rwyf yn credu mewn rhoi mwy o annibyniaeth i ysgolion, ond nid wyf yn siŵr fod gosod dyletswydd yn unig i ddarparu polisi rheoli perfformiad yr ysgol, y gellir dirprwyo ei ddrafftio i'r pennaeth, yn cynnig unrhyw sicrwydd y bydd cysondeb nag unrhyw ddiogelwch newydd yn erbyn pennaeth gwael. Rwyf yn gobeithio y bydd y canllawiau diwygiedig ar reoli perfformiad a ddisgwyllir y gwanwyn hwn yn mynd i'r afael â'r pryder hwnnw.

Cyn i ni ddechrau ystyried gwerthuso safonau mae angen inni ddechrau codi safonau, mae

We need to achieve international standards. I see that the Minister will be integrating the PISA assessment system into the assessment for 15-year-olds. I hope that he can confirm that the revised professional standards guidance was prepared with reference to the practice of countries whose PISA results were better than ours, including developed countries where the spend per head was lower than in Wales.

The premise of the debate today acknowledges that leadership and teaching are key to raising standards. As Angela said, the purpose of the Welsh Conservatives' amendment 1 was simply to put on record that there are already paragons of teaching and leadership in schools who have shown that they should be at the vanguard of designing as well as delivering improvements. We are not all convinced that artificial consortia and banding is the best way to let them do that.

For me, there is one very attractive option, which I do not think we can afford to ignore, and that is the system of national support schools that is being rolled out in England at the moment. This is where outstanding headteachers and principals, along with their staff, use their skills and experience to directly support other schools that are in challenging circumstances. Outstanding headteachers and principals can apply to become national leaders of education. The idea of excellent schools becoming teaching schools, based on the model of teaching hospitals, is also being mooted. Whether or not you warm to these specific ideas, what they do is send the essential message that progress in education is being driven by the best practitioners rather than by politicians, and that is not the message that teachers in Wales are hearing at the moment. It is a crucial message if we are trying to attract the best graduates, professional leaders and communicators from outside the teaching world. These are people with a multitude of experiences that need to be brought into the classroom, not left outside the school gates. They are not going to come if they believe that the plaque on the door of the most influential office in the system reads 'Minister' rather than 'headteacher'.

angen i ni gyflawni safonau rhyngwladol. Rwy'n gweld y bydd y Gweinidog yn integreiddio system asesu PISA yn yr asesiad ar gyfer plant 15 oed. Rwyf yn gobeithio y gall gadarnhau bod y canllawiau safonau proffesiynol diwygiedig wedi'u paratoi gan gyfeirio at arfer gwledydd oedd â chanlyniadau PISA gwell na'n rhai ni, gan gynnwys gwledydd datblygedig lle mae'r gwariant y pen yn is nag yw yng Nghymru.

Mae cynsail dadl heddiw yn cydnabod bod arweinyddiaeth ac addysgu yn allweddol i godi safonau. Fel y dywedodd Angela, pwrpas gwelliant 1 y Ceidwadwyr Cymreig oedd cofnodi'n syml bod enghreifftiau rhagorol eisoes o addysgu ac arweinyddiaeth mewn ysgolion sydd wedi dangos y dylent fod ar flaen y gad o ran cynllunio yn ogystal â chyflawni gwelliannau. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi o bell ffordd mai consortia artiffisial a bandio yw'r ffordd orau o adael iddynt wneud hynny.

I mi, mae un opsiwn deniadol iawn, na chredaf y gallwn fforddio ei anwybyddu, sef y system o ysgolion cymorth cenedlaethol sy'n cael ei gyflwyno yn Lloegr ar hyn o bryd. Dyma lle mae penaethiaid a phrifathrawon rhagorol, ynghyd â'u staff, yn defnyddio eu sgiliau a'u profiad i gefnogi ysgolion eraill sydd mewn amgylchiadau heriol yn uniongyrchol. Gall penaethiaid a phrifathrawon rhagorol wneud cais i ddod yn arweinwyr addysg cenedlaethol. Mae'r syniad o ysgolion ardderchog yn dod yn ysgolion addysgu, sy'n seiliedig ar y model ysbytai addysgu, hefyd wedi cael ei awgrymu. Pa un a ydych yn cynhesu at y syniadau penodol hyn ai peidio, maent yn anfon y neges hanfodol bod cynnydd mewn addysg yn cael ei yrru gan yr ymarferwyr gorau yn hytrach na gwleidyddion, ac nid dyna'r neges mae athrawon yng Nghymru yn ei glywed ar hyn o bryd. Mae'n neges hanfodol os ydym yn ceisio denu'r graddedigion gorau ac arweinwyr a chyfathrebwyr proffesiynol o'r tu allan i'r byd addysgu. Mae'r rhain yn bobl sydd â phrofiad helaeth y mae angen ei gyflwyno i'r ystafell ddosbarth, ac nid ei adael y tu allan i giatau'r ysgol. Ni fyddant yn dod os ydynt o'r farn fod y plac ar ddrws y swyddfa fwyaf dylanwadol yn y system yn darllen 'Gweinidog' yn hytrach na 'pennaeth'.

Finally, a few weeks ago, I mentioned that the fact that the foundation phase training is not offered outside Wales effectively limits the pool of potential primary school teachers here, as does the fact that teaching is centralised in particular locations in Wales. Therefore, I was initially pleased to hear that the Minister is considering tendering the Master's qualification to universities outside Wales. However, I am not entirely sure following his statement today whether that is still the case. Although there are inevitably questions with regard to Welsh-language provision with that approach, will he confirm whether he is now looking at the foundation phase in the same way?

Keith Davies: Rwyf hefyd yn falch o'r cyfle i gyfrannu at y ddadl heddiw, gan fy mod yn cytuno'n gryf gyda'r Gweinidog bod athrawon yn gwneud gwahaniaeth. Rydym yn lwcus iawn i fyw mewn gwlad lle mae addysg yn orfodol ac yn agored i bawb. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, mae addysg yn sylfaenol i adeiladu cymdeithas gynhwysol a theg. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd sawl cam i wthio arian i'r rheng flaen eisoes, sef 1% yn fwy na'r hyn yr ydym wedi'i gael o San Steffan. Mae adborth proffesiynol ar un o gynlluniau'r Llywodraeth, Dechrau'n Deg, yn dweud bod plant yn fwy parod i fynd i'r ysgol ac yn fwy hyderus wedi mynd drwy'r rhaglen.

Rai blynyddoedd yn ôl, ymwelais â dwy ysgol yn y Cymoedd—un ysgol feithrin ac un ysgol fabanod. Yn yr ysgol feithrin, roedd 21 o'r 24 disgybl yn dod o gartrefi lle roedd y rheini wedi'i gwahanu ac roedd angen i'r athrawon weithio'n galed gyda'r plant hynny. Yn y dosbarth derbyn yn yr ysgol fabanod, y brif her i'r athrawes oedd cael y plant i wrando. Mae sgiliau cyfathrebu yn gallu cael eu rhannu fel a ganlyn: mae 80% yn siarad, 15% yn darllen a dim ond 5% yn ysgrifennu. Felly, mae'r ffaith bod Dechrau'n Deg a'r cyfnod sylfaen yn hybu gallu plant i ryngweithio â'u ffrindiau, athrawon ac oedolion yn golygu eu bod yn cael hyder i siarad â'i gilydd. Mae hynny'n hollbwysig i'r plant sydd yn dod o'r cartrefi roeddwn yn sôn amdanynt.

Pan etholwyd y Llywodraeth mis Mai

Yn olaf, ychydig wythnosau yn ôl, nodais fod y ffaith nad oedd hyfforddiant ar gyfer y cyfnod sylfaen yn cael ei gynnig y tu allan i Gymru yn cyfyngu, i bob pwrpas, ar y gronfa o ddarpar athrawon ysgolion cynradd yma, yn ogystal â'r ffaith bod yr addysgu wedi'i ganoli mewn lleoliadau penodol yng Nghymru. Felly, roeddwn yn falch o glywed ar y cychwyn fod y Gweinidog yn ystyried tendro'r cymhwyster Meistr i brifysgolion y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid wyf yn hollol sicr yn dilyn ei ddatganiad heddiw a yw hynny'n dal yn wir. Er bod cwestiynau anochel o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gyda'r dull hwnnw, a wnaiff gadarnhau ei fod yn awr yn edrych ar y cyfnod sylfaen yn yr un ffordd?

Keith Davies: I too am pleased to contribute to this debate today, because I strongly agree with the Minister that teachers make a difference. We are lucky to live in a country where education is compulsory and open to all. As the First Minister said, education is fundamental to building an inclusive and fair society. The Welsh Government has taken several steps to direct money towards the front line, which is 1% more than what we have received from Westminster. Professional feedback on one of the schemes of the Welsh Government, Flying Start, tells us that children are more prepared for school and more confident having gone through that programme.

Some years ago, I visited two schools in the Valleys—one nursery school and one infants school. In the nursery school, 21 of the 24 pupils came from homes where the parents had separated and the teachers had to work very hard with those children. In the reception class in the nursery school, the main challenge for the teacher was getting the children to listen. Communication skills can be divided as follows: 80% is speaking, 15% is reading and only 5% is writing. Therefore, the fact that Flying Start and the foundation phase promote children's ability to interact with their friends, parents and adults means that they gain the confidence to speak to each other. That is crucial for the children who come from those homes that I mentioned.

When the Government was elected last May,

diwethaf, roedd sefyll cornel addysg yn blatfform allweddol, a chydabyddir rôl angenrheidiol athrawon a'u heffaith uniongyrchol ar ddatblygiad plant. Oherwydd hyn, ymrwymwyd i ehangu eu cyfleoedd gyrfa a'u gallu proffesiynol. Dyna mae'r Gweinidog yn ei gynnig yn awr. Mae cymhwyster Meistr yn awr yn un o sawl cam i ehangu datblygiad, gyda sawl cyfle arall ar gael ar ôl graddio. Fel cyn athro a chyn gyfarwyddwr addysg, gallaf gefnogi'r gwir bod addysgu nid yn unig yn gwneud gwahaniaeth, ond ei fod yn angenrheidiol i ddatblygiad sgiliau plant. Gall athro da gael effaith ar ddiddordebau a dewisiadau pwnc disgyblion.

Rwy'n cofio cysylltiadau rhwng yr athrawon a oedd yn addysgu yng nghyfnod allweddol 3 a'r dewis a wnaed gan blant yng nghyfnod allweddol 4. Yn ail, effeithiwyd ar y canfyddiad o ddefnyddioldeb pwnc. Bydd ansawdd addysgu da yn dod â phynciau penodol i sylw disgyblion. Maes pwysig arall, y soniodd David Rees amdano yn gynharach, yw arweinyddiaeth ysgol. Rwy'n cofio ymchwil o'r Brifysgol Agored rai blynyddoedd yn ôl yn dweud mai'r peth pwysicaf a wnawn yw penodi prifathrawon. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ffaith bod y canllawiau rheoli perfformiad a ddaeth i rym ym mis Ionawr yn gweld hyn fel ffactor pwysig.

Nododd Llywodraeth Cymru dair blaenoriaeth, sef gwella lefelau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi ar ganlyniadau addysg. Mae ansawdd addysgu da yn hanfodol i'r agenda ddiwygio, a bydd hyn yn digwydd drwy raglen y Llywodraeth. Cytunaf fod ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth yn allweddol er mwyn trawsnewid perfformiad ysgolion, a dyna pam rwy'n cefnogi'r cynnig y prynhawn yma ac yn falch o wneud hynny.

Darren Millar: I agree with many of the sentiments that have been expressed here this afternoon in that teaching really makes a difference. Indeed, it is with the encouragement of my old headteacher, Mr Bruce Pyatt of Ysgol Emrys ap Iwan, as it was then, that I got involved in politics in the first place. Therefore, it is he who is to blame

standing up for education was a key platform and the essential role of teachers was acknowledged along with their direct effect on children's development. Given this, a commitment was made to increase their career opportunities and professional abilities. That is what the Minister is offering today. The Master's qualification is now one of many steps to expand development, with several other opportunities available after graduation. As a former teacher and director of education, I can uphold the truth that teaching not only makes a difference but is essential to the development and skills of children. A good teacher can have an effect on the interests and subject choices of students.

I remember that there were links between the teachers teaching key stage 3 and the choices made by children in key stage 4. Secondly, the perceptions of the usefulness of a subject were affected. A good quality of teaching will bring specific subjects to the attention of students. Another important field, which David Rees mentioned earlier, is the leadership of schools. I remember research from the Open University some years ago saying that the appointment of headteachers is the most important thing that we do. This corresponds with the fact that performance management guidelines that came into force in January see this as an important factor.

The Welsh Government noted three priorities, namely improvement in the levels of literacy and numeracy and reducing the effects of poverty on educational outcomes. Good quality teaching is essential to the reform agenda, and this will happen through the Government's programme. I agree that teaching standards and leadership are key to transforming the performance of schools, and that is why I am pleased to support the motion this afternoon.

Darren Millar: Rwyf yn cytuno â llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd yma y prynhawn yma o ran y ffaith fod addysgu wir yn gwneud gwahaniaeth. Yn wir, anogaeth fy hen bennaeth, Mr Bruce Pyatt o Ysgol Emrys ap Iwan, fel ag yr oedd bryd hynny, a'm sbardunodd i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth yn y lle cyntaf. Felly, ef sydd

for me being here today.

Of course, professional standards are important. Qualifications are also important, and I am aware that the Welsh Government has been consulting on updated regulations on qualifications for school teachers in Wales, and I welcome that consultation. However, in looking at the document that has been put before us for debate today, I see that there is no reference whatsoever to overseas-trained teachers in the document. I would like to talk a little about overseas-trained teachers and the contribution that they can make to schools in Wales.

It is important, in my opinion, to have consistency in the quality of teaching in Wales, and I know that that is important to the Minister. However, I am concerned that, while the qualifications of teachers from EU countries are automatically recognised qualifications and they are allowed to teach in Welsh schools, those of teachers from Australia, Canada and New Zealand are not. That is somewhat of an anomaly given that each of those countries has performed better than Wales, and, indeed, the UK as a whole, in the PISA results, when those results were compared in 2009. Teachers from the countries that I am speaking about also do not have the language barrier that teachers from many EU countries can often have. I appreciate that overseas-trained teachers have a path to reach the status of qualified teacher via the graduate training programme, but I do not feel that it is a good use of Welsh Government resources to fund people to go on that programme when, frankly, they are already adequately qualified to deliver teaching in the classroom in Wales.

I want to highlight an example from my constituency. I recently met a young man who completed a degree in teacher training in Australia in 2001. Since then, he has been working in the teaching profession. He has 10 years of teaching experience, including experience of being the deputy headteacher of a large secondary school for a long time. He recently relocated to Wales—he holds both British and Australian citizenship—as his wife is Welsh. Therefore, they returned to Wales. However, since returning to Wales, he

ar fai fy mod yma heddiw.

Wrth gwrs, mae safonau proffesiynol yn bwysig. Mae cymwysterau hefyd yn bwysig, ac rwyf yn ymwybodol y bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddiweddarau'r rheoliadau ar gymwysterau i athrawon yng Nghymru, a chroesawaf yr ymgynghoriad hwnnw. Fodd bynnag, wrth edrych ar y ddogfen a roddwyd ger ein bron heddiw i'w thrafod, gwelaf nad oes cyfeiriad o gwbl ynddi at athrawon a hyfforddwyd dramor. Hoffwn sôn ychydig am athrawon a hyfforddwyd dramor a'r cyfraniad y gallant ei wneud i ysgolion yng Nghymru.

Mae'n bwysig, yn fy marn i, cael cysondeb yn ansawdd yr addysgu yng Nghymru, a gwn fod hynny'n bwysig i'r Gweinidog. Fodd bynnag, er bod cymwysterau athrawon o wledydd yr UE yn cael eu cydnabod yn awtomatig ac mae caniatâd iddynt addysgu yn ysgolion Cymru, rwyf yn bryderus nad yw hyn yn wir am athrawon o Awstralia, Canada a Seland Newydd. Mae hynny'n dipyn o anghysondeb o gofio fod pob un o'r gwledydd hynny wedi perfformio'n well na Chymru, ac, yn wir, y DU yn ei chyfanrwydd, yng nghanlyniadau PISA, pan gymharwyd y canlyniadau yn 2009. Nid oes gan athrawon o wledydd rwyf yn siarad amdanynt y rhwystr iaith chwaith, sydd yn aml yn wir am athrawon o wledydd yr UE. Rwyf yn sylweddoli bod llwybr gan athrawon a hyfforddwyd dramor i gyrraedd statws athro cymwys drwy gyfrwng y rhaglen hyfforddi i raddedigion, ond nid wyf yn teimlo ei fod yn ddefnydd da o adnoddau Llywodraeth Cymru i ariannu pobl i fynd ar y rhaglen honno pan maent eisoes, a dweud y gwir, yn ddigon cymwys i addysgu mewn dosbarth yng Nghymru.

Rwyf am dynnu sylw at enghraifft yn fy etholaeth. Yn ddiweddar, cyfarfûm â dyn ifanc a gwblhaodd radd mewn hyfforddiant athrawon yn Awstralia yn 2001. Ers hynny, bu'n gweithio yn y proffesiwn addysgu. Mae ganddo 10 mlynedd o brofiad addysgu, gan gynnwys profiad o fod yn ddirprwy bennaeth mewn ysgol uwchradd fawr am amser hir. Yn ddiweddar, symudodd i Gymru—mae ganddo ddinasyddiaeth Prydain ac Awstralia—oherwydd bod ei wraig yn Gymraes. Felly, gwnaethant ddychwelyd i Gymru. Fodd

says that he feels devalued, unappreciated and discriminated against in the way in which he has been treated, because his qualifications are not recognised in this country. As far as I am concerned, this is a man who has a significant amount to contribute and value to add to the Welsh education system; he is a qualified to an equal degree—or a higher degree, frankly—than some of those who are already working as qualified teachers within the Welsh education system and yet, for reasons unbeknown to me, the current arrangements do not allow him to work on a permanent basis in Welsh schools.

I find that quite extraordinary, and I know that the UK Government in England is currently consulting on proposals to allow reciprocal arrangements between England, Canada, Australia and New Zealand to ensure that people who are qualified in those countries are qualified to deliver in classrooms without the need for further work. I appreciate, Minister, that the debate that we are having today is not focused on this particular issue, but I wonder whether you could respond to that in summing up the debate today.

Christine Chapman: We may show a more balanced approach to gender today, but I am sure that the American polymath Henry B. Adams had it right when he said:

‘A teacher affects eternity; he can never tell where his influence stops.’

4.15 p.m.

We know that teachers have a singular chance to shape, for good or bad, young minds and, in turn, to determine, for good or bad, young lives. We certainly cannot underestimate the value of good teaching. I agree with other Members that there are, as Angela Burns said, some outstanding teachers out there in Wales today. That is why I very much welcome the Minister’s decision to encourage the Master’s programme, because I think that this move recognises the critical importance of teaching and the importance of the profession.

bynag, ers dychwelyd i Gymru, dywed ei fod yn teimlo wedi ei ddibrisio, heb ei werthfawrogi ac wedi ei wahaniaethu yn ei erbyn o ran y ffordd y mae wedi cael ei drin, oherwydd nad yw ei gymwysterau yn cael eu cydnabod yn y wlad hon. O’m safbwynt i, dyma ddyn sydd â chyfraniad a gwerth sylweddol i’w hychwanegu i system addysg Cymru; mae’n gymwys i’r un graddau—neu raddau uwch, a dweud y gwir—na rhai o’r athrawon sydd eisoes yn gweithio fel athrawon cymwysedig yn system addysg Cymru ac eto, am resymau diarwybod i mi, nid yw’r trefniadau presennol yn caniatáu iddo weithio’n barhaol yn ysgolion Cymru.

Mae hynny’n peri cryn syndod i mi, a gwn fod Llywodraeth y DU yn Lloegr yn ymgynghori ar hyn o bryd ar gynigion i ganiatáu trefniadau dwyochrog rhwng Lloegr, Canada, Awstralia a Seland Newydd i sicrhau bod pobl sydd â chymwysterau yn y gwledydd hynny yn gymwys i addysgu mewn ystafelloedd dosbarth heb fod angen iddynt chwilio am waith pellach. Rwyf yn sylweddoli, Weinidog, nad yw’r ddadl rydym yn ei chael heddiw yn canolbwyntio’n benodol ar y mater hwn, ond tybed a fyddai modd i chi ymateb iddo wrth grynhoi’r ddadl heddiw.

Christine Chapman: Efallai fod gennym agwedd fwy cytbwys at ryw heddiw, ond yr wyf yn siŵr fod y polymath o Americanwr, Henry B. Adams, yn gywir pan ddywedodd:

Mae athro yn cael effaith ar dragwyddoldeb; ni all byth ddweud lle mae ei ddylanwad yn dod i ben.

Rydym yn gwybod bod athrawon yn cael cyfle heb ei debyg i ffurfio, er lles neu er gwaeth, meddyliau ifanc ac, yn ei dro, i benderfynu, er lles neu er gwaeth, bywydau ifanc. Yn sicr ni allwn danbriso gwerth addysgu da. Rwy’n cytuno ag Aelodau eraill, ac fel y dywedodd Angela Burns, fod athrawon rhagorol i’w cael yng Nghymru heddiw. Dyna pam rwy’n croesawu’n fawr benderfyniad y Gweinidog i hybu’r rhaglen Meistr, oherwydd credaf fod y symudiad hwn yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol addysgu a phwysigrwydd y proffesiwn.

I will turn for a few minutes to the results of the Programme for International Student Assessment. Obviously, we were all concerned by last year's PISA results, but it was significant that the interpretation advanced by Andreas Schleicher, who oversees PISA for the Organisation for Economic Co-operation and Development, noted that the top-scoring countries are those where the support for the status of teachers is at its highest. I am glad that we are learning and considering examples from places like Finland, and I welcome the Minister's approach to looking at other good examples. As I said, I welcome the fact that we are looking at areas where teachers are held in very high regard. I also welcome the renewed focus on the importance of leadership and the role of headteachers in schools, because I think that a good or bad headteacher can make or break a school. If the leadership is poor, it affects the whole school, regardless of how good the teachers are in that system. You need that strong leadership.

On leadership, I think that it is important to work with the wider community. For example, we know that the success of Finland is also attributed to what is described as an absence of child poverty—children come to school ready and wanting to learn. I think that that is vital. As Estyn's annual report noted, schools cannot tackle the effects of poverty on their own, but by working with parents and community groups, the most effective schools form mutually beneficial relationships that can target additional support at disadvantaged learners and their families. I am aware from my very short time in teaching that it is quite difficult for children and young people to leave their background and problems at the door when they come into school. Good teachers will do their best, but it is quite difficult for children to suddenly switch off from the sorts of things that are happening at home. Young people are in school for a very short time compared to the rest of their lives, so I think the trick is that a good headteacher will work with the community as well.

Rwyf am droi am ychydig funudau at ganlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr. Yn amlwg, roedd canlyniadau PISA llynedd yn bryder i bob un ohonom, ond roedd yn arwyddocaol fod y dehongliad a roddwyd gan Andreas Schleicher, sy'n goruchwyllo PISA ar ran y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, sef mai'r gwledydd sy'n sgorio uchaf yw'r rheiny lle mae mwyaf o gefnogaeth i statws athrawon. Rwy'n falch ein bod yn dysgu ac yn ystyried enghreifftiau o leoedd fel y Ffindir, a chroesawaf benderfyniad y Gweinidog i edrych ar enghreifftiau da eraill. Fel y dywedais, croesawaf y ffaith ein bod yn edrych ar leoedd lle mae athrawon yn uchel iawn eu parch. Croesawaf hefyd y ffocws o'r newydd ar bwysigrwydd arweinyddiaeth a rôl penaethiaid mewn ysgolion, gan fy mod yn credu y gall pennaeth da neu ddrwg wneud byd o wahaniaeth i ysgol. Os yw'r arweinyddiaeth yn wael, mae'n effeithio ar yr ysgol gyfan, waeth pa mor dda yw'r athrawon yn y system honno. Mae angen yr arweinyddiaeth gref honno.

O ran arweinyddiaeth, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig gweithio gyda'r gymuned ehangach. Er enghraifft, gwyddom fod llwyddiant y Ffindir yn cael ei briodoli hefyd i'r hyn a ddisgrifir fel absenoldeb tlodi plant—mae plant yn dod i'r ysgol yn barod ac yn awyddus i ddysgu. Rwy'n meddwl bod hynny'n hanfodol. Fel y nododd adroddiad blynyddol Estyn, ni all ysgolion fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ar eu pen eu hunain, ond, drwy weithio gyda rhieni a grwpiau cymunedol, mae'r ysgolion mwyaf effeithiol yn ffurfio perthynas sydd o fudd i'r ddwy ochr er mwyn targedu cymorth ychwanegol at ddysgwyr o dan anfantais a'u teuluoedd. O'r cyfnod byr iawn y bûm i'n athrawes, rwy'n ymwybodol ei bod yn eithaf anodd i blant a phobl ifanc adael eu cefndir a'u problemau wrth y drws pan fyddant yn dod i'r ysgol. Bydd athrawon da yn gwneud eu gorau, ond mae'n eithaf anodd i blant yn sydyn anghofio'n llwyr am yr hyn sy'n digwydd yn y cartref. Dim ond am gyfnod byr iawn y mae pobl ifanc yn yr ysgol o gymharu â gweddill eu bywydau, felly rwy'n meddwl mai camp pennaeth da yw gweithio gyda'r gymuned yn ogystal.

While there is no magic wand to solve these problems, they offer definite opportunities for strong leadership to effect fundamental change. Again, I endorse the revised professional standards for educational practitioners. I know that there is a link there and that working in the community is an important aspect of that. There are some very good examples of this that I could cite from my own constituency, but I would particularly like to mention the outreach work carried out by Pontypridd High School and Mountain Ash Comprehensive School. Those two schools have done some very good work with their communities. In Pontypridd High School, the school inspectors used the word 'outstanding' to describe the effects of its link with its local communities.

In conclusion, I know that the Estyn annual report noted some problems with data and the sharing of good practice in this area, so I wonder whether the Minister could say something about the assessment that he has made of the links between schools and communities to tackle poverty and what progress is being made. Also, can we make sure that these new requirements allow us to promote best practice across the board?

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): I welcome the broad consensus that there has been during this debate. We will support the Conservatives' amendment 1 that repeats a tribute to teachers that we ourselves tabled in a debate in January. We will not support the rather churlish Conservative amendment 3 that refuses to welcome the new Master's in educational practice, but we will support amendment 4 on teaching variation. We will be supporting Plaid Cymru's amendment 2 in relation to the Estyn report, although the Assembly will have a proper opportunity to debate the Estyn report in full at a later date.

We will not be supporting the Liberal Democrats' amendment 5 because there are other ways in which we are supporting newly qualified teachers. We will accept the Liberal Democrats' amendment 6, as we believe that we are ensuring the highest international standards for the new Master's programme.

Er nad oes ffon hud i ddatrys y problemau hyn, maent yn cynnig cyfleoedd pendant ar gyfer arweinyddiaeth gref i greu newid sylfaenol. Unwaith eto, cymeradwyaf y safonau diwygiedig proffesiynol i ymarferwyr addysgol. Rwy'n gwybod bod cysylltiad yno a bod gweithio yn y gymuned yn agwedd bwysig ar hynny. Mae rhai enghreifftiau da iawn o hyn yn fy etholaeth fy hun y gallwn eu dyfynnu, ond rwy'n arbennig o awyddus i sôn am y gwaith allgymorth a gynhaliwyd gan Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun Aberpennar. Mae'r ddwy ysgol hynny wedi gwneud gwaith da iawn gyda'u cymunedau. Yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, defnyddiodd yr arolygwyr ysgol y gair 'rhagorol' i ddisgrifio effeithiau ei chysylltiadau â'i chymunedau lleol.

I gloi, rwy'n gwybod bod adroddiad blynyddol Estyn yn nodi rhai problemau gyda data a rhannu arfer da yn y maes hwn, felly tybed a allai'r Gweinidog ddweud rhywbeth am yr asesiad a wnaeth o'r cysylltiadau rhwng ysgolion a chymunedau i fynd i'r afael â thlodi, a pha gynnydd sy'n cael ei wneud. Hefyd, a allwn wneud yn siŵr bod y gofynion newydd yn ein galluogi i hyrwyddo arfer gorau ar bob lefel?

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Croesawaf y consensws eang sydd wedi'i fynegi yn ystod y ddadl hon. Byddwn yn cefnogi gwelliant 1 y Ceidwadwyr sy'n ailadrodd teyrnged i athrawon y gwnaethom ni ein hunain ei chyflwyno mewn dadl ym mis Ionawr. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 3 y Ceidwadwyr, sydd ychydig yn sarrug ac sy'n gwrthod croesawu'r radd Meistr newydd mewn ymarfer addysgol, ond byddwn yn cefnogi gwelliant 4 ar amrywiaethau addysgu. Byddwn yn cefnogi gwelliant 2 Plaid Cymru mewn perthynas ag adroddiad Estyn, er y bydd y Cynulliad yn cael cyfle priodol i drafod adroddiad Estyn yn llawn yn ddiweddarach.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 5 y Democratiaid Rhyddfrydol oherwydd mae gennym ffyrdd eraill o gefnogi athrawon newydd gymhwyso. Byddwn yn derbyn gwelliant 6 y Democratiaid Rhyddfrydol, gan y credwn ein bod yn sicrhau'r safonau uchaf rhyngwladol ar gyfer y rhaglen Meistr

Finally, we will reject the Liberal Democrats' amendment 7 calling for a review of the NPQH, as we have already reviewed the NPQH.

If I may say a few words about some of the contributions during the course of the debate, I welcome the broad support from the opposition spokesperson in relation to the agenda that we have set out today. I have to take issue with her when she talks of 10 years of sliding standards, because standards have actually been rising in Wales over the last decade, and we have seen fewer young people leaving education without qualifications.

She referred to the burden of paperwork, and I am anxious to reduce the burden of paperwork that descends upon teachers. In my first month, I asked my department how many publications that it planned to issue before May 2011. I was told that the figures were something like '186, Minister, with 90 of them before this June'. I told my department immediately to reduce that by at least 50%. I had no other metrics on which to go. We have moved a lot of our material online and we have reduced the amount of paperwork that is going out to teachers.

On the issue of teacher training, one of the big challenges in this regard was raised by a Conservative Member for South Wales West. It has become apparent to me that one of the things that we do not do well on the whole—I think that this is generally the case across the UK and it goes back over some time—is to teach teachers in their initial teacher training how to teach literacy and reading skills. We have to see all teachers as teachers of literacy, and that is why I want this to be embedded in the future.

The Plaid Cymru spokesperson again paid tribute to the quality of teaching in Wales and raised some of the issues in respect of outstanding teaching that were addressed in the recent Estyn report. That report relates to 2010-11, before we had outlined a number of the developments that we are currently making. As I said, we will return to that in a fuller debate in due course.

newydd. Yn olaf, byddwn yn gwrthod gwelliant 7 y Democratiaid Rhyddfrydol sy'n galw am adolygiad o'r CPCP, gan ein bod eisoes wedi adolygu'r CPCP.

Os caf ddweud ychydig eiriau am rai o'r cyfraniadau yn ystod y ddadl, rwy'n croesawu'r gefnogaeth eang gan lefarydd yr wrthblaid mewn perthynas â'r agenda yr ydym wedi'i hamlinellu heddiw. Rhaid imi anghytuno gyda hi pan mae'n sôn bod safonau wedi llithro ers 10 mlynedd, gan fod safonau wedi bod yn codi mewn gwirionedd yng Nghymru dros y degawd diwethaf, ac rydym wedi gweld llai o bobl ifanc yn gadael addysg heb gymwysterau.

Cyfeiriodd at y baich gwaith papur, ac rwy'n awyddus i leihau baich gwaith papur athrawon. Yn fy mis cyntaf, gofynnais i fy adran faint o gyhoeddiadau yr oedd yn bwriadu eu cyhoeddi cyn mis Mai 2011. Dywedwyd wrthyf fod y ffigurau'n rhywbeth fel '186, Weinidog, gyda 90 ohonynt cyn diwedd Mehefin'. Dywedais wrth fy adran ar unwaith i leihau hynny 50% o leiaf. Nid oedd gen i ddim mesur arall i'w ddilyn. Rydym wedi symud llawer o'n deunydd ar-lein ac wedi lleihau'r gwaith papur sy'n cael ei anfon at athrawon.

O ran y mater o hyfforddi athrawon, soniodd yr Aelod Ceidwadol dros Orllewin De Cymru am un o'r heriau mawr yn y cyswllt hwn. Mae wedi dod yn amlwg i mi mai un o'r pethau nad ydym yn eu gwneud yn dda ar y cyfan—credaf fod hyn yn wir yn gyffredinol ledled y DU ac mae'n mynd yn ôl dros amser—yw addysgu athrawon yn eu hyfforddiant cychwynnol sut i addysgu llythrennedd a sgiliau darllen. Mae'n rhaid inni ystyried yr holl athrawon fel athrawon llythrennedd, a dyna pam rwyf am i hyn gael ei sefydlu'n llawn yn y dyfodol.

Talodd llefarydd Plaid Cymru hefyd deyrnged i ansawdd yr addysgu yng Nghymru a chododd rhai o'r materion o ran addysgu rhagorol y soniwyd amdanynt yn adroddiad diweddar Estyn. Cyfeirio at 2010-11 mae'r adroddiad hwnnw, sef cyn ein bod wedi amlinellu nifer o'r datblygiadau yr ydym yn eu gwneud ar hyn o bryd. Fel y dywedais, byddwn yn dychwelyd at hynny mewn trafodaeth lawnach maes o law.

I am glad that he also paid tribute to the foundation stage and supported what we are doing on continuous professional development and the Master's qualification. The Liberal Democrat spokesperson asked a number of questions of detail on the new Master's programme. We are moving through the CPD programme to ensure the sharing of best practice, and we expect the moneys that we have made available through the school effectiveness grant and the pupil deprivation grant to enable improvements in professional practice. We want that money to be used by schools to support the national objectives that we have set out for our school effectiveness framework of literacy, numeracy and doing something about the links between poverty and poor attainment. We are taking on board international best practice and the task and finish group on the Master's qualification will meet once the procurement is complete.

My colleagues the Members for Aberavon and Llanelli both spoke with great passion from their own experience of working in this field. My colleague the Member for Aberavon raised the issue of the need to expand CPD and also the importance of leadership. I want to pay tribute to his local authority of Neath Port Talbot. He was about to do so when he ran out of time. I have seen some excellent practice in his local authority, including at Sandfields in his constituency, where I have seen teachers and pupils engaged, for example, in the development of our school effectiveness framework. There is some leading practice in terms of pastoral care in Sandfields as well.

I think that I addressed some of the issues that were raised by a Conservative Member for South Wales West. My colleague the Member for Llanelli also referred to the best practice that we have in terms of early years—not just the foundation phase, but also Flying Start—the importance of communication skills and the emphasis that we have placed on those issues.

I did not catch the name of the former headteacher of the Member for Clwyd West,

Rwy'n falch ei fod hefyd yn talu teyrnged i'r cyfnod sylfaen ac yn cefnogi'r hyn yr ydym yn ei wneud ar ddatblygiad proffesiynol parhaus a'r cymhwyster Meistr. Gofynnodd llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol nifer o gwestiynau am fanylion y rhaglen Meistr newydd. Rydym yn symud ymlaen â'r rhaglen DPP gan sicrhau bod arfer gorau'n cael ei rannu, ac rydym yn disgwyl i'r arian yr ydym wedi'i roi drwy'r grant effeithiolrwydd ysgolion a'r grant amddifadedd disgyblion gael ei ddefnyddio i alluogi gwelliannau mewn ymarfer proffesiynol. Rydym am i ysgolion ddefnyddio'r arian hwnnw i gefnogi'r amcanion cenedlaethol yr ydym wedi'u pennu ar gyfer ein fframwaith effeithiolrwydd ysgolion ar lythrennedd, rhifedd a gwneud rhywbeth am y cysylltiadau rhwng tlodi a chyrhaeddiad gwael. Rydym yn astudio arferion rhyngwladol gorau a bydd y grŵp gorchwyl a gorffen ar y cymhwyster Meistr yn cyfarfod ar ôl cwblhau'r broses gaffael.

Siaradodd fy nghydweithwyr yr Aelodau dros Aberafan a Llanelli gydag angerdd mawr o'u profiad eu hunain o weithio yn y maes hwn. Cododd fy nghydweithiwr yr Aelod dros Aberafan yr angen i ehangu DPP a phwysigrwydd arweinyddiaeth. Hoffwn dalu teyrnged i'w awdurdod lleol, sef Castell-nedd Port Talbot. Roedd ar fin gwneud hynny ei hun pan aeth amser yn drech nag ef. Rwyf wedi gweld rhywfaint o arfer rhagorol yn ei awdurdod lleol, gan gynnwys yn Sandfields yn ei etholaeth, lle rwyf wedi gweld yr athrawon a'r disgyblion yn ymwneud â datblygu ein fframwaith effeithiolrwydd ysgolion. Mae arferion blaenllaw o ran gofal bugeiliol ar waith yn Sandfields hefyd.

Credaf fy mod wedi ymdrin â rhai o'r materion a godwyd gan Aelod Ceidwadol dros Orllewin De Cymru. Cyfeiriodd fy nghydweithiwr yr Aelod dros Lanelli hefyd at yr arfer gorau sydd gennym o ran y blynyddoedd cynnar—nid yn unig y cyfnod sylfaen, ond Dechrau'n Deg hefyd—pwysigrwydd sgiliau cyfathrebu a'r pwyslais yr ydym wedi ei roi ar y materion hynny.

Ni chlywais yn iawn beth oedd enw pennaeth ysgol yr Aelod dros Orllewin Clwyd, ac

and I suspect that quite a number of us would like to know the name of that headteacher, who encouraged him to enter politics. However, I will happily look at the issue that he raised in respect of international experience. It is probably false to draw a distinction between EU countries. We are a member of the EU, and I am pleased that we are a member of the European Union, although I do not know whether the Member for Clwyd West is. However, I am perfectly happy to look at issues related to equivalence of qualifications, and if he would care to write to me with a specific example, I would be pleased to look at that.

My colleague the Member for Cynon Valley also welcomed the Master's and drew attention, again, to the importance of leadership and learning from international experience. She raised a number of examples of good experience, where schools have been engaged in reaching out to their communities. We know, I think, that where schools are engaging actively with the community and with the family, they are more likely to have an impact on attainment, particularly on issues of literacy. That is something that we applaud and support, and it is important to our strategy. Deputy Presiding Officer, there has been a great deal of consensus here today, I am pleased to say. We are demonstrating that we are setting out an agenda that will support our teachers in the future.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that they do not. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that they do not. Amendment 2 is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? I see that they do.

rwy'n amau y byddai nifer ohonom yn hoffi gwybod enw'r pennaeth hwnnw a'i anogodd i fynd i fyd gwleidyddiaeth. Fodd bynnag, rwy'n fodlon edrych ar y mater a gododd mewn perthynas â phrofiad rhyngwladol. Efallai nad yw'n iawn i wahaniaethu rhwng gwledydd yr UE. Rydym yn aelod o'r UE, ac rwy'n falch ein bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, er nad wyf yn gwybod a yw'r Aelod dros Orllewin Clwyd yn falch o hynny. Fodd bynnag, rwy'n berffaith fodlon edrych ar faterion sy'n ymwneud â chywerthedd cymwysterau, ac os hoffai ysgrifennu ataf gydag enghraifft benodol, byddwn yn falch o edrych ar hynny.

Mae fy nghydweithiwr yr Aelod dros Gwm Cynon hefyd yn croesawu'r radd Meistr ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth a dysgu o brofiad rhyngwladol. Soniodd am nifer o enghreifftiau o brofiad da, lle mae ysgolion wedi bod yn estyn allan i'w cymunedau. Rwy'n meddwl ein bod yn gwybod, os yw ysgolion yn gweithio â'r gymuned a theuluoedd, eu bod yn fwy tebygol o gael effaith ar gyrhaeddiad, yn enwedig ar faterion llythrennedd. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei gymeradwyo a'i gefnogi, ac mae'n bwysig i'n strategaeth. Ddirprwy Lywydd, rwy'n falch o ddweud y cafwyd llawer o gonsensws yma heddiw. Rydym yn dangos ein bod yn sefydlu agenda a fydd yn cefnogi ein hathrawon yn y dyfodol.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, cafodd gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, cafodd gwelliant 2 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly,

Therefore, I defer all further voting under this item to voting time.

rwy'n gohirio'r bleidlais ar y cynnig hwn tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Hwyluso'r Drefn—Ffordd Newydd o Reoleiddio yn y Diwydiant Amaeth Working Smarter—A New Approach to Regulation in the Agriculture Industry

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 4 a 5 yn enw Peter Black, a gwelliannau 2 a 3 yn enw William Graham.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 4 and 5 in the name of Peter Black, and amendments 2 and 3 in the name of William Graham.

NDM4907 Jane Hutt

NDM4907 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi 'Hwyluso'r Drefn—Adroddiad o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar well rheoleiddio ym maes Ffermio'.

Notes 'Working Smarter—A report of recommendations to the Welsh Government on better regulation in Farming'.

The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies): I move the motion.

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies): Cynigiau y cynnig.

I am delighted to have the opportunity this afternoon to move the motion and also to take the opportunity to thank Gareth Williams for the way in which he has worked with us over the last few months on this project. I want to express my gratitude to Gareth. It is a real testament to Gareth's work that, in 16 weeks, he was able to hold over 80 meetings with 250 participants from across the industry and throughout Wales to compile his evidence. The work will stand the test of time. It is an excellent way of starting a new relationship and a new way of working with the farming industry. This work builds on the work of Peredur Hughes on the red tape review, which was undertaken by the previous Government. I would also like to pay tribute to the work of Peredur Hughes. This seeks to build on his work and to take that work forward.

Rwy'n falch iawn o'r cyfle y prynhawn yma i gynnig y cynnig ac i fanteisio ar y cyfle i ddiolch i Gareth Williams am y ffordd y mae wedi gweithio ar y prosiect hwn gyda ni dros y misoedd diwethaf. Hoffwn fynegi fy niolech i Gareth. Mae'n dyst i waith caled Gareth iddo gynnal dros 80 o gyfarfodydd mewn 16 wythnos gyda 250 o gyfranogwyr o bob rhan o'r diwydiant a ledled Cymru er mwyn casglu ei dystiolaeth. Bydd y gwaith yn gwrthsefyll treigl amser. Mae'n ffordd wych o ddechrau perthynas newydd ac yn ffordd newydd o weithio gyda'r diwydiant ffermio. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar waith Peredur Hughes ar yr adolygiad o fiwrocratiaeth a gynhaliwyd gan y Llywodraeth flaenorol. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i waith Peredur Hughes. Mae hyn yn ceisio adeiladu ar ei waith a datblygu'r gwaith hwnnw.

Before making any preliminary remarks, I would like to outline the Government's position in response to the amendments that have been tabled to the motion. We will be supporting amendment 1 in the name of Peter

Cyn gwneud unrhyw sylwadau rhagarweiniol, hoffwn amlinellu safbwynt y Llywodraeth mewn ymateb i'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno i'r cynnig. Byddwn yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Peter Black, sy'n

Black, which seeks to welcome the report. We will also support amendment 2 in the name of William Graham. At this juncture, I will say that we will be publishing an annual autumn update on progress in 2012, 2013 and 2015, in line with the delivery timescales set out in the report. In addition to this, I can tell Members this afternoon that Gareth Williams has agreed to return to report on our progress in a year's time.

We will be rejecting amendment 3 in the name of William Graham, because while we are committed to the delivery of all 74 recommendations, this is the beginning of a process and of a way of working together. I hope that Members will accept that, and accept that as we seek to deliver all 74 recommendations, we might well seek to do so in a way that is different to what is written today. I hope that Members will accept that we will be doing that in good faith. We will also be rejecting amendments 4 and 5, tabled in the name of Peter Black. In amendment 4, he seems to be asking us to do things extraordinarily quickly and in amendment 5, he criticises us for doing so. We will be implementing the recommendations according to the timescales that Gareth Williams has outlined in that report, and we believe that it is right and proper that we do so.

Let me state clearly at the beginning of the debate what the purpose of initiative has been. It is not simply the red tape review, which has the single objective of reducing regulation. It builds on that work, certainly, but it seeks to go much further and wider than that. Its vision and ambition is to change fundamentally the way in which we do business. That means that the process does not simply demand change from Government: it demands change from the industry as well. Gareth Williams has set some very real challenges for Government in delivering these recommendations, but, in doing so, we will also challenge the industry. Like many people reading the report, I was dismayed to discover that farmers could potentially receive over 3,000 pages of information, relating to regulations and schemes in any 12-month period, and that

croesawu'r adroddiad. Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 2 yn enw William Graham. Hoffwn ddweud yma y byddwn yn cyhoeddi diweddariad blynyddol yn yr hydref ar y cynnydd yn 2012, 2013 a 2015, a hynny'n unol â'r amserlenni a nodwyd yn yr adroddiad. Yn ogystal â hyn, gallaf ddweud wrth yr Aelodau y prynhawn yma fod Gareth Williams wedi cytuno i ddychwelyd i adrodd ar ein cynnydd ymhen blwyddyn.

Byddwn yn gwrthod gwelliant 3 yn enw William Graham, oherwydd er ein bod wedi ymrwmo i gyflawni pob un o'r 74 o argymhellion, mae hyn yn ddechrau proses a ffordd o gydweithio. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n derbyn hynny, ac yn derbyn, wrth i ni geisio cyflawni pob un o'r 74 o argymhellion, y byddwn efallai'n ceisio gwneud hynny mewn ffordd sy'n wahanol i'r hyn sydd wedi'i nodi heddiw. Gobeithio y bydd Aelodau yn derbyn y byddwn yn gwneud hynny mewn ewyllys da. Byddwn hefyd yn gwrthod gwelliannau 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Peter Black. Yng ngwelliant 4, ymddengys ei fod yn gofyn inni wneud pethau'n hynod o gyflym ond yng ngwelliant 5, mae'n ein beirniadu am wneud hynny. Byddwn yn gweithredu'r argymhellion yn unol â'r graddfeydd amser y mae Gareth Williams wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad hwnnw, ac rydym yn credu ei bod yn iawn ac yn briodol ein bod yn gwneud hynny.

Gadewch i mi ddatgan yn glir ar ddechrau'r ddadl beth oedd pwrpas y fenter hon. Nid yr adolygiad o fiwrocratiaeth yn unig yw hi, sydd â'r amcan bendant o leihau rheoleiddio. Mae'n adeiladu ar y gwaith hwnnw, yn sicr, ond mae'n ceisio mynd yn llawer pellach ac ehangach na hynny. Ei gweledigaeth a'i huchelgais yw newid yn sylfaenol y ffordd yr ydym yn gwneud busnes. Mae hynny'n golygu nad yw'r broses ond yn galw am newid gan y Llywodraeth: mae'n gofyn am newid gan y diwydiant yn ogystal. Mae Gareth Williams wedi amlinellu rhai heriau gwirioneddol ar gyfer y Llywodraeth wrth gyflawni'r argymhellion hyn, ond, wrth wneud hynny, byddwn hefyd yn herio'r diwydiant. Fel llawer o bobl a fydd yn darllen yr adroddiad, roeddwn yn siomedig i ddarganfod y gall ffermwyr gael dros 3,000 o dudalennau o wybodaeth, yn ymwneud â

there are over 50 organisations that have an interest in farming in Wales.

4.30 p.m.

We have sought, over the last few months since taking office in May, to ensure that we have embarked upon one of the most thorough and honest assessments of how the Welsh Government delivers its policies and services for the industry. We have sought to explain the complexity of farming regulations, and I hope that we have identified many new opportunities for improvement.

I was pleased to read in the report that we are in many ways already working effectively with farmers to explain regulation and aid compliance. Services such as the farm liaison service and Farming Connect are universally appreciated by farmers. The front-office service in the divisional offices is also highly valued, and Gareth recommends that these face-to-face contact services be enhanced. I am fully supportive of doing so and will seek additional means of delivering that ambition. We recognise that these services are admired over the border in England where, until recently, farmers have not been able to benefit from this kind of support.

In a similar vein, Gareth is highly complimentary of the young entrants support scheme, which has helped 250 young people into farming in its first two years. This will stimulate innovation and entrepreneurship. It is also a demonstration of a Welsh solution to an industry-wide problem in farming that was developed in partnership with the industry. Farmer-to-farmer mentoring has proved beneficial in this scheme, and I shall certainly be looking at the possibility of extending this approach to other schemes.

In this report, Gareth Williams identifies seven key issues, concluding with the communications and the methods by which

rheoliadau a chynlluniau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, a bod dros 50 o sefydliadau sydd a wnelont â ffermio yng Nghymru.

Yn ystod y misoedd diwethaf, ers dod i rym ym mis Mai, rydym wedi ceisio sicrhau ein bod wedi dechrau un o'r asesiadau mwyaf trylwyr a gonest o sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ei pholisïau ac yn darparu ei gwasanaethau i'r diwydiant. Rydym wedi ceisio egluro cymhlethdod y rheoliadau ffermio, a gobeithiaf ein bod wedi nodi llawer o gyfleoedd newydd i wella.

Roeddwn yn falch o ddarllen yn yr adroddiad ein bod yn gweithio'n effeithiol yn barod gyda ffermwyr mewn nifer o ffyrdd i egluro rheoleiddio iddynt ac i'w cynorthwyo o ran cydymffurfio. Mae gwasanaethau fel y gwasanaeth cysylltwyr fferm a Cyswllt Ffermio yn cael eu gwerthfawrogi'n gyffredinol gan ffermwyr. Mae'r gwasanaeth blaen swyddfa yn y swyddfeydd rhanbarthol hefyd yn cael ei werthfawrogi, ac mae Gareth yn argymhell bod y gwasanaethau cyswllt wyneb-yn-wyneb hyn yn cael eu gwella. Rwy'n llwyr gefnogi gwneud hynny, a byddaf yn chwilio am ffyrdd ychwanegol o gyflawni'r uchelgais hwnnw. Rydym yn cydnabod bod y gwasanaethau hyn yn cael eu hedmygu dros y ffin yn Lloegr, lle nad oedd ffermwyr yn gallu manteisio ar y math hwn o gymorth tan yn ddiweddar.

Yn yr un modd, mae Gareth yn canmol yn fawr y cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid ifanc, sydd wedi helpu dod â 250 o bobl ifanc i mewn i'r diwydiant ffermio yn y ddwy flynedd ers iddo gael ei sefydlu. Bydd hyn yn annog arloesedd ac entrepreneuriaeth. Mae hefyd yn enghraifft o ateb Cymreig, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r diwydiant, i broblem a geir ar draws y diwydiant ffermio. Mae mentora ffermwr-i-ffermwr wedi bod yn fuddiol yn y cynllun hwn, a byddaf yn sicr yn ystyried y posibilrwydd o ymestyn y dull hwn i gynlluniau eraill.

Mae Gareth Williams yn nodi saith mater allweddol yn yr adroddiad, gan orffen gyda chyfathrebu a'r dulliau a ddefnyddiwn i

we speak to the farming community. He highlights that we quite often fall below the required standard in assisting farming customers to understand what are quite often complex regulations and policies. Many regulations, such as those under the CAP, are highly complex, so it is our job to ensure that essential information is conveyed clearly by all manner of means to ensure clear understanding. We are not always getting it right. While the farm liaison service and Farming Connect work well, there are examples of poor written communication, and I intend to ensure that that changes. We need to improve communications and engagement with our customers, and I will ensure that this happens quickly.

We all understand the importance of the CAP. It is essential that farmers complete the single application form correctly to secure accurate and timely payment of the single payment. I am pleased to announce that we are investing heavily in the development of an online application system that will make the application process easier for farmers, with fewer opportunities for error. We shall work closely with the farming community to develop and test the system, ensuring that it meets the needs of farmers and regulators. I endorse Gareth's emphasis on the need to progress the next-generation broadband programme to ensure equal access for all to online systems.

Farm inspections are a necessary part of controls. We understand why they take place. However, all too often, inspectors visit farms too often, sometimes to check on very similar things. Gareth outlines 13 example inspections, which in theory could happen at any one farm in any one year. Understandably, many people are confused and frustrated by this. We have made progress previously in combining some inspections, but I accept that a lot more needs to be done, starting with the various inspection bodies sitting down and sharing information and then rationalising farm inspections wherever possible. The recommendation to ensure a consistent approach across all inspection bodies, together with a common approach to training,

siarad â'r gymuned ffermio. Mae'n nodi ein bod, yn eithaf aml, yn disgyn yn is na'r safon ofynnol o ran helpu cwsmeriaid ffermio i ddeall rheoliadau a pholisiau sydd, yn eithaf aml, yn gymhleth. Mae nifer o reoliadau, fel y rhai o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, yn arbennig o gymhleth; felly, ein gwaith ni yw sicrhau bod y wybodaeth hanfodol yn cael ei chyfleu yn glir mewn nifer o ffyrdd i sicrhau dealltwriaeth glir. Nid ydym bob amser yn cyrraedd y nod yn hynny o beth. Er bod y gwasanaeth cysylltwyr fferm a Cyswllt Ffermio yn gweithio'n dda, ceir enghreifftiau o gyfathrebu ysgrifenedig gwael, ac rwy'n bwriadu sicrhau bod hynny'n newid. Mae angen inni wella'r modd y cyfathrebir ac yr ymgysylltir â'n cwsmeriaid, a byddaf yn sicrhau bod hyn yn digwydd yn gyflym.

